# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Chwefror 2021

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.Senedd.TV**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00-09.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws): Sesiwn dystiolaeth

09.30-10.30 (Tudalennau 1 - 39)

Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Christopher Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr - y Cyfansoddiad a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru

Dorian Brunt, Uwch Gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) (fel y'i cyflwynwyd)

Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) - Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-04-21 - Papur briffio**

**CLA(5)-04-21 - Papur 1** - Crynodeb o'r Bil

**CLA(5)-04-21 - Papur 2** - Datganiad ysgrifenedig

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10.30-10.35

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**3.1 SL(5)729 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021**

(Tudalennau 40 - 57)

**CLA(5)-04-21 - Papur 3** - Adroddiad

**CLA(5)-04-21 - Papur 4** - Rheoliadau

**CLA(5)-04-21 - Papur 5** - Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-04-21 - Papur 6** - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 22 Ionawr 2021

**CLA(5)-04-21 - Papur 7** - Datganid ysgrifenedig, 22 Ionawr 2021

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**3.2 SL(5)728 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 58 - 75)

**CLA(5)-04-21 - Papur 8** - Adroddiad

**CLA(5)-04-21 - Papur 9** - Rheoliadau

**CLA(5)-04-21 - Papur 10** - Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-04-21 - Papur 11** - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Ionawr 2021

**CLA(5)-04-21 - Papur 12** - Datganiad ysgrifenedig, 21 Ionawr 2021

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

10.35-10.40

**4.1 SL(5)703 - Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 76 - 78)

**CLA(5)-04-21 – Papur 13** – Adroddiad

**CLA(5)-04-21 – Papur 14** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.2 SL(5)707 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 79 - 83)

**CLA(5)-04-21 – Papur 15** – Adroddiad

**CLA(5)-04-21 – Papur 16** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.3 SL(5)723 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 84 - 87)

**CLA(5)-04-21 – Papur 17** – Adroddiad

**CLA(5)-04-21 – Papur 18** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.4 SL(5)725 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021**

(Tudalennau 88 - 91)

**CLA(5)-04-21 – Papur 19** – Adroddiad

**CLA(5)-04-21 – Papur 20** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.5 SL(5)726 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021**

(Tudalennau 92 - 96)

**CLA(5)-04-21 – Papur 21** – Adroddiad

**CLA(5)-04-21 – Papur 22** – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.7

10.40-10.45

**5.1 SL(5)727 – Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021**

(Tudalennau 97 - 130)

**CLA(5)-04-21 – Papur 23** – Adroddiad

**CLA(5)-04-21 – Papur 24** – Cod Ymarfer

**CLA(5)-04-21 – Papur 25** – Memorandwm Esboniadol

## 6 Offerynnau statudol y mae angen i'r Senedd gydsynio â hwy (Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol)

10.45-10.50

**6.1 SICM(5)39 – Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Addysg, Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) 2021**

(Tudalennau 131 - 152)

**CLA(5)-04-21 – Papur 26** – Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

**CLA(5)-04-21 – Papur 27** – Rheoliadau

**CLA(5)-04-21 – Papur 28** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-35-20 – Papur 29** – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**CLA(5)-04-21 – Papur 30** – Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-04-21 – Papur 31** – Sylwadau

## 7 Papurau i'w nodi

10.50-10.55

**7.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesur Dros Dro) (Covid-19) (Diwygio) 2021**

(Tudalen 153)

**CLA(5)-04-21 – Papur 32** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 25 Ionawr 2021

**7.2 Gohebiaeth gyda'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder: Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru**

(Tudalennau 154 - 155)

**CLA(5)-04-21 – Papur 33** – Llythyr gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, 28 Ionawr 2021

**CLA(5)-04-21 – Paper 34** – Llythyr at yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, 22 Rhagfyr 2020

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10.55

## 9 Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) – trafod y dystiolaeth

10.55-11.25

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil yr Amgylchedd – trafod yr adroddiad drafft

11.25-11.40 (Tudalennau 156 - 186)

**CLA(5)-04-21 – Papur 35** – Adroddiad drafft

**CLA(5)-04-21 – Papur 36** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 26 Ionawr 2021

**CLA(5)-04-21 – Papur 37** – Llythyr at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 23 Rhagfyr 2020

**CLA(5)-04-21 – Papur 38** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 28 Awst 2020

**CLA(5)-04-21 – Papur 39** – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

## 11 Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig – papur briffio

11.40-11.45 (Tudalennau 187 - 194)

**CLA(5)-04-21 – Papur 40** – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## 12 Fframweithiau Cyffredin – diweddariad

11.45-11.50 (Tudalennau 195 - 197)

**CLA(5)-04-21 – Papur 41** – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 28 Ionawr 2021


## Dyddiad y cyfarfod nesaf – 8 Chwefror 2021

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

Eitem 2

# Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws):
Crynodeb o'r Bil

Ionawr 2021





ymchwil.senedd.cymru/

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru/**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7270**
E-bost: **Gruffydd.Owen@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# **Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws):** Crynodeb o'r Bil

Ionawr 2021

**Awduron:**
Gruffydd Owen a Lucy Morgan



ymchwil.senedd.cymru/

# Cynnwys

**1. Cefndir....................1**

Grŵp Cynllunio Etholiadau....................1

Pwy oedd yn aelod o'r Grŵp Cynllunio Etholiadau?....................2

Beth ganfu'r Grŵp Cynllunio Etholiadau?....................2

Pŵer i amrywio dyddiad etholiad cyffredinol y Senedd....................2

Y cyfrifoldeb am gynnal etholiadau'r Senedd....................3

Coronafeirws: Cefndir....................4

Cynnal etholiadau yn ystod pandemig y Coronafeirws....................5

Etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu....................6

Cyhoeddiad bil....................7

**2. Trosolwg o ddarpariaethau'r Bil....................8**

Trosolwg....................8

Cymhwysedd Deddfwriaethol....................11

**3. Darpariaethau Allweddol yn y Bil....................12**

Adran 3 - Diddymu'r Senedd gyfredol....................12

Y trefniadau diddymu arferol....................12

Effaith Diddymu....................13

Adran 5 - Pŵer i ohirio etholiad 2021 am hyd at 6 mis ..............................14

Safbwynt Llywodraeth Cymru ..............................16

Adran 6 - Pŵer pellach i amrywio dyddiad etholiad 2021 ..............................16

Adran 7 – Pŵer i ohirio is-etholiadau'r Senedd ..............................17

Adran 8 – Pŵer i ohirio is-etholiadau awdurdodau lleol ..............................18

Adran 10 - Addasu Gorchymyn 2007 ..............................18

Amseru o ran pryd y mae person yn dod yn 'ymgeisydd' ar gyfer Etholiad 2021 ..............................19

Hyblygrwydd ar gyfer Pleidleisio drwy Ddirprwy ..............................20

Cyflwyno papurau enwebu ..............................21

Adran 12 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol ..............................21

**4. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ..............................23**

Asesiad Effaith Rheoleiddiol ..............................23

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer ..............................23

Opsiwn 2 – Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol ..............................24

Costau a buddion ..............................24

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer ..............................24

Opsiwn 2 – Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol ..............................25

Costau sy'n gysylltiedig â chyfnod diddymu byrrach ..............................27

**5. Bil Etholiad Cyffredinol yr Alban (Coronafeirws) 2021 .......... 28**

Trosolwg cyffredinol .......... 28

Cymhariaeth â Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) .......... 28

Darpariaethau cymaradwy ym Mil yr Alban a Bil Cymru .......... 28

Darpariaethau ychwanegol ym Mil yr Alban nad ydynt ym Mil Cymru .......... 30

# 1. Cefndir

Mae etholiad cyffredinol nesaf y Senedd ("**Etholiad 2021**") wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau 6 Mai 2021.

Ar 15 Mehefin 2020, **nododd** y Prif Weinidog y gall fod angen addasu trefniadau Etholiad 2021 mewn cysylltiad â phandemig y Coronafeirws.

Mae'r **Prif Weinidog wedi nodi** ei fod 'wedi ymrwymo yn llwyr' i gael etholiad ym mis Mai 2021. Yn y Cyfarfod Llawn, **mynegodd** nad oedd yn "iawn ymestyn y Senedd hon y tu hwnt i'w thymor presennol" a'i fod yn teimlo'n gryf bod "angen adnewyddu'r Senedd yn ddemocrataidd".

Fodd bynnag, yn yr un datganiad, nododd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru eisiau:

> [...] etholiad lle mae pob dinesydd yng Nghymru yn teimlo y gall fynd i'r orsaf bleidleisio ac nad ydyn nhw'n cael eu hatal rhag gwneud hynny gan y gallai'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd ar y pryd fod yn annymunol iawn iddyn nhw. Mae'n hurt i beidio â bod yn barod i ystyried hynny a meddwl sut y byddem ni'n ymdopi ag ef pe byddem yn ei wynebu.

Mae'r Prif Weinidog **wedi mynegi** y byddai'n anghyfrifol i Lywodraeth Cymru "beidio â gwneud cynlluniau wrth gefn rhag ofn bydd y pandemig mor ddifrifol ym mis Mai [2021] fel nad yw'n ddiogel cynnal yr etholiad".

## Grŵp Cynllunio Etholiadau

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cynllunio Etholiadau ym mis Mehefin 2020 i drafod effaith bosibl y Coronafeirws ar weinyddu Etholiad 2021, ac a oedd angen addasiadau i'r ddeddfwriaeth berthnasol i sicrhau etholiad diogel.

Cyfarfu'r Grŵp bum gwaith a chyhoeddwyd ei **adroddiad** ar 6 Tachwedd 2020. Cafodd yr adroddiad ei **drafod** yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd.

Cytunodd Aelodau ar draws y sbectrwm gwleidyddol y dylai Etholiad 2021, cyn belled ag y bo modd, fynd yn ei flaen fel y cynlluniwyd ym mis Mai. Cytunwyd yn gyffredinol y dylid rhoi trefniadau wrth gefn ar waith i wneud yr etholiad mor ddiogel â phosibl. Fodd bynnag, ni chytunodd y Grŵp ar bob mater. Yn fwyaf nodedig, nid oedd consensws cyffredinol ar yr angen am drefniadau wrth gefn i ohirio'r etholiad.

### Pwy oedd yn aelod o'r Grŵp Cynllunio Etholiadau?

Roedd y Grŵp yn cynnwys pleidiau gwleidyddol, swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a rhanddeiliaid sy'n ymwneud â chynnal yr etholiad, fel y Comisiwn Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau.

### Beth ganfu'r Grŵp Cynllunio Etholiadau?

Cytunodd y Grŵp ar gyfres o **egwyddorion** a chasgliadau i ategu gwaith cynllunio a pharatoadau manylach ar gyfer Etholiad 2021, gan gynnwys y canlynol:

- Dylid anelu o hyd at gynnal etholiadau'r Senedd ar 6 Mai yn unol â'r bwriad;
- Er mwyn cyflawni hyn, dylid cynnwys ystyriaeth o ffyrdd o gynyddu hyblygrwydd a chadernid gweithrediadau etholiadol yn y broses gynllunio, gan adlewyrchu cyngor iechyd y cyhoedd;
- Dylid cael ymgyrch gynnar i hybu ceisiadau am bleidlais trwy'r post, yn enwedig i bleidleiswyr sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain gynt neu'r rhai yr ystyrir eu bod yn agored i niwed;
- Cefnogwyd rhywfaint yn fwy o hyblygrwydd o ran pleidleisiau trwy'r post a phleidleisiau trwy ddirprwy, wrth barhau i gynnal gwiriadau priodol i ddiogelu rhag y risg o dwyll pleidleisio. Fodd bynnag, dywedodd yr adroddiad fod angen ystyried hyn yn fanylach;
- Dylid ystyried pleidleisio yn 'esgus rhesymol' dros adael y tŷ pe bai rheoliadau Coronafeirws ar waith ar adeg etholiad;
- Gellid cynnal y cyfrif yn unol ag amserlen estynedig pe bai mwy o amser yn caniatáu mwy o ddiogelwch i iechyd a diogelwch y rhai dan sylw.

Ar 6 Tachwedd 2020, **cadarnhaodd y Prif Weinidog mewn datganiad ysgrifenedig** y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r meysydd consensws a gyrhaeddodd y Grŵp Cynllunio Etholiadau.

Ni ddaeth y Grŵp Cynllunio Etholiadau i gonsensws ar estyn pwerau'r Llywydd i amrywio dyddiad etholiadau'r Senedd. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o bleidiau gwleidyddol **yn barod i'w ystyried** yn "fesur wrth gefn in extremis".

## Pŵer i amrywio dyddiad etholiad cyffredinol y Senedd

Pennir dyddiad etholiad cyffredinol y Senedd drwy statud.

Mae adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (**Deddf 2006**) yn **darparu bod**

pob etholiad cyffredinol arferol y Senedd i'w gynnal ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai yn y bumed flwyddyn galendr yn dilyn yr etholiad cyffredinol arferol blaenorol. Cynhaliwyd etholiad cyffredinol blaenorol y Cynulliad Cenedlaethol (ar y pryd) ar 5 Mai 2016.

Mae gan y Llywydd bŵer sy'n bodoli eisoes o dan adran 4 o Ddeddf 2006 i amrywio dyddiad etholiad cyffredinol y Senedd hyd at fis, yn gynharach neu'n hwyrach, i ddyddiad statudol yr etholiad.

Mae'n dilyn y caiff y Llywydd, drwy ddefnyddio'r pŵer presennol, amrywio dyddiad Etholiad 2021 i 6 Mehefin 2021 fan bellaf. Mae gan y Llywydd ddisgresiwn llawn wrth benderfynu dan ba amgylchiadau y byddai'n briodol defnyddio'r pŵer hwn.

Yr unig opsiwn ar gyfer amrywio Etholiad 2021 y tu hwnt i 6 Mehefin yw drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

## Y cyfrifoldeb am gynnal etholiadau'r Senedd

Swyddogion Canlyniadau sy'n gyfrifol am gynnal etholiadau'r Senedd o fewn paramedrau rheolau cynnal etholiadau, a nodir mewn deddfwriaeth.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud darpariaethau ynghylch cynnal etholiadau'r Senedd (a materion eraill sy'n ymwneud ag etholiadau'r Senedd) o dan adran 13 o Ddeddf 2006.

Mae'r rheolau cynnal etholiadau presennol, a grëwyd o dan y pwerau hyn, wedi'u cynnwys yng **Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007**, fel y'i diwygiwyd (y **Gorchymyn Cynnal Etholiadau**). Trafodir y Gorchymyn Cynnal Etholiadau'n fanylach yn yr adran Darpariaethau Allweddol o'r Crynodeb hwn o'r Bil (o dan y dadansoddiad o adran 10).

Yn ôl Memorandwm Esboniadol y Bil, '[t]ra bod Gweinidogion Cymru yn gwneud yr is-ddeddfwriaeth, mae gwahaniaeth clir mewn rolau a chyfrifoldebau, a mater i'r Swyddogion Canlyniadau yw cynnal a gweinyddu'r etholiadau'.

Ym mis Hydref 2020, lluniodd y Comisiwn Etholiadol **ganllaw** yn amlinellu rôl a chyfrifoldebau Swyddogion Canlyniadau Etholiad 2021.

Nododd fod gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol 'gyfrifoldeb personol am y ffordd y cynhelir etholiad y Senedd, gan gynnwys:

- gweinyddu'r broses enwebu;
- annog cyfranogiad;
- darpariaeth a chyfarpar gorsafoedd pleidleisio, gan gynnwys y staff;
- trefn cynnal yr etholiad;
- rheoli'r broses o bleidleisio drwy'r post;
- cadarnhau a chyfrif y pleidleisiau ar gyfer yr etholaeth a'r rhan honno o'r etholiad rhanbarthol a ymleddir sy'n perthyn i'r etholaeth;
- datgan canlyniad yr etholaeth.

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil hefyd yn nodi bod Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol yn cymryd camau i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â chynnal yr etholiad yn ystod y pandemig, gan gynnwys annog y defnydd o bleidleisiau drwy'r post a chynllunio ar gyfer mesurau cadw pellter cymdeithasol.

## Coronafeirws: Cefndir

Mae pedair llywodraeth y DU wedi cyflwyno mesurau amrywiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac ymateb i bandemig y Coronafeirws dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ar 14 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **gynllun rheoli'r Coronafeirws wedi'i ddiweddaru** ("**Cynllun Rheoli**"). Mae'r Cynllun Rheoli yn nodi pedair lefel rhybudd ac mae'n cynnwys dangosyddion allweddol i bennu pa lefel rhybudd a ddylai fod yn gymwys. Mae dangosyddion allweddol penodol yn cynnwys nifer yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth, cyfradd achosion ymhlith y rhai dros 60 oed a chanran y canlyniadau positif i brofion Coronafeirws. Mae'r Cynllun Rheoli hefyd yn nodi'r mesurau rheoli cymwys ar bob lefel.

Ar hyn o bryd, mae Cymru gyfan dan gyfyngiadau lefel rhybudd pedwar. Dyma'r lefel uchaf dan y Cynllun Rheoli, sy'n golygu bod y risg o'r Coronafeirws yn fawr iawn.

Ar lefel rhybudd pedwar, mae gofyniad i bobl aros gartref oni bai bod ganddynt esgus rhesymol, megis cael bwyd a chyflenwadau meddygol. Mae'n ofynnol i bobl hunanynysu ar ôl cael canlyniad positif i brawf Coronafeirws neu ar ôl bod mewn cysylltiad agos â pherson arall sydd wedi cael canlyniad positif i brawf. Hefyd, mae gofyniad i wisgo gorchudd wyneb mewn rhai lleoliadau dan do.

Mae **Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**, fel y'u diwygiwyd (y "**Rheoliadau Coronafeirws**") yn sail gyfreithiol i'r cyfyngiadau presennol. Er bod y cyfyngiadau presennol yn gymwys yn

genedlaethol, mae'r Rheoliadau Coronafeirws yn caniatáu'r hyblygrwydd i gymhwyso lefelau rhybudd gwahanol yn rhanbarthol neu'n lleol.

Mae'r Rheoliadau Coronafeirws yn darparu bod 'teithio i bleidleisio mewn etholiad' yn esgus rhesymol dros adael cartref dan gyfyngiadau lefel rhybudd 4 ((Atodlen 4, paragraff 1(4)(i)). Nid oes esemptiad cyfatebol dan lefelau rhybudd 1-3. Fodd bynnag, dim ond i lefel rhybudd 4 y mae'r gofyniad i 'aros gartref' yn gymwys. Ar wahân, mae'r Rheoliadau Coronafeirws yn darparu bod 'teithio i bleidleisio mewn etholiad' yn esgus rhesymol dros deithio i ardaloedd pob lefel rhybudd ar draws Cymru ac oddi yno.

Nid yw'n bosibl rhagfynegi cyffredinrwydd y Coronafeirws yn gywir ym mis Mai na rhagweld pa lefel rhybudd a chyfyngiadau cysylltiedig fydd yn gymwys.

## Cynnal etholiadau yn ystod pandemig y Coronafeirws

Ym mis Hydref 2020, **cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol** ei 'amcanion ar gyfer etholiadau llwyddiannus yn y cyd-destun iechyd cyhoeddus cyfredol'.

Nodwyd yr amcanion a ganlyn ar gyfer pleidleiswyr, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr, a gweinyddwyr etholiadol:

**Pleidleiswyr**

- Dylai fod opsiynau pleidleisio rhesymol ar gael i bob etholwr sy'n lleihau peryg trosgwlyddo'r feirws, gan gynnwys ar gyfer pobl agored i niwed a'r rhai y mae eu hamgylchiadau'n newid ar fyr rybudd (e.e. oherwydd cyfyngiadau symud neu ofynion ynysu);
- Dylai fod gan bleidleiswyr fynediad at yr un dulliau pleidleisio a gwybodaeth, ble bynnag y bônt yn byw;
- Dylai pleidleiswyr gydag anableddau allu cael mynediad at y lefel o gymorth sydd ei hangen arnynt er mwyn gallu pleidleisio â hyder;
- Dylai pleidleiswyr dderbyn gwybodaeth eglur a chynhwysfawr ymlaen llaw ynghylch yr opsiynau sydd ar gael, i'w helpu nhw i gynllunio sut i bleidleisio'n ddiogel;
- Dylai gwneud cais i bleidleisio o bell (trwy'r post neu drwy ddirprwy) fod yn syml a hygyrch i bob etholwr;
- Dylai pleidleiswyr dderbyn gwybodaeth eglur, hygyrch, a chynhwysfawr i'w helpu i ddeall sut i bleidleisio trwy ddefnyddio eu dewis ddull.

**Ymgeiswyr ac ymgyrchwyr**

- Dylai ymgyrchwyr dderbyn eglurder o ran sut bydd yr etholiadau'n cael eu cynnal a'u rheoleiddio (gan gynnwys gwybodaeth am gyfnodau ymgyrchu rheoledig), yn ddigon pell ymlaen llaw i roi cynlluniau addas ar waith;
- Dylai ymgeiswyr fod â mynediad at opsiynau rhesymol ar gyfer cwblhau a chyflwyno'r papurau enwebu sy'n lleihau peryg trosglwyddo'r feirws;
- Dylai fod yn bosib i ymgyrchwyr gyflwyno eu dadleuon a rhoi gwybodaeth i bleidleiswyr cyn y diwrnod pleidleisio mewn ffyrdd sy'n lleihau'r peryg y trosglwyddir y feirws;
- Dylai fod gan bawb sy'n gysylltiedig ddealltwriaeth drylwyr o unrhyw newidiadau i'r broses weinyddol o ganlyniad i'r sefyllfa iechyd cyhoeddus.

**Gweinyddwyr etholiadol**

- Dylai Swyddogion Canlyniadau dderbyn eglurder o ran sut bydd yr etholiadau'n cael eu cynnal, yn ddigon pell cyn diwrnod y bleidlais i allu rhoi cynlluniau addas ar waith;
- Dylai prosesau etholiadau fod yn ymarferol reoladwy a chyflawnadwy a dylent fod â'r adnoddau priodol - yn enwedig ar gyfer unrhyw brosesau newydd neu ddiwygiedig a gyflwynwyd yn weddol fyr rybudd;
- Ni ddylai unrhyw brosesau etholiadau newydd neu ddiwygiedig leihau na thanseilio gweithdrefnau cyfredol ar gyfer gwarchod uniondeb etholiadol;
- Dylid rhoi amddiffyniadau addas ar waith ar gyfer staff gweinyddu etholiadol mewn amgylchiadau cyhoeddus allweddol (er enghraifft, cyfarpar diogelu a mesurau cadw pellter corfforol).

## Etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

Trefnwyd etholiadau i benodi Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru a Lloegr (yr "Etholiadau CHTh") ar gyfer 7 Mai 2020.

O dan Deddf y Coronafeirws 2020  Llywodraeth y DU, gohiriwyd Etholiadau CHTh i'w cynnal ar yr un diwrnod ag Etholiad y Senedd yn 2021.

Mae etholfraint pob etholiad yn wahanol.  Mae etholfraint etholiad yn llywodraethu pwy sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiad.  Estynnwyd etholfraint etholiadau'r Senedd gan **Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020**, a ostyngodd yr oedran pleidleisio i 16 a galluogi gwladolion tramor i bleidleisio.  Fodd bynnag, mae

etholfraint Etholiadau CHTh yn gulach.  Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn cadarnhau'r canlynol:

> [...] bydd rhai pleidleiswyr yn gallu pleidleisio mewn un etholiad ond nid y llall. Mae ffiniau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn wahanol i ffiniau etholaethol a rhanbarthol etholiad y Senedd, a fydd yn cymhlethu pethau'n fwy.

Ymhellach, dywed fod gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb am Etholiadau CHTh a bod 'Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â Llywodraeth y DU ar y mater hwn'.

**Dywedodd nodiadau canllaw** a luniodd y Comisiwn Etholiadol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau y 'defnyddir dwy system etholiadol wahanol, sy'n ymgorffori dwy ffordd o bleidleisio, gyda thri phapur pleidleisio'.

Daeth y Grŵp Cynllunio Etholiadau **i'r casgliad** y byddai'r gwahaniaethau yn yr etholfraint yn 'arwain at gymhlethdod ychwanegol ar gyfer gweinyddu'r etholiadau ar yr un diwrnod ac mae ystyriaethau'r Coronafeirws yn cynyddu'r cymhlethdod hwn ymhellach'.

## Cyhoeddiad bil

Ar 17 Tachwedd 2020, **cyhoeddodd y Prif Weinidog** fod Llywodraeth Cymru yn paratoi i ddrafftio Bil i wneud darpariaeth ar gyfer gohirio Etholiad 2021 hyd at chwe mis pe bai angen.   Parhaodd y Prif Weinidog fel a ganlyn:

> Bydd hyn yn caniatáu i ni gyflwyno'r ddeddfwriaeth i'r Senedd os yw'r sefyllfa ar ôl y Nadolig yn awgrymu y bydd angen gwneud hyn fel dewis olaf.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyflwyno'r Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) (y "**Bil**") fel bil brys.  Mae canllaw i filiau brys a'u trefniadau craffu yn y Senedd i'w weld **yma**.

Mae trosolwg o ddarpariaethau'r Bil a dadansoddiad o'i ddarpariaethau allweddol wedi'u cynnwys yn yr adrannau a ganlyn.

# 2. Trosolwg o ddarpariaethau'r Bil

Mae'r Bil yn cynnig cyflwyno trefniadau etholiadol wrth gefn, at ddibenion Etholiad 2021 yn unig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil yn 'ymateb i'r risgiau posibl i Etholiad 2021 sy'n deillio o bandemig y Coronafeirws gyda'r nod o sicrhau y gellir gweinyddu'r etholiad a bwrw ati yn ddiogel, ac y gall yr etholwyr gymryd rhan a phleidleisio'.

## Trosolwg

- Mae **adran 1 (Etholiad 2021)** yn cadarnhau bod cyfeiriad at "etholiad 2021" yn y Bil yn golygu etholiad cyffredinol arferol y Senedd sydd i'w gynnal yn 2021. Mae'r diffiniad hwn yn cwmpasu etholiad a gynhelir fel y trefnwyd ar 6 Mai 2021, neu etholiad wedi'i ohirio.
- Mae **adran 2 (Cymhwyso darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006)**
  - yn datgymhwyso darpariaethau o dan Ddeddf 2006 sy'n pennu cyfnod diddymu arferol y Senedd a dyddiad cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad. (Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau disodli at ddibenion Etholiad 2021 o dan adrannau 3 a 4, yn y drefn honno);
  - yn gwneud dyddiad yr etholiad statudol yn Neddf 2006 (6 Mai 2021) yn ddarostyngedig i'r pŵer o dan y Bil i ohirio'r etholiad am hyd at 6 mis;
  - yn datgymhwyso'r terfyn amser statudol ar gyfer cyfarfod cyntaf y Senedd os caiff dyddiad yr etholiad ei amrywio drwy Broclamasiwn Brenhinol. (Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau disodli o dan adran 4, at ddibenion Etholiad 2021 yn unig);
  - yn gwneud y darpariaethau ar seddau etholaethol gwag y Senedd yn Neddf 2006 yn ddarostyngedig i adran 7 o'r Bil, sy'n grymuso'r Llywydd i ohirio is-etholiadau.
- **Mae adran 3 (Diddymu'r Senedd gyfredol)** yn rhagnodi y caiff y Senedd ei diddymu ar 29 Ebrill 2021, saith diwrnod cyn Etholiad 2021. Fel arall, os caiff yr etholiad ei ohirio, mae'r adran yn darparu y bydd y diddymiad yn digwydd saith diwrnod cyn unrhyw ddyddiad etholiad dilynol.
  - Trafodir yr adran hon yn fanylach yn yr adran 'Darpariaethau Allweddol' o'r crynodeb hwn o'r Bil.

- Mae **adran 4 (Dyddiad y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad 2021)** yn darparu bod yn rhaid i'r Senedd gyfarfod cyn pen 21 diwrnod calendr ar ôl cynnal Etholiad 2021. Mae hyn yn gymwys boed a gynhelir Etholiad 2021 fel y trefnwyd neu wedi'i ohirio.
  - Dan y trefniadau presennol, mae'n rhaid i'r Senedd **gyfarfod o fewn pedwar diwrnod ar ddeg** i Etholiad 2021, ac eithrio dydd Sadwrn a dydd Sul. Heb y Bil, pe bai'r etholiad yn cael ei gynnal fel y'i trefnwyd ar 6 Mai 2021, byddai'n rhaid i'r Senedd gyfarfod erbyn 26 Mai 2021.
  - O dan adran 4 o'r Bil, pe bai Etholiad 2021 yn cael ei gynnal fel y'i trefnwyd ar 6 Mai 2021, byddai'n rhaid i'r Senedd gyfarfod erbyn 27 Mai 2021. Felly, mae'r Bil yn darparu diwrnod ychwanegol cyn bo rhaid i'r Senedd gyfarfod dan y trefniadau presennol.
  - Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi mai '[d]iben yr estyniad hwn yw rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer gohiriad posibl wrth gyfrif pleidleisiau'. Ymhellach, mae'n esbonio bod hyn hefyd yn diogelu'r cyfnod rhwng yr etholiad a chyfarfod cyntaf y Senedd.
- Mae **adran 5 (Pŵer i ohirio etholiad 2021 am hyd at 6 mis)**
  - yn darparu y caiff y Prif Weinidog gynnig i'r Llywydd y caiff Etholiad 2021 ei ohirio am reswm sy'n ymwneud â'r Coronafeirws os yw'r Prif Weinidog 'yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gwneud hynny'.
  - Ar yr amod nad yw'r Senedd wedi'i diddymu, caiff y Llywydd ohirio Etholiad 2021 i'r dyddiad cynharaf yr ystyrir ei fod yn rhesymol ymarferol. Fodd bynnag, ni all y dyddiad hwn fod yn hwyrach na 5 Tachwedd 2021, sef 6 mis o ddyddiad yr etholiad a drefnwyd.
  - Mae pŵer y Llywydd o dan yr adran hon yn amodol ar Senedd Cymru yn cymeradwyo'r dyddiad newydd arfaethedig drwy bleidlais uwchfwyafrif sy'n cynnwys 'dim llai na dwy ran o dair o gyfanswm nifer seddi'r Senedd'.
  - Cyn gynted â phosibl ar ôl i ddyddiad newydd gael ei bennu, rhaid i'r Llywydd osod datganiad gerbron y Senedd yn cadarnhau'r dyddiad newydd a'r rheswm dros arfer y pwerau gohirio.
  - Mae'n rhaid i'r Comisiwn Etholiadol roi cyngor mewn perthynas â gohirio'r bleidlais os bydd y Llywydd neu'r Prif Weinidog yn gofyn iddo wneud hynny.
  - Caniateir defnyddio pwerau'r Llywydd i ohirio'r etholiad o dan yr adran hon fwy nag unwaith ar yr amod nad yw dyddiad newydd yr etholiad, ar bob achlysur, ar ôl 5 Tachwedd 2021.

  - Trafodir yr adran hon yn fanylach yn yr adran 'Darpariaethau Allweddol' o'r crynodeb hwn o'r Bil.

- Mae **adran 6 (Pŵer pellach i amrywio dyddiad etholiad 2021)** yn darparu y caiff y Llywydd amrywio dyddiad etholiad a ohiriwyd o dan adran 5 o fis cyn neu ar ôl y dyddiad sydd newydd ei bennu, ar yr amod nad yw'n hwyrach na 5 Tachwedd 2021. Nid oes rhaid i amrywiad o dan yr adran hon ymwneud â'r Coronafeirws.
  - Trafodir yr adran hon yn fanylach yn yr adran 'Darpariaethau Allweddol' o'r crynodeb hwn o'r Bil.
- Mae **adran 7 (Pŵer i ohirio is-etholiadau'r Senedd)** yn galluogi gohirio is-etholiadau ar gyfer seddau etholaethol y Senedd sy'n digwydd dod yn wag ar ôl 6 Mai 2021. Mae'r adran yn rhoi pŵer i'r Llywydd ohirio is-etholiadau o'r fath i'r diwrnod cynharaf yr ystyrir ei fod yn rhesymol ymarferol, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Caniateir arfer y pŵer fwy nag unwaith, ond ni chaniateir ei ddefnyddio i bennu dyddiad ar ôl 5 Tachwedd 2021.
  - Trafodir yr adran hon yn fanylach yn yr adran 'Darpariaethau Allweddol' o'r crynodeb hwn o'r Bil.
- Mae **adran 8 (Pŵer i ohirio is-etholiadau awdurdodau lleol)** yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ohirio is-etholiadau llywodraeth leol sy'n digwydd rhwng 6 Mai 2021 a 5 Tachwedd 2021. Daw'r pwerau i ben ar 5 Tachwedd 2021 ac ni fyddant yn cael effaith ar yr etholiadau llywodraeth leol sydd i'w cynnal ym mis Mai 2022.
  - Diffinnir is-etholiad llywodraeth leol fel etholiad i lenwi sedd sy'n digwydd dod yn wag fel cynghorydd mewn cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru.
  - Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bwriedir i'r pŵer gael ei ddefnyddio pan na fyddai sefyllfa iechyd y cyhoedd yn caniatáu ar gyfer cynnal is-etholiadau llywodraeth leol yn ddiogel.
  - Trafodir yr adran hon yn fanylach yn yr adran 'Darpariaethau Allweddol' o'r crynodeb hwn o'r Bil.
- Mae **adran 9 (Effaith y Ddeddf hon ar y pŵer presennol i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau)** yn cadw pwerau presennol Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau ynghylch cynnal etholiadau'r Senedd o dan adran 13 o Ddeddf 2006. Defnyddiwyd y pwerau hyn i wneud y Gorchymyn Cynnal Etholiadau presennol, a nodir yn yr adran cefndir o'r Crynodeb hwn o'r Bil.

- Mae **adran 10 (Addasu Gorchymyn 2007)** yn gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau at ddibenion Etholiad 2021. Mae'r rhain yn cynnwys diwygiadau i bennu pryd y daw person yn "ymgeisydd" yn sgil y cyfnod diddymu byrrach a gynigiwyd gan y Bil, ac i fabwysiadu hyblygrwydd ar gyfer trefniadau papurau enwebu a phleidleisio drwy ddirprwy, fel yr argymhellodd y Grŵp Cynllunio Etholiadau.
  - Esbonnir yr holl ddiwygiadau a wneir gan adran 10 o'r Bil yn yr adran Darpariaethau Allweddol o'r Crynodeb hwn o'r Bil.
- Mae **adran 11 (Dehongli)** yn nodi pum term diffiniedig at ddibenion y Bil, gan gynnwys "Coronafeirws" ac "etholiad 2021".
- Mae **adran 12 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.)** yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau, gan gynnwys pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol neu drosiannol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i roi effaith lawn i'r Bil.
  - Trafodir yr adran hon yn fanylach yn yr adran Darpariaethau Allweddol o'r crynodeb hwn o'r Bil.
- Mae **adran 13 (Dod i rym)** yn cadarnhau y daw'r Bil i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.
- Mae **adran 14 (Enw byr)** yn darparu mai enw byr y Ddeddf fyddai Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021.

## Cymhwysedd Deddfwriaethol

Datganolodd Deddf Cymru 2017 bwerau i'r Senedd mewn perthynas â'i threfniadau etholiadol.

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi bod gan Senedd Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil o dan Ran 4 o Ddeddf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

# 3. Darpariaethau Allweddol yn y Bil

## Adran 3 - Diddymu'r Senedd gyfredol

Diddymu yw'r term swyddogol ar gyfer diwedd cyfnod senedd.

Mae adran 3 o'r Bil yn darparu trefniadau diddymu amgen at ddibenion Etholiad 2021. Os caiff y Bil ei basio, ni fydd y trefniadau diddymu arferol yn Neddf 2006 (esboniad isod) yn gymwys.

Mewn perthynas ag Etholiad 2021 yn unig, mae adran 3(1) o'r Bil yn darparu y caiff Senedd Cymru ei diddymu ar 29 Ebrill 2021, oni bai bod:

- y Llywydd yn arfer y pŵer i ohirio'r etholiad am hyd at chwe mis o dan adran 5 o'r Bil; neu fod
- y Senedd yn cael ei diddymu drwy'r Proclamasiwn Brenhinol o dan adran 4(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru ar ôl i'r Llywydd gynnig cynnal yr etholiad fis ynghynt neu'n hwyrach na 6 Mai 2021.

Fodd bynnag, os bydd Etholiad 2021 yn cael ei ohirio o dan adran 5 o'r Bil, mae adran 3(2) yn newid y dyddiad diddymu yn awtomatig i saith diwrnod cyn dyddiad yr etholiad a ohiriwyd.

Mae adran 3(3) yn sicrhau bod diddymiad yn digwydd o leiaf 7 diwrnod cyn etholiad, hyd yn oed os caiff ei ohirio sawl gwaith. Mae'n darparu, os bydd y pŵer i ohirio'r etholiad o dan adran 5 yn cael ei arfer eto cyn i'r Senedd gael ei diddymu o dan adran 3(2) (h.y. ail ohiriad neu ohiriad dilynol), y byddai'r Senedd yn cael ei diddymu 7 diwrnod calendr cyn y dyddiad newydd ei bennu. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y bydd y dyddiad diddymu'n 'olrhain y dyddiad newydd a bennir ar gyfer y pôl'.

### Y trefniadau diddymu arferol

Mae dyddiad diddymu'r Senedd cyn etholiad cyffredinol fel arfer yn cael ei bennu yn ôl darpariaethau yn Neddf 2006 a'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

Os yw'r etholiad i'w gynnal ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai (fel y trefnir Etholiad 2021), mae adran 3(2)(a) o Ddeddf 2006 yn darparu y caiff y Senedd ei diddymu ar ddechrau'r 'isafswm cyfnod', ac y daw i ben ar ddiwrnod yr etholiad.

Yn y cyd-destun hwn, yr 'isafswm cyfnod' yw 21 diwrnod cyn pôl ac eithrio dydd

Sadwrn, dydd Sul neu nifer o wyliau cyhoeddus rhestredig (fel y'i sefydlwyd gan Erthygl 148 ar y cyd â Rheol 2 o Atodlen 5 i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau).

Felly, dan y trefniadau presennol, byddai'r Senedd yn cael ei diddymu ar 7 Ebrill 2021.

## Effaith Diddymu

Mae Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru yn ddau sefydliad ar wahân. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn dod i ben ar ôl y diddymiad, nid yw Aelodau o'r Senedd yn dal eu seddau o dan adran 14 o Ddeddf 2006. Pan ddiddymir y Senedd, ni chaniateir adalw Aelodau o'r Senedd i drafod na phasio deddfwriaeth.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y gall cyffredinrwydd pandemig y Coronafeirws yn ystod y cyfnod cyn Etholiad 2021 'olygu bod cynnydd mewn heintiadau y byddai angen ymateb deddfwriaethol iddo' ac felly y byddai angen i'r Aelodau fod yn eu seddau i basio unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath. Ymhellach, mae'n esbonio mai diben y cyfnod diddymu byrrach yw:

> [...] darparu dull o alluogi'r Senedd gyfredol i ymateb, os bydd angen gwneud hynny, i'r materion iechyd y cyhoedd sy'n datblygu yn arwain at yr etholiad. Mae hefyd yn golygu bod y Senedd yn eistedd ac yn gallu pennu dyddiad ar gyfer y pôl ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol os bydd angen gohirio'r etholiad am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws yn y cyfnod hyd at 7 diwrnod calendr cyn diwrnod y pôl

Mae **Bil Etholiad Cyffredinol yr Alban (Coronafeirws) 2021** ("Bil yr Alban", a drafodir ymhellach yn adran 5 o'r Crynodeb hwn o'r Bil) yn darparu ar gyfer cyfnod diddymu byrrach un diwrnod cyn etholiad seneddol yr Alban a drefnwyd ar gyfer 6 Mai 2021. Mae ei **nodiadau esboniadol** yn dweud y rhagwelir y bydd Senedd yr Alban, yn lle hynny, ar doriad arferol ar gyfer yr ymgyrch 28 diwrnod cyn yr etholiad ond na chaiff ei diddymu'n ffurfiol tan ddiwrnod cyn yr etholiad.

Nid yw Nodiadau Esboniadol y Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) yn cadarnhau'r trefniadau ymarferol yn lle diddymu, nac yn cadarnhau a yw Senedd Cymru yn debygol o benderfynu cael toriad.

Effaith y Bil yw y bydd Aelodau o'r Senedd yn cadw eu seddau tan o leiaf 29 Ebrill 2021. Mae hyn yn golygu, pe bai'r Senedd ar doriad cyn dyddiad hwn, y byddai modd adalw'r Aelodau yn ôl i drafod deddfwriaeth, gan gynnwys rheoliadau Coronafeirws neu ohirio Etholiad 2021.

## Adran 5 - Pŵer i ohirio etholiad 2021 am hyd at 6 mis

Mae adran 5 o'r Bil yn cynnwys pwerau wrth gefn i ohirio Etholiad 2021 am hyd at chwe mis.

Nid yw'r adran hon yn newid dyddiad Etholiad 2021 yn awtomatig. Bydd yr etholiad yn mynd yn ei flaen fel y'i trefnwyd ar 6 Mai 2021 oni bai bod y dyddiad yn cael ei amrywio gan y Llywydd drwy ddefnyddio pwerau presennol o dan adran 4 o Ddeddf 2006, neu ei fod yn cael ei ohirio o dan adran 5 o'r Bil.

Mae adran 5(1) o'r Bil yn darparu y caiff y Prif Weinidog gynnig i'r Llywydd, ar gyfer Etholiad 2021 yn unig, y caiff pôl yr etholiad ei ohirio os yw'r Prif Weinidog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gynnig o'r fath fod 'am reswm sy'n ymwneud â'r Coronafeirws'. Nid oes gan y Prif Weinidog bŵer i gynnig gohiriad am reswm heblaw am y Coronafeirws o dan yr adran hon. Nid yw'r Bil yn pennu fformat cais y Prif Weinidog o dan yr adran hon na'r wybodaeth neu'r data y mae'n rhaid eu darparu i'r Llywydd gefnogi'r cynnig.

Os bydd y Prif Weinidog yn gwneud cynnig i ohirio, caiff y Llywydd bennu dyddiad arall ar gyfer cynnal Etholiad 2021 yn ddarostyngedig ar gymeradwyaeth y Senedd. Mae'r pŵer hwn yn ddewisol. Nid yw'n ofynnol i'r Llywydd gynnig dyddiad arall arfaethedig gerbron y Senedd ar ôl i'r Prif Weinidog gychwyn cais. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ei bod yn bwysig mai'r Llywydd sydd â'r disgresiwn hwn 'fel deiliad swydd diduedd yn wleidyddol sy'n llywyddu dros y Senedd'.

Os bydd y Llywydd yn penderfynu pennu dyddiad arall, mae'n rhaid iddo fod y diwrnod cynharaf sy'n rhesymol ymarferol ym marn y Llywydd (Adran 5(3)(a)). Ni chaiff y Llywydd ddefnyddio'r pŵer i bennu dyddiad sy'n hwyrach na 5 Tachwedd 2021 (Adran 5(3)(b)). Mae'n rhaid i ddyddiad yr etholiad wedi'i ohirio fod o fewn 6 mis i ddyddiad yr etholiad a drefnwyd.

Mewn **llythyr** at y Prif Weinidog ar 12 Tachwedd 2020 (cyn cyhoeddi'r Bil hwn), nododd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd, ei farn fel a ganlyn:

> […] y Senedd a ddylai fod yn gyfrifol am unrhyw opsiwn amgen yn lle arfer pŵer presennol [y Llywydd] a fyddai'n newid dyddiad etholiad nesaf y Senedd o ganlyniad i'r pandemig.

Wrth gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn paratoi Bil etholiadau drafft ar 17

Tachwedd 2020, **dywedodd y Prif Weinidog** ei fod yn sylweddoli y byddai darparu pwerau i'r Llywydd ohirio'r etholiadau am hyd at chwe mis yn 'gam cyfansoddiadol mawr' a allai olygu bod angen mesurau diogelu. Wrth sôn am natur mesurau diogelu o'r fath, **awgrymodd** y Prif Weinidog y gall y rhain gynnwys gofyniad am 'bleidlais fwyafrif o ddwy ran o dair' cyn y byddai modd arfer y pŵer a rhai gofynion ymgynghori.

Er bod y Bil yn cynnwys gofyniad ar gyfer pleidlais gadarnhau gan uwchfwyafrif yn y Senedd, nid yw'n gosod gofynion ymgynghori cyffredinol ar y Prif Weinidog na'r Llywydd.

O dan adran 5(2)(a) o'r Bil, mae'n rhaid i unrhyw ddyddiad amgen a gynigir gan y Senedd o dan adran 5(2) gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd wedi'i basio gan uwchfwyafrif o ddwy ran o dair o gyfanswm y seddau yn y Senedd. Fe olygir hyn, i ohirio Electiwn 2021 o dan adran 5 o'r Bil, mae'n rhaid i 40 Aelod neu fwy bleidleisio o ffafr unrhyw ddydiad newydd mae'r Llywydd yn ei bennu.

O ran ymgynghori, er bod yn rhaid i'r Comisiwn Etholiadol roi cyngor i'r Llywydd neu'r Prif Weinidog os gofynnir amdano, nid oes gofyniad cyffredinol yn y Bil ar y naill na'r llall i fynd ati i ymgynghori neu gael cyngor cyn arfer eu pwerau o dan adran 5 o'r Bil.

Mae hyn yn wahanol i Fil yr Alban. Y Llywydd sy'n gohirio etholiadau Senedd yr Alban o dan Fil yr Alban. Fodd bynnag, cyn arfer pwerau gohirio o'r fath, mae'n rhaid ymgynghori â Gweinidogion yr Alban, y Comisiwn Etholiadol, Prif Swyddog Meddygol Gweinyddiaeth yr Alban a chynullydd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban.

Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i ddyddiad etholiad amgen gael ei bennu, mae'n rhaid i'r Llywydd osod datganiad gerbron y Senedd yn cadarnhau'r dyddiad newydd a'r rheswm dros arfer y pwerau o dan adran 5 o'r Bil (Adran 5(4)).

Caniateir arfer pŵer y Prif Weinidog i gychwyn cais gohirio o dan adran 5(1) o'r Bil a phŵer y Llywydd o dan adran 5(2) i bennu dyddiad etholiad newydd fwy nag unwaith. Fodd bynnag, ar bob achlysur, ni chaniateir i ddyddiad yr etholiad wedi'i ohirio fod ar ôl 5 Tachwedd 2021.

Yn olaf, mae adran 5(7) yn cadarnhau nad yw pŵer y Llywydd i ohirio etholiad am hyd at chwe mis o dan y Bil yn cyfyngu ar bŵer y Llywydd i amrywio dyddiad Etholiad 2021 drwy ddefnyddio'r pwerau o dan adran 4 o Ddeddf 2006. Y rhain yw pwerau presennol y Llywydd sy'n darparu disgresiwn i amrywio dyddiad yr

etholiad fis, ynghynt neu'n hwyrach, na 6 Mai 2021.

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

Er bod y Bil yn cynnig mesurau wrth gefn i alluogi gohirio Etholiad 2021, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai:

> [...] Prif amcan Llywodraeth Cymru yw sicrhau y bydd yr etholiad yn mynd rhagddo ar 6 Mai 2021 yn ôl y disgwyl, a bod yr addasiadau a wneir gan y Bil yn fesurau wrth gefn doeth er mwyn sicrhau y gall y Swyddogion Canlyniadau gynnal yr etholiad yng nghyd-destun y pandemig sy'n datblygu.

Gan esbonio pam y mae'r Bil yn cynnig pŵer i ohirio Etholiad 2021 am hyd at 6 mis, mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu nad yw pwerau presennol y Llywydd i ohirio etholiad am hyd at fis yn ddigonol. Mae'n nodi'r canlynol:

> [...] Os bydd y pandemig yn gwaethygu, efallai na fydd gohirio am fis yn ddigon o amser i alluogi i'r cyfraddau ddisgyn eto i lefel lle y gellir cynnal etholiad yn ddiogel, ac felly mae'r pŵer cyfredol yn anaddas at y dibenion hyn.

## Adran 6 - Pŵer pellach i amrywio dyddiad etholiad 2021

Os bydd dyddiad Etholiad 2021 yn cael ei ohirio o dan adran 5 o'r Bil, mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Llywydd amrywio dyddiad yr etholiad wedi'i ohirio ymhellach hyd at fis ynghynt neu'n hwyrach na'r dyddiad a bennwyd.

Er enghraifft, pe bai'r Senedd yn cymeradwyo gohirio'r etholiad o 6 Mai 2021 i 6 Gorffennaf 2021 o dan adran 5 o'r Bil, byddai modd i'r Llywydd gynnig amrywio dyddiad yr etholiad wedi'i ohirio ymhellach o dan adran 6 o'r Bil i 6 Mehefin neu 6 Awst 2021.

Yn gyson ag adran 5 o'r Bil, ni chaniateir defnyddio'r pŵer i bennu dyddiad sy'n hwyrach na 5 Tachwedd 2021.

Fodd bynnag, mewn cyferbyniad ag adran 5, nid oes rhaid i arfer y pŵer hwn gan y Llywydd fod mewn perthynas â'r Coronafeirws. Nid yw'r Bil yn diffinio'r rhesymau dros arfer y pŵer arfaethedig gan y Llywydd, sy'n golygu bod gan y Llywydd ddisgresiwn llawn wrth ei arfer. Nid oes gofyniad ar gyfer pleidlais gadarnhau gan y Senedd.

Os yw'r Llywydd yn cynnig amrywio'r dyddiad o dan adran 6, caniateir diddymu'r Senedd o dan y Proclamasiwn Brenhinol.

Mewn gwirionedd, mae'r pŵer o dan adran 6 o'r Bil yn adlewyrchu pwerau presennol y Llywydd o dan adran 4 o Ddeddf 2006 (i amrywio diwrnod yr etholiad o fis) yng nghyd-destun etholiad wedi'i ohirio.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod angen y pŵer o dan adran 6 yn ychwanegol at bŵer presennol y Llywydd gan fod yr ail wedi'i gyfyngu i amrywio dyddiad Etholiad 2021 hyd at fis cyn neu ar ôl 6 Mai 2021. Hynny yw, mae'r pŵer presennol yn gysylltiedig â dyddiad statudol yr etholiad ac ni fyddai ar gael ar ôl 6 Mehefin 2021.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, heb adran 6, na fyddai dull ar gyfer gohirio'r etholiad am reswm heblaw am y Coronafeirws ar ôl 6 Mehefin 2021.

## Adran 7 – Pŵer i ohirio is-etholiadau'r Senedd

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Llywydd ohirio is-etholiadau ar gyfer seddau etholaethol y Senedd ("Is-etholiad i'r Senedd") sy'n digwydd dod yn wag rhwng 6 Mai 2021 a 5 Tachwedd 2021.

Os yw sedd Aelod o'r Senedd yn wag, mae'n rhaid cynnal Is-etholiad i'r Senedd i lenwi'r sedd wag. Mae dyletswyddau presennol ar y Llywydd o dan adran 10 o Ddeddf 2006 i bennu dyddiad ar gyfer y fath Is-etholiadau i'r Senedd.

Dan y trefniadau presennol, mae'n rhaid i'r dyddiad a bennir fod o fewn tri mis i'r dyddiad y daw'r sedd yn wag (Adran 10 (5) o Ddeddf 2006). Fel arall, os na ddaw'r sedd wag i sylw'r Llywydd o fewn mis i'r sedd ddod yn wag, mae'n rhaid i'r dyddiad a bennir fod o fewn tri mis i'r dyddiad pan ddaeth y sedd wag i sylw'r Llywydd. Mae adran 66 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn caniatáu i'r Llywydd bennu dyddiad y tu allan i'r cyfnod tri mis ond ni chaniateir arfer y pŵer hwn i bennu dyddiad ar ôl 6 Mai 2021.

Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi 'y dylai'r cyfnod o amser ar gyfer pennu'r dyddiad ar gyfer is-etholiad [i'r Senedd] gael ei addasu i ymateb i bandemig y coronafeirws sy'n datblygu'.

Mae'r Bil yn rhoi pŵer i'r Llywydd bennu dyddiad ar gyfer Is-etholiad i'r Senedd sydd y tu allan i'r terfynau amser statudol a bennir gan adran 10 o Ddeddf 2006 ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

Yn gyson â'r pwerau o dan adran 5 o'r Bil, mae'n rhaid i'r dyddiad newydd fod y diwrnod cynharaf sy'n 'rhesymol ymarferol' ym marn y Llywydd. Nid yw hyn wedi'i

ddiffinio yn y Bil. Hefyd, caniateir defnyddio'r pŵer fwy nag unwaith. Fodd bynnag, ar bob achlysur, ni chaniateir ei ddefnyddio i bennu dyddiad ar ôl 5 Tachwedd 2021.

## Adran 8 – Pŵer i ohirio is-etholiadau awdurdodau lleol

Mae adran 8 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ohirio is-etholiadau awdurdodau lleol. Diffinnir y rhain yn y Bil fel etholiadau i lenwi seddau sy'n digwydd dod yn wag fel cynghorydd mewn cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru ("Is-etholiad Awdurdod Lleol").

Os trefnir cynnal Is-etholiad Awdurdod Lleol yng Nghymru rhwng 6 Mai 2021 a 5 Tachwedd 2021, mae adran 8 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio dyddiad y fath is-etholiad gan reoliadau a wneir gan offeryn statudol. Mae adran 67 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn gwneud darpariaeth debyg ar gyfer unrhyw Is-etholiad Awdurdod Lleol y trefnir ei gynnal cyn 6 Mai 2021. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi y byddai rheoliadau a wneir o dan adran 8 yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Senedd. Nid yw'r Bil yn gosod gofynion ymgynghori ar Weinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adran 8.

Er y caniateir defnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau hwn fwy nag unwaith mewn perthynas ag unrhyw Is-etholiad Llywodraeth Leol, ni chaniateir ei ddefnyddio i bennu dyddiad y tu hwnt i 5 Tachwedd 2021. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn esbonio y daw'r ddarpariaeth i ben ar 5 Tachwedd 2021 gan na 'all unrhyw is-etholiadau llywodraeth leol gael eu cynnal yng Nghymru [ar ôl y dyddiad hwn] yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972'.

Ymhellach, mae'n esbonio y bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio pe bai:

> [...] sefyllfa iechyd y cyhoedd yn codi lle yr ystyrid y byddai cynnal pôl yn peri'r fath heriau sylweddol fel na fyddai camau lliniaru, ym marn Gweinidogion Cymru, yn arwain at gynnal is-etholiadau llywodraeth leol yn ddiogel ac na fyddai cynnal pôl er budd y cyhoedd.

Yn 2019, cafodd dyddiad etholiadau llywodraeth leol Cymru a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2021 ei **newid** i fis Mai 2022 er mwyn **eu hatal rhag cael eu cynnal** ar yr un diwrnod ag Etholiad y Senedd yn 2021. Ni fydd y darpariaethau yn adran 8 yn cael effaith ar etholiadau lleol o'r fath.

## Adran 10 - Addasu Gorchymyn 2007

Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 fel y'i diwygiwyd ("**Gorchymyn Cynnal Etholiadau**") yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau'r Senedd.

Mae'n **nodi'r ffordd** y cynhelir yr etholiad ac ymgyrch yr etholiad, ac mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer her gyfreithiol i etholiad. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â phleidleiswyr drwy'r post a thrwy ddirprwy a gofynion mewn cysylltiad â phleidleisiau absennol.

Caiff y Gorchymyn Cynnal Etholiadau ei adolygu, ac mae wedi'i **ddiwygio'n gyffredinol**, cyn pob etholiad cyffredinol i'r Senedd.

Mae adran 10 o'r Bil yn cynnig addasiadau canlyniadol i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod angen newidiadau o'r fath i adlewyrchu'r diwygiadau i'r cyfnod diddymu a gynigiwyd gan y Bil ac i weithredu **argymhellion** a wnaeth y Grŵp Cynllunio Etholiadau ar gyfer hyblygrwydd mewn rhai meysydd wrth gynnal yr etholiad.

## Amseru o ran pryd y mae person yn dod yn 'ymgeisydd' ar gyfer Etholiad 2021

O dan **Erthygl 84 (2) (b)** o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau presennol, daw person yn 'ymgeisydd' ar gyfer etholiad i'r Senedd ar ddyddiad diddymu'r Senedd.

Gan fod y Bil yn cynnig cyfnod diddymu byrrach, mae adran 10(3) o'r Bil yn torri'r cysylltiad rhwng diddymu ac amseru dod yn ymgeisydd, at ddibenion Etholiad 2021 yn unig.

Yn lle hynny, mae'r Bil yn darparu y daw person yn ymgeisydd 21 diwrnod cyn 6 Mai (ac eithrio penwythnosau a rhai gwyliau cyhoeddus).

Effaith hyn yw y daw person yn ymgeisydd ar gyfer Etholiad 2021 ar yr un pryd ag y byddai wedi pe na bai'r Bil wedi cynnig cyfnod diddymu byrrach. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn cadarnhau y byddai person yn parhau i fod yn ymgeisydd ar ôl i'r cyfnod 21 diwrnod gychwyn (oni bai ei fod yn rhoi'r gorau i'w sedd neu'n cael ei ddad-ddewis) hyd yn oed pe bai'r etholiad yn cael ei ohirio o dan y Bil.

Ar wahân, mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn gymwys yng nghyd-destun gwariant ymgyrch wleidyddol. O dan **Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000**, mae'r "cyfnod rheoleiddiedig" ar gyfer gwariant ymgyrchu yn gysylltiedig â dyddiad Etholiad 2021 ac mae'n dechrau bedwar mis cyn 6 Mai 2021. Fodd bynnag, mae Nodyn Esboniadol y Bil yn cadarnhau y bydd y cyfnod rheoleiddiedig yn parhau i fod yn gysylltiedig â 6 Mai 2021, ni waeth am unrhyw ohiriad i Etholiad 2021 o dan adran 5 o'r Bil.

## Hyblygrwydd ar gyfer Pleidleisio drwy Ddirprwy

Os na all pleidleisiwr bleidleisio'n bersonol, caiff drefnu i berson bleidleisio ar ei ran o dan amgylchiadau penodol. Pleidlais neu bleidleisio 'drwy ddirprwy' yw hyn.

**Cefnogodd y Grŵp Cynllunio Etholiadau** 'rywfaint yn fwy o hyblygrwydd o ran pleidleisiau trwy'r post a phleidleisiau trwy ddirprwy' ar gyfer Etholiad 2021.

Amlinellodd adroddiad y Grŵp bedair 'enghraifft o feysydd i'w trafod yn fanylach':

- Ymchwilio i'r cwestiwn a ellir cynyddu mewn rhai amgylchiadau faint o bobl y gall un unigolyn fod yn bleidleisiwr trwy ddirprwy ar eu cyfer, er enghraifft os yw'n ofynnol i aelwyd â nifer o bleidleiswyr ei warchod ei hun;
- Diwygio'r gofyniad am bleidleisiau brys trwy ddirprwy, fel nad oes angen ardystiad meddygol mewn perthynas â'r Coronafeirws;
- Sicrhau bod gan y broses ar gyfer pleidleisiau brys trwy ddirprwy'r capasiti i ddelio â galw uwch (os yw'n ofynnol, er enghraifft, i nifer sylweddol o unigolion neu aelwydydd eu gwarchod eu hunain yn agos iawn at y diwrnod pleidleisio);
- Dylai trefniadau ar gyfer casglu pleidleisiau trwy'r post fod ar gael a chael eu cyfleu, ond gyda'r cyfrifoldeb ar y pleidleisiwr o hyd.

Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â phleidleisio drwy'r post. Mae hyn yn wahanol i Fil yr Alban, a drafodir ymhellach yn adran 5 o'r Crynodeb hwn o'r Bil. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> Gan na fydd llawer o bleidleiswyr o bosib yn gallu neu'n barod i fynd i orsafoedd pleidleisio, trefnir gweithgareddau hyrwyddo i annog pleidleiswyr i ddefnyddio opsiynau pleidleisio absennol, megis pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy. Mae'r mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith drwy ddulliau anneddfwriaethol ac ni fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i reolau etholiadol drwy newidiadau deddfwriaethol.

O ran pleidleisio drwy ddirprwy yn Etholiad 2021, mae'r Bil yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i'r trefniadau presennol.

Mae adran 10(4) o'r Bil yn diwygio'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau i ddarparu hyblygrwydd ar gyfer pobl yn gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (neu'n gwneud cais i benodi dirprwy) am resymau sy'n ymwneud â'r Coronafeirws.

Dan y diwygied arfaethedig, caiff person wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy neu benodi dirprwy hyd at 5pm ar ddiwrnod Etholiad 2021 ar y sail na ellid disgwyl

yn rhesymol i'r person bleidleisio'n bersonol o ganlyniad i'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth y Coronafeirws, neu ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Coronafeirws (er enghraifft, yr angen i hunanynysu). Ni fydd angen ardystiad meddygol yn yr amgylchiadau hyn.

Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynyddu nifer y bobl y caiff unigolyn fod yn ddirprwy ar eu cyfer. Roedd hwn yn un o argymhellion y Grŵp Cynllunio Etholiadau i'w trafod ymhellach. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> [...] ar ôl ymchwilio a myfyrio ymhellach, cred Llywodraeth Cymru y gallai trefniadau o'r fath gael eu camddefnyddio a byddai pleidleiswyr bregus yn wynebu risg o gael eu difreinio.

### Cyflwyno papurau enwebu

**Argymhellodd y Grŵp Cynllunio Etholiadau** fwy o hyblygrwydd o ran papurau enwebu Etholiad 2021.

Dan y Rheolau Cynnal Etholiadau, mae'n rhaid enwebu pob ymgeisydd ar gyfer etholiad i'r Senedd drwy lenwi papur enwebu. Wedi hynny, mae'n rhaid cyflwyno'r papur enwebu i'r Swyddog Canlyniadau cymwys ac mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydsynio i'w enwebiad.

Mae'r Bil yn addasu'r trefniadau presennol mewn perthynas â phapurau enwebu yn y ffyrdd a ganlyn:

- Caniatáu i bapurau enwebu gael eu cyflwyno i'r swyddog canlyniadau cymwys ar ran ymgeisydd. Gall hyn fod gan berson a enwir gan yr ymgeisydd, ond dim ond ar ôl iddo hysbysu'r swyddog canlyniadau'n ysgrifenedig neu'n electronig *(Adrannau 10(5)(b) ac (c));*
- Darparu dwy awr ychwanegol bob dydd i gyflwyno papurau enwebu o'r fath (a gyflawnir yn ymarferol drwy ddiwygio'r amser a ganiateir ar gyfer cyflwyno papurau o 10am-4pm ar hyn o bryd, i 9am-5pm) *(Adran 10(5)(a))*;
- Galluogi ymgeiswyr i gydsynio i'w henwebiad naill ai'n ysgrifenedig yn y man cymwys i'w gyflwyno neu'n electronig *(Adran 10(5)(d)(ii))*;
- Dileu'r gofyniad i dyst ardystio cydsyniad ymgeisydd i enwebu *(Adran 10(5)(d)(i))*

## Adran 12 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi:

> […] na fydd pob un o'r effeithiau posibl ar y modd y cynhelir yr etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd wedi cael eu rhagweld ac na fydd darpariaeth ar eu cyfer yn narpariaethau'r Bil. Yn yr un modd, efallai y bydd angen ymdrin â chanlyniadau ymarferol canslo neu ohirio'r etholiad, a bydd angen cael deddfwriaeth […] drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth.

Mae adran 12(1) o'r Bil yn cynnig rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn gwneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed y maent o'r farn eu bod yn briodol at ddibenion rhoi effaith lawn i'r Bil, neu mewn cysylltiad â hynny.

Caiff rheoliadau a wneir dan y pŵer hwn addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys darpariaeth yn y Bil ei hun (gelwir hyn yn **bŵer Harri'r Wythfed**). Hefyd, caniateir eu defnyddio i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu mewn meysydd gwahanol.

Mae adran 12(2)(a) o'r Bil hefyd yn darparu y caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 12(1) wneud darpariaeth ôl-weithredol mewn perthynas ag Is-etholiadau Awdurdodau Lleol. Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn nodi bod y dull gweithredu hwn yn gyson ag **adran 68 o Ddeddf Coronafeirws 2020 Senedd y DU**. Galluogodd y ddarpariaeth hon Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ôl-weithredol mewn perthynas â gohirio is-etholiadau llywodraeth leol a gynhelir cyn 6 Mai 2021.

Byddai rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 yn ddarostyngedig i ddirymiad drwy ddefnyddio gweithdrefn penderfyniad negyddol y Senedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu bod hyn yn '[c]ydbwyso'r gwaith craffu â'r angen i wneud unrhyw reoliadau ar sail frys i ymateb i hinsawdd y coronafeirws sy'n newid byth a beunydd'.

# 4. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd wedi'i gynnwys ym Memorandwm Esboniadol y Bil yn esbonio mai amcan polisi'r Bil yw:

> [...] ymateb i'r risg bosibl i etholiad y Senedd yn 2021 sy'n deillio o'r pandemig, gyda'r nod o sicrhau y gellir gweinyddu'r etholiad a bwrw ati yn ddiogel, ac y gall yr etholwyr gymryd rhan a phleidleisio.

Yn erbyn yr amcan polisi hwn, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi rhinweddau a chostau arfaethedig dau opsiwn:

- **Opsiwn 1: Busnes fel arfer** – caniatáu i Etholiad 2021 fynd rhagddo fel arfer heb newidiadau i'r ddeddfwriaeth etholiadol;
- **Opsiwn 2: Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol** – darparu mwy o hyblygrwydd mewn cyfraith etholiadol, gan gynnwys y gallu i ohirio dyddiad yr etholiad.

### Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod ei bod yn anodd rhagweld sut y bydd y pandemig wedi datblygu erbyn dyddiad yr Etholiad yn 2021 a drefnwyd. Mae'n nodi bod lefelau uwch o haint yn creu risgiau ychwanegol i'r etholiad, gan nodi'r canlynol:

> Efallai na fydd pleidleiswyr yn gallu neu'n barod i gymryd rhan yn y pôl oherwydd salwch, neu ofyniad i hunanynysu, neu'n anfodlon mynd i orsaf bleidleisio lle y gallent ddod i gysylltiad â'r feirws.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y 'gallai lefelau uchel o salwch hefyd leihau nifer y staff sydd ar gael i weinyddu'r pôl' ac y gallai'r 'etholiad ei hun wynebu risg sylweddol o fethu'.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cadarnhau bod rhai mesurau anneddfwriaethol yn cael eu cyflwyno i leihau'r risgiau. Mae mesurau o'r fath yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol a hylendid yn y gorsafoedd pleidleisio ac wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif, yn ogystal ag annog yr etholwyr i bleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy.

Er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod mesurau anneddfwriaethol o'r fath yn cyflawni amcanion polisi'r Bil, mae'n dod i'r casgliad nad ydynt yn "darparu digon o hyblygrwydd ac nid oes cynllun wrth gefn ar gyfer achos gwaethaf".

### Opsiwn 2 – Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r canlynol dan y trefniadau presennol:

> [...] nid yw'r diffyg hyblygrwydd sydd ar gael ar gyfer gwneud newidiadau i reolau etholiadol yn briodol ar gyfer ymateb i'r pandemig, sydd hyd yma wedi golygu gweithredu'n ddi-oed ac yn ymarferol wrth ymateb yn gyflym i sefyllfa sy'n newid yn gyflym.

Mae'n parhau drwy amlinellu'r ffyrdd y 'mae'r Bil yn darparu cynllun wrth gefn ar gyfer delio â'r achos gwaethaf', gan gynnwys drwy:

- fyrhau hyd y diddymiad sy'n caniatáu i'r Senedd eistedd am gyfnod hwy, gan gynnig y cyfle i graffu'n fwy ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Coronafeirws;
- diogelu'r cyfnod o amser rhwng y pôl a chyfarfod cyntaf y Senedd, yn sgil oedi posibl wrth gyfrif pleidleisiau;
- caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y rheolau pleidleisio drwy ddirprwy a chyflwyno enwebiadau;
- ymestyn gallu'r Llywydd i symud dyddiad y pôl fel cynllun wrth gefn.

Wrth ailadrodd bod Llywodraeth Cymru 'yn ymrwymedig i fwrw ati gyda'r etholiad', fel y trefnwyd, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y 'Bil hwn yn darparu lefel ychwanegol o gamau lliniaru risg na all y senario busnes fel arfer ei darparu'. O'r herwydd, daw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r casgliad bod 'opsiwn 2 yn bodloni [ei] amcan polisi yn well'.

## Costau a buddion

### Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Y costau sy'n gysylltiedig ag opsiwn 1 yw costau amcangyfrifedig gweinyddu etholiad y Senedd yn 2021. Eir i'r costau hyn ni waeth a gaiff y Bil ei basio ai peidio.

Mae'r costau sylfaen yn deillio o gostau gweinyddu etholiad y Senedd yn 2016 ac maent wedi'u haddasu i roi cyfrif am chwyddiant.

**Tabl A: Costau etholiad 2016 a chost amcangyfrifedig etholiad 2021**

| | | Cost 2016 | Amcangyfrif 2021 |
|---|---|---|---|
| Awdurdod lleol | Gorsafoedd pleidleisio | 1,429,000 | 1,554,000 |
| | Pleidleisiau drwy'r post | 515,000 | 560,000 |
| | Cardiau pleidleisio | 749,000 | 814,000 |
| | Cyfrif | 440,000 | 479,000 |
| | Staff | 197,000 | 214,000 |
| | Ffioedd Swyddogion Canlyniadau | 201,000 | 219,000 |
| | **Cyfanswm** | **3,531,000** | **3,840,000** |
| | Mesurau'r Coronafeirws | | 4,000,000 |
| Llywodraeth Cymru | Contract y Post Brenhinol | 4,000,000 | 4,000,000 |
| **Cyfanswm terfynol** | | **7,531,000** | **11,840,000** |

*Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r fil agosaf.*

*Ffynhonnell: Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Tabl A*

Cyfanswm cost amcangyfrifedig gweinyddu etholiad 2021 yw £11,840,000. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwariant ychwanegol sy'n ofynnol mewn cysylltiad â mesurau lliniaru'r Coronafeirws, yr amcangyfrifir mai £4,000,000 ydyw yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Fel y mae Tabl A yn nodi, awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am y rhan fwyafrif o gostau'r etholiad. Yn dilyn hynny, codir costau o'r fath yn ôl ar Gronfa Gyfunol Cymru drwy Lywodraeth Cymru.

## Opsiwn 2 – Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cadarnhau mai dim ond pe bai'r etholiad yn cael ei ohirio y byddai'r prif gostau sy'n gysylltiedig â'r Bil yn cael eu hysgwyddo, gan mai 'Bil galluogi' ydyw'n bennaf.

Mae Tabl B, isod, yn nodi'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil pe bai Etholiad 2021 yn cael ei ohirio. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cadarnhau bod y ffigurau'n

seiliedig ar y dybiaeth bod llawer o'r costau a nodir yn opsiwn 1 wedi'u neilltuo ac y byddent yn cael eu hysgwyddo eto o reidrwydd ar gyfer dyddiad newydd yr etholiad. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud mai'r 'achos gwaethaf' yw'r dybiaeth hon ond mae'n awgrymu y gall fod yn bosibl i Swyddogion Canlyniadau 'drefnu i gostau ychwanegol gael eu harbed cyn unrhyw ohiriad'.

**Tabl B: Cost amcangyfrifedig etholiad 2021 a chostau ychwanegol pe bai'r etholiad yn cael ei ohirio.**

| | | **Amcangyfrif 2021** | **Costau ychwanegol a achosir gan y gohiriad** |
|---|---|---|---|
| Awdurdod lleol | Gorsafoedd pleidleisio | 1,554,000 | 1,554,000 |
| | Pleidleisiau drwy'r post | 560,000 | 560,000 |
| | Cardiau pleidleisio | 814,000 | 814,000 |
| | Cyfrif | 479,000 | 479,000 |
| | Staff | 214,000 | 214,000 |
| | Ffioedd Swyddogion Canlyniadau | 219,000 | 219,000 |
| | Mesurau'r Coronafeirws | 4,000,000 | |
| | Cyfleu'r newid dyddiad | | 350,000 |
| | I dalu am gyfraniad Llywodraeth y DU | | 1,766,000 |
| | **Cyfanswm** | **7,840,000** | **5,938,000** |
| Llywodraeth Cymru | Contract y Post Brenhinol | 4,000,000 | 4,000,000 |
| **Cyfanswm terfynol** | | **11,840,000** | **9,938,000** |

*Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r fil agosaf.*

*Ffynhonnell: Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Tabl B*

Cyfanswm cost amcangyfrifedig Etholiad 2021 pe bai'n cael ei ohirio yw £21,778,000. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â'r etholiad gwreiddiol a chostau ychwanegol y pôl wedi'i ohirio.

Mae'n dilyn y byddai'r Bil yn arwain at £5,938,000 mewn costau ychwanegol amcangyfrifedig ar awdurdodau lleol am ohirio'r etholiad. Fel gyda chostau'r etholiad gwreiddiol, codir costau ychwanegol o'r fath yn ôl ar Gronfa Gyfunol Cymru drwy Lywodraeth Cymru.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi bod "costau ychwanegol posibl i Gomisiwn y Senedd am weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu" pe bai'r etholiad yn cael ei ohirio. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn wedi'u meintioli yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## Costau sy'n gysylltiedig â chyfnod diddymu byrrach

Mae Bil Etholiad Cyffredinol yr Alban (Coronafeirws) 2021 yn lleihau'r cyfnod diddymu cyn etholiadau Senedd yr Alban i un diwrnod. Nododd y **Memorandwm Ariannol** sy'n cyd-fynd â Bil yr Alban, y costau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn, sef costau cyflog Aelodau o Senedd yr Alban ("ASA") a'u staff yn bennaf.

Nid yw ASA yn dal eu seddau ar ôl i Senedd yr Alban gael ei diddymu. Hefyd, ni fydd ASA presennol sy'n rhoi'r gorau i'w seddau'n cael eu talu ar ôl ei diddymu. Fodd bynnag, mae ymgeiswyr sy'n sefyll ailetholiad yn parhau i gael eu talu, er gwaethaf y diddymiad.

Nododd y Memorandwm Ariannol y bydd addasu'r cyfnod diddymu yn golygu costau cyflogres parhaus i'r ASA nad ydynt yn sefyll ailetholiad, a'u staff.

Mae'r dadansoddiad uchod yr un mor gymwys mewn perthynas ag Aelodau o'r Senedd a'u staff. Ar hyn o bryd, mae ymgeiswyr sy'n sefyll ailetholiad i'r Senedd yn parhau i gael eu talu ar ôl y diddymiad ond nid yw hynny'n digwydd i'r Aelodau sy'n rhoi'r gorau i'w seddau. Nid yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Llywodraeth Cymru yn meintioli'r costau cyflog ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyfnod diddymu byrrach.

# 5. Bil Etholiad Cyffredinol yr Alban (Coronafeirws) 2021

## Trosolwg cyffredinol

Mae etholiad cyffredinol nesaf Senedd yr Alban **wedi'i drefnu ar gyfer** 6 Mai 2021. Ar 16 Tachwedd 2020, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban **Fil Etholiad Cyffredinol yr Alban (Coronafeirws)** ("Bil yr Alban"). Cafodd ei basio gan Senedd yr Alban ar 23 Rhagfyr ac mae disgwyl iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol yn fuan.

Y prif fesurau wrth gefn a gyflwynwyd gan Fil yr Alban yw:

- Dyddiad cau cynharach ar gyfer ceisiadau am bleidlais drwy'r post a rhoi pŵer i Weinidogion yr Alban wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer etholiad sy'n defnyddio pleidleisiau drwy'r post yn unig;
- Newid y cyfnod diddymu cyn etholiadau Senedd yr Alban i un diwrnod;
- Caniatáu i Weinidogion yr Alban wneud rheoliadau i gynnal pôl dros sawl diwrnod;
- Gwneud trefniadau ar gyfer cyfarfod cyntaf y senedd newydd ac ethol Llywydd newydd;
- Rhoi pwerau i'r Llywydd ohirio'r etholiad hyd at 6 mis.

## Cymhariaeth â Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)

### Darpariaethau cymaradwy ym Mil yr Alban a Bil Cymru

**Cyfnod diddymu**

Mae Bil Cymru a Deddf yr Alban yn darparu ar gyfer diddymiad byrrach cyn yr etholiadau.

Mae Bil Cymru yn darparu ar gyfer cyfnod diddymu saith diwrnod, yn dechrau ar 29 Ebrill 2021. Mae Bil yr Alban yn darparu ar gyfer diddymiad un diwrnod, yn dechrau ar 5 Mai 2021. Os caiff y naill etholiad neu'r llall ei ohirio, mae'r ddau'n darparu bod y cyfnodau diddymu byrrach hynny'n gymwys yn awtomatig cyn y polau wedi'u gohirio.

Mae Bil yr Alban a Bil Cymru yn torri'r cysylltiad rhwng diddymu ac amseru person yn dod yn ymgeisydd yn yr etholiad. Mae Bil Cymru yn darparu y daw person yn ymgeisydd 21 diwrnod cyn 6 Mai 2021. Mae Bil yr Alban yn darparu ar gyfer 27 diwrnod cyn 6 Mai 2021.

Mae Nodiadau Esboniadol Bil yr Alban yn pwysleisio y bydd hyn yn arwain at lawer o unigolion â statws deuol fel ASA presennol ac ymgeiswyr etholiad ac yn esbonio effeithiau hyn yn ymarferol. Nid yw'r dadansoddiad hwn wedi'i gynnwys ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru.

Nododd y **memorandwm polisi** a oedd yn cyd-fynd â Bil yr Alban y canlynol:

> It is anticipated that the Parliament will vote to go into recess on or around 25 March 2021 (the date previously set for dissolution) and remain in recess unless and until there is a need to meet in emergency session (e.g. to postpone the election). This will allow the pre-election campaign period to begin as normal.

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil Llywodraeth Cymru yn cadarnhau a yw'r Senedd yn debygol o gael toriad pan fydd diddymiad wedi'i drefnu dan y trefniadau presennol.

### Cyfarfod cyntaf ar ôl yr etholiad

O dan Fil arfaethedig Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Senedd gynnal ei chyfarfod cyntaf cyn pen 21 diwrnod calendr i bôl yr etholiad. Mae hyn yn darparu un diwrnod ychwanegol o'i gymharu â'r trefniadau presennol.

Mae Bil yr Alban yn darparu bod yn rhaid i Lywydd Senedd yr Alban bennu dyddiad y cyfarfod cyntaf cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y pôl, ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol a Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban.

### Pwerau i ohirio'r etholiad

Mae Bil Llywodraeth Cymru a Deddf yr Alban yn gwneud darpariaeth ar gyfer gohirio etholiadau 2021 am hyd at chwe mis. Fodd bynnag, mae'r dulliau ar gyfer gwneud hynny'n wahanol.

Ym Mil Llywodraeth Cymru, y Prif Weinidog sy'n gwneud cais i ohirio'r etholiad.

Ym Mil yr Alban, Llywydd Senedd yr Alban sy'n cynnig gohirio'r etholiad ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon na allai Senedd yr Alban gyfarfod yn ddiogel at ddiben pasio Bil i newid y diwrnod pleidleisio.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn nodi na "fyddai'n briodol i'w gwneud yn ofynnol i'r Llywydd weithredu'r cais o gofio'r pwerau llawer mwy cyfyngedig a'r adnoddau sydd ar gael i'r Llywydd".

O dan Fil Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i'r Llywydd nodi'r rheswm dros arfer y pŵer hwn a chaiff ofyn am gyngor gan y Comisiwn Etholiadol. Mae Bil yr Alban yn darparu bod yn rhaid i'r Llywydd ymgynghori â Gweinidogion yr Alban, y Comisiwn Etholiadol, Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban a Phrif Swyddog Meddygol yr Alban cyn defnyddio'r pŵer gohirio.

Mae adran 5(7) o Fil Llywodraeth Cymru yn cynnwys darpariaeth benodol bod y Llywydd yn cadw'r pŵer presennol i amrywio dyddiad yr etholiad o fis o dan adran 4 o Ddeddf 2006.

Ar hyn o bryd, mae gan Lywydd Senedd yr Alban bŵer tebyg o dan Ddeddf yr Alban 1998. Fodd bynnag, mae Bil yr Alban yn ei ddatgymhwyso at ddibenion etholiad 2021. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi mai'r rheswm dros hyn yw nad ystyrir bod yr uchafswm gohiriad, sef mis, yn cynnig digon o gyfle i newid y diwrnod pleidleisio.

### Pwerau gwneud rheoliadau

Mae adran 12 o Fil Llywodraeth Cymru yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau canlyniadol a throsiannol i roi effaith lawn i'r Bil. Mae Bil yr Alban yn gwneud darpariaeth debyg.

## Darpariaethau ychwanegol ym Mil yr Alban nad ydynt ym Mil Cymru

### Pleidleisio drwy'r post

Mae Bil yr Alban yn newid y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am bleidlais drwy'r post i 21 diwrnod cyn y pôl. Dywed y Nodiadau Esboniadol mai'r rheswm dros hyn yw caniatáu mwy o amser i brosesu'r hyn y disgwylir y bydd yn nifer fwy o lawer o geisiadau na'r arfer.

Mae Bil yr Alban yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban osod adroddiad ar nifer y rhai sy'n pleidleisio drwy'r post cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 7 Ebrill 2021. Mae'n rhaid i'r adroddiad nodi nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio yn etholiad 2021, nifer y bobl y rhoddwyd pleidlais drwy'r post iddynt a nifer y ceisiadau a gafwyd ond na chawsant eu penderfynu.

Mae Bil yr Alban yn rhoi pwerau i Weinidogion yr Alban wneud rheoliadau sy'n

darparu ar gyfer etholiad sy'n defnyddio pleidleisiau drwy'r post yn unig. Cyn gwneud rheoliadau o'r fath, mae'n rhaid i Weinidogion yr Alban ymgynghori â'r Llywydd, y Comisiwn Etholiadol, Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban a Phrif Swyddog Meddygol yr Alban.

Nododd y **memorandwm polisi** a oedd yn cyd-fynd â'r Bil fel y'i cyflwynwyd na fwriedir defnyddio'r pŵer hwn os bydd yr etholiad yn mynd rhagddo ar 6 Mai ac y byddai etholiad sy'n defnyddio pleidleisiau drwy'r post yn unig yn golygu bod angen gohiriad o leiaf chwe mis i'r diwrnod pleidleisio.

**Diwrnodau pleidleisio ychwanegol**

Mae Bil yr Alban yn rhoi pwerau i Weinidogion yr Alban wneud rheoliadau sy'n darparu i'r pôl gael ei gynnal ar fwy nag un diwrnod os oes angen oherwydd y Coronafeirws. Caiff pwerau Gweinidogion yr Alban o dan y ddarpariaeth hon eu sbarduno pan fydd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban yn argymell y dylid cynnal yr etholiad ar ddiwrnod neu fwy. Mae'r pŵer yn amodol ar ymgynghori â nifer o swyddfeydd a swyddogion.

Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi mai diben y ddarpariaeth hon yw caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y bydd pleidleisio'n bersonol yn cymryd mwy o amser na'r arfer oherwydd posibilrwydd gosod mesurau cadw pellter corfforol.

**Wrth gyhoeddi'r cynnig am Fil Llywodraeth Cymru** yn y Senedd, dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn 'ystyried sefydlu canolfannau pleidleisio cynnar a fyddai'n rhoi 'cyfle i bobl bleidleisio yn ystod y dyddiau cyn yr etholiad'. Er nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pleidleisio'n gynnar, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> [...] mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymgysylltu â'r Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a rhanddeiliaid eraill i ymchwilio i'r posibilrwydd o bleidleisio'n gynnar cyn y pôl a chynnal trafodaeth â Llywodraeth y DU ynghylch cymhwyso hyn at etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad y Senedd.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)**

**DYDDIAD** **27 Ionawr 2021**

**GAN** **Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylid cynnal etholiad y Senedd ar 6 Mai fel y trefnwyd, ac mae angen i bawb sy'n rhan o'r etholiad baratoi ar y sail honno. Rydym yn ddiolchgar i bawb sy'n gweithio mor galed i sicrhau y gellir cynnal yr etholiad yn ddiogel.

Fodd bynnag, o ystyried llwybr ansicr y pandemig, mae angen inni hefyd baratoi ar gyfer senario lle y gallai fod angen gohirio'r etholiad.

Rwyf heddiw'n cyflwyno Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) i'r Senedd. Cytunodd y Senedd, yn dilyn y ddadl yn y cyfarfod llawn ddoe, y bydd y Bil yn cael ei drin fel Bil Brys y Llywodraeth. Rwyf hefyd wedi gosod Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil.

Mae Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) yn gwneud darpariaethau i ymateb i'r risgiau posibl i'r etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd sy'n deillio o bandemig y coronafeirws, gyda'r nod o sicrhau y gellir gweinyddu'r etholiad a bwrw ymlaen yn ddiogel ac y gall yr etholwyr gymryd rhan a phleidleisio, neu, dan amgylchiadau eithriadol, y gellir gohirio'r etholiad os oes angen. Prif amcan Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod yr etholiad yn mynd rhagddo ar 6 Mai 2021 yn ôl y bwriad, ac mae'r addasiadau a wneir gan y Bil yn fesurau wrth gefn doeth i sicrhau y gall Swyddogion Canlyniadau gynnal yr etholiad yng nghyd-destun y pandemig sy'n datblygu. Dim ond ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2021 y bydd y Bil yn gymwys ac ni fydd yn gymwys i unrhyw etholiadau dilynol.

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n: -

a. darparu ar gyfer cyfnod diddymu byrrach ar gyfer y Senedd cyn y diwrnod pleidleisio;

b. diogelu'r cyfnod o amser y mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyntaf y Senedd newydd a etholwyd ar ôl etholiad 2021 ynddo;

c. darparu pŵer i'r Llywydd, yn dilyn cynnig gan y Prif Weinidog, ohirio'r etholiad o 6 Mai 2021 am reswm sy'n ymwneud â phandemig y coronafeirws tan ddyddiad nad yw'n hwyrach na 5 Tachwedd 2021, a phennu dyddiad ar gyfer y diwrnod pleidleisio os bydd y Senedd yn cytuno drwy benderfyniad a wneir gan fwyafrif o ddwy ran o dair o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd – mae'r Bil yn cynnig rôl i'r Comisiwn Etholiadol roi cyngor ar fater gohirio os bydd y Llywydd neu'r Prif Weinidog yn gofyn amdano;

d. sicrhau bod pŵer presennol y Llywydd i amrywio dyddiad etholiad 2021 yn parhau i fod yn gymwys i'r etholiad cyffredinol arferol os caiff y dyddiad pleidleisio ar gyfer yr etholiad ei ohirio;

e. galluogi is-etholiad i lenwi swydd wag etholaethol sy'n codi ar ôl 6 Mai 2021 i gael ei gynnal ar ddyddiad a bennir gan y Llywydd ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru;

f. galluogi is-etholiad i lenwi swydd wag am aelodaeth o gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned i gael ei ohirio tan ddyddiad nad yw'n hwyrach na 5 Tachwedd 2021;

g. gwneud addasiadau canlyniadol i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd); a

h. rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn gwneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed sy'n briodol yn eu barn hwy at ddibenion gweithredu'r Ddeddf yn llawn, neu mewn cysylltiad â hynny.

Rydym hefyd yn parhau i adolygu pleidleisio cynnar yn etholiad y Senedd rhag ofn y bydd cyffredinrwydd y pandemig yn golygu nad yw'n ddiogel cynnal yr etholiad ym mis Mai fel y bwriedir. Mewn amgylchiadau eithriadol o'r fath, rhaid inni ystyried pob opsiwn i alluogi pleidleiswyr i gymryd rhan yn yr etholiad.

Hyd yma, mae trywydd y pandemig wedi bod yn anodd ei rag-weld ac mae'n anodd gwybod beth fydd statws y pandemig pan fwriedir cynnal yr etholiad. Nid yw'r diffyg hyblygrwydd sydd ar gael ar gyfer gwneud newidiadau i reolau etholiadol yn briodol ar gyfer ymateb i'r pandemig, sydd hyd yma wedi golygu gweithredu yn ddi-oed ac yn ymarferol wrth ymateb yn gyflym i sefyllfa sy'n newid yn sydyn.  O dan yr amgylchiadau hyn, byddai'n anghyfrifol inni fethu â pharatoi. Felly, mae'r Bil yn fesur doeth i sicrhau bod trefniadau wrth gefn ar waith os bydd y pandemig yn fygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd ac i'r broses o gynnal etholiad arfaethedig y Senedd.

# SL(5)729 – The Health Protection (Coronavirus, International Travel, Operator Liability and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) Regulations 2021

## Background and Purpose

These Regulations make amendments to:

- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 ("the International Travel Regulations");
- the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020 ("the Public Health Information Regulations"); and
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel, Pre-Departure Testing and Operator Liability) (Wales) (Amendment) Regulations 2021 ("the Pre-Departure Testing Regulations").

Specifically, these Regulations:

- amend the International Travel Regulations to:
    - reduce the amount of passenger information that people travelling to Wales are required to provide in order to comply with the requirement in regulation 4 of the International Travel Regulations; and
    - add an exemption from the requirement to possess notification of a negative coronavirus test result for air crew who perform duties onboard aircraft in the interests of the safety of the aircraft;
- amend the Public Health Information Regulations so that the information that must be provided to passengers includes information about:
    - the requirement to possess a notification of a negative coronavirus test; and
    - the availability of the test to release scheme for people isolating in England;
- make consequential amendments to the Pre-Departure Testing Regulations to ensure that relevant passengers possess a notification of a negative coronavirus test; and
- amend the Pre-Departure Testing Regulations so that operators are not required to ensure that a notification of a negative coronavirus test is from a "qualifying test".

These Regulations are made on a four nations basis in order to support the further safeguards that have been introduced in the effort to prevent danger to public health.

## Procedure

Negative.

These Regulations were made by the Welsh Ministers before they were laid before the Senedd.

The Senedd can annul these Regulations within 40 days (excluding any days when the Senedd is: (i) dissolved, or (ii) in recess for more than four days) of the date they were laid before the Senedd.

## Technical Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

## Merits Scrutiny

The following three points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

**1. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

We note the breach of the 21-day rule (i.e. the rule that 21 days should pass between the date a "made negative" instrument is laid before the Senedd and the date the instrument comes into force), and the explanation for the breach provided by Rebecca Evans MS, Minister for Finance and Trefnydd, in a letter to the Llywydd dated 22 January 2021.

In particular, we note the following in the letter:

> *"Not adhering to the 21 day convention allows these Regulations to come into force at the earliest opportunity. This was necessary in view of the need to act swiftly and on a four nations basis in order to support the further safeguards that have been introduced in the effort to prevent danger to public health from persons travelling to Wales from outside the common travel area."*

**2. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

We note the Welsh Government's justification for any potential interference with human rights. In particular, we note the following paragraph in the Explanatory Memorandum:

> *"The amendments contained in these Regulations do not change the engagement under the International Travel Regulations or the Public Health Information Regulations of individual rights under the Human Rights Act 1998 and the European Convention on Human Rights; the Government considers that they are justified for the purpose of preventing the spreading of infectious diseases and/or the interference is permitted on the basis that it is in pursuit of a legitimate aim, namely of protecting public health, and are proportionate."*

These Regulations amend the Pre-Departure Testing Regulations as well as the International Travel Regulations and the Public Health Information Regulations. There is no express reference to the Pre-Departure Testing Regulations within this paragraph of the Explanatory Memorandum. We acknowledge that, as with the International Travel Regulations and the Public Health Information Regulations, these Regulations may be unlikely to change the engagement of human rights issues under the Pre-Departure Testing Regulations. It would assist the Committee if the position in relation to the Pre-Departure Testing Regulations could be clarified.

**3. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

We note there has been no formal consultation on these Regulations. In particular, we note the following paragraphs in the Explanatory Memorandum:

> *"Given the serious and imminent threat arising from coronavirus and the need for an urgent public health response, there has been no public consultation in relation to these Regulations."*

It is noted that these Regulations amend the requirements to provide information to passengers arriving into Wales. In the absence of consultation prior to making these Regulations, the Government is asked to explain what, if any, action was taken to make operators aware of these changes ahead of them coming into force to ensure that operators could comply with the law, as amended.

## Welsh Government response

A Welsh Government response is required in relation to points 2 and 3.

**Legal Advisers**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**
**28 January 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 72 (Cy. 18)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595 (Cy. 136)) ("y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr") yn gosod gofynion ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru ("gweithredwyr") i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodol i deithwyr. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr fel bod yr wybodaeth benodol honno'n cynnwys gwybodaeth am y gofyniad o dan reoliad 6A o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") i feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol am y coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn:

(a) lleihau hynny o wybodaeth am deithiwr y mae'n ofynnol i bobl sy'n teithio i Gymru ei darparu er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; a

(b) ychwanegu esemptiad rhag y gofyniad i griw awyren sy'n cyflawni dyletswyddau ar fwrdd awyren er budd diogelwch yr awyren, fel

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

llwythfeistri, feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol am y coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/48 (Cy. 11)) fel nad yw'n ofynnol i weithredwyr sicrhau bod hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol am y coronafeirws ar ffurf "prawf cymhwysol", h.y. prawf sy'n bodloni'r safonau a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 1A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'n ofynnol i weithredwyr wirio bod teithwyr yn meddu ar hysbysiad o brawf coronafeirws sy'n cynnwys gwybodaeth benodedig, ond y teithiwr sy'n atebol am sicrhau bod y canlyniad yn dod o brawf cymhwysol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2021 Rhif 72 (Cy. 18)**

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 3.08 p.m. ar 22 Ionawr 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 5.30 p.m. ar 22 Ionawr 2021* |
| *Yn dod i rym* | *am 4.00 a.m. ar 23 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**) .

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 23 Ionawr 2021.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd" ("*the Public Health Information Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020(**1**);

ystyr "y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" ("*the International Travel Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

**Diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd**

**2.**—(1) Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y lle priodol, mewnosoder "ystyr "y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" ("*the International Travel Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020;";

(b) yn y diffiniad o "gofyniad i ddarparu gwybodaeth" ("*requirement to provide information*"), yn lle "Rhan 2 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020" rhodder "rheoliad 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol";

(c) yn y diffiniad o "gofyniad i ynysu" ("*requirement to isolate*"), yn lle "Rhan 3 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020" rhodder "rheoliad 7 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol".

(3) Yn rheoliad 3 (darparu gwybodaeth cyn archebu ac wrth gofrestru)—

(a) yn lle paragraff (2)(a) rhodder—

"(a) yn achos cyfleuster a ddarperir er mwyn archebu taith ar-lein—

(i) yr wybodaeth a nodir yn Rhan 1 o'r Atodlen y mae rhaid iddi fod wedi ei

(**1**) O.S. 2020/595 (Cy. 136) a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy.160), O.S. 2020/1118 (Cy.253) ac O.S. 2020/1521 (Cy. 325).

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), S.I 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11) ac O.S. 2021/50 (Cy. 12).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gosod mewn lle amlwg fel ei bod yn weladwy cyn archebu,

(ii) dolen i www.gov.uk/uk-border-control (y cyfeirir ati yn Rhan 1 o'r Atodlen),

(iii) dolen i https://gov.wales/coronavirus-covid-19-testing-people-travelling-wales (y cyfeirir ati yn Rhan 1 o'r Atodlen),

(iv) dolen i www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-test-to-release-for-international-travel (y cyfeirir ati yn Rhan 1 o'r Atodlen),

(v) dolen i www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk, ac

(vi) dolen i https://gov.wales/exemptions-self-isolation-coronavirus-covid-19-html;
";

(b) yn lle paragraff (2)(b) rhodder—

"(b) yn achos cyfleuster a ddarperir er mwyn cofrestru ar gyfer taith ar-lein—

(i) yr wybodaeth a nodir yn Rhan 1 o'r Atodlen y mae rhaid iddi fod wedi ei gosod mewn lle amlwg fel ei bod yn weladwy cyn cofrestru,

(ii) dolen i www.gov.uk/uk-border-control (y cyfeirir ati yn Rhan 1 o'r Atodlen),

(iii) dolen i https://gov.wales/coronavirus-covid-19-testing-people-travelling-wales (y cyfeirir ati yn Rhan 1 o'r Atodlen),

(iv) dolen i www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-test-to-release-for-international-travel (y cyfeirir ati yn Rhan 1 o'r Atodlen),

(v) dolen i www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk, ac

(vi) dolen i https://gov.wales/exemptions-self-isolation-coronavirus-covid-19-html;
";

(c) yn lle paragraff 2(c)(ii) rhodder—

"(ii) pan ddarperir gwybodaeth yn ysgrifenedig, hysbysiad ysgrifenedig sy'n nodi—

(aa) y gofyniad i ddarparu gwybodaeth,

(bb) y gofyniad i feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol yn unol â rheoliad 6A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ac

(cc) y gofyniad i ynysu;";

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) ym mharagraff (2)(d), yn lle "cais" rhodder "cais ysgrifenedig".

(4) Yn rheoliad 3A (darparu gwybodaeth cyn i daith ymadael)—

(a) ym mharagraff (4)(a), ar ôl is-baragraff (iv) mewnosoder—

"(v) yn hysbysu P am y gofyniad i feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol yn unol â rheoliad 6A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;";

(b) yn lle paragraff (4)(b) rhodder—

"(b) pan ddarperir yr wybodaeth drwy'r e-bost—

(i) yr wybodaeth a nodir yn Rhan 1 o'r Atodlen,

(ii) dolen i www.gov.uk/uk-border-control (y cyfeirir ati yn Rhan 1 o'r Atodlen),

(iii) dolen i https://gov.wales/coronavirus-covid-19-testing-people-travelling-wales (y cyfeirir ati yn Rhan 1 o'r Atodlen),

(iv) dolen i www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-test-to-release-for-international-travel (y cyfeirir ati yn Rhan 1 o'r Atodlen),

(v) dolen i www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk, ac

(vi) dolen i https://gov.wales/exemptions-self-isolation-coronavirus-covid-19-html;
".

(5) Yn lle Rhan 1 o'r Atodlen (yr wybodaeth sydd i'w darparu at ddibenion rheoliadau 3(2)(a)(i), 3(2)(b)(i), 3(2)(c)(i), 3A(4)(b)(i) a 3A(4)(c)), rhodder—

## "RHAN 1

Yr wybodaeth sydd i'w darparu at ddibenion rheoliadau 3(2)(a)(i), (3)(2)(b)(i), 3(2)(c)(i), 3A(4)(b)(i) a 3A(4)(c) yw—

"ESSENTIAL INFORMATION TO ENTER THE UK

The United Kingdom is taking steps to help stop the spread of COVID-19.

1) All persons (including UK nationals and residents) arriving in the UK from outside the common travel area must provide proof of a negative COVID-19 test taken within 3 days of departure to the UK. For further information

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

please visit: https://gov.wales/coronavirus-covid-19-testing-people-travelling-wales

2) To protect your health and others', everyone must complete an online passenger locator form before arrival in the United Kingdom.

3) All arrivals must self-isolate for 10 days unless exempt. Check the list of exempt countries immediately before travel and the list of work related exemptions if travelling for work.

4) It is a legal requirement that you wear a face covering on public transport in the UK.

5) If you self-isolate in England, you may opt in to Test to Release. For further information please visit www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-test-to-release-for-international-travel.

Failure to comply with these measures is a criminal offence and you could be fined. Please visit www.gov.uk/uk-border-control for detailed public health advice and requirements for entering the UK.””.

**Diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (gwybodaeth am deithiwr), hepgorer paragraffau 2(g), 3 a 5.

(3) Ym mharagraff 3(1)(e) o Atodlen 1A (profion cyn cyrraedd Cymru), ar ôl “ailddechrau gweithio” mewnosoder—

“,

(f) aelod o griw awyren sy'n cael ei gludo ar hediad at ddiben cyflawni dyletswyddau sydd i'w haseinio gan y gweithredwr neu'r peilot sydd â rheolaeth o'r awyren, er budd diogelwch yr awyren, pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.”

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021**

**4.**—(1) Mae Rhan 3 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) 2021(**1**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (dehongli)—

(**1**) O.S. 2021/48 (Cy. 11).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) hepgorer y diffiniad o "prawf cymhwysol";

(b) yn y diffiniad o "teithiwr perthnasol", ar ôl "hysbysiad" mewnosoder "dilys o ganlyniad negyddol o brawf cymhwysol";

(c) yn lle'r diffiniad o "hysbysiad gofynnol" rhodder—

"ystyr "hysbysiad gofynnol" ("*required notification*") yw hysbysiad o ganlyniad prawf ar gyfer canfod y coronafeirws sy'n cynnwys yr wybodaeth a ganlyn yn Saesneg, Ffrangeg neu Sbaeneg—

(a) enw'r person y cymerwyd sampl y prawf ohono,

(b) dyddiad geni neu oed y person hwnnw,

(c) canlyniad negyddol y prawf hwnnw,

(d) y dyddiad y casglwyd sampl y prawf neu'r dyddiad y cafodd darparwr y prawf ef,

(e) enw darparwr y prawf a gwybodaeth sy'n ddigonol i gysylltu â'r darparwr hwnnw,

(f) enw'r ddyfais a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf; ".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 3.08 p.m. ar 22 Ionawr 2021

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

22 Ionawr 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r canlynol:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol");
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Bersonau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd"); a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion Cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau Profion Cyn Ymadael").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

*Dod i rym*

Yn unol ag adrannau 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau yn dod i rym lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl i'r offeryn gael ei osod. Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd yr angen i weithredu'n gyflym ac ar sail pedair gwlad er mwyn cefnogi'r amddiffyniadau pellach sydd wedi'u cyflwyno yn yr ymdrech i atal perygl i iechyd y cyhoedd oddi wrth bobl sy'n teithio i Gymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Government Response:** The Marketing of Seeds and Plant Propagating Material (Amendment) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020

**Technical Scrutiny**

The point is well made and pertinent to legislation that applies beyond Wales, identical provision having been made to legislation that applies to England. As the provisions are connected to a variety listing regime that applies to Great Britain, we have opened a dialogue with the UK Government to investigate their improved interaction with that regime. The Committees concern is being addressed. We will return to the Committee as soon as the way forward is settled.

**Ymateb y Llywodraeth:** Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

**Craffu Technegol**

Mae'r pwynt wedi ei wneud yn dda, ac yn berthnasol i ddeddfwriaeth sy'n gymwys y tu hwnt i Gymru, gydag union yr un ddarpariaeth wedi ei wneud â'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Loegr. Gan fod y darpariaethau yn gysylltiedig â chyfundrefn restru amrywogaethau sy'n gymwys i Brydain Fawr, rydym wedi dechrau trafodaeth gyda Llywodraeth y DU i ymchwilio i'r gwelliant o ran rhyngweithio Llywodraeth y DU â'r gyfundrefn honno. Rydym yn mynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor. Byddwn yn dychwelyd i'r pwyllgor unwaith y cytunir ar y ffordd ymlaen.

# SL(5)707 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (y Prif Reoliadau). Mae'r Prif Reoliadau yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru adennill ffioedd gan ymwelwyr tramor nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig (DU) ar gyfer categorïau penodol o ofal iechyd a ddarperir iddynt yng Nghymru, oni bai bod yr ymwelydd tramor, neu'r gwasanaeth y mae'n ei gael, yn destun esemptiad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y Rheoliadau hyn yn cywiro cyfeiriadau at gyfraith yr UE a fydd yn anweithredadwy ar ôl i'r DU adael yr UE ac yn gwneud darpariaeth ar statws y ffioedd sydd i'w codi ar ymwelwyr o Aelod-wladwriaethau'r UE/AEE a'r Swistir sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG yng Nghymru pe bai dim cytundeb ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu. Bydd y diwygiadau yn sicrhau bod categorïau penodol o ymwelwyr o Aelod-wladwriaethau'r UE/AEE a'r Swistir yn parhau i fod yn esempt rhag codi tâl am ofal penodol gan y GIG.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau hyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Rheoliad 4 yn cynnwys croesgyfeiriad anghywir. Dylai'r cyfeiriad at reoliad 4A y Prif Reoliadau yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Rheoliadau hyn fod yn cyfeirio at reoliad 4A(1). Gofynnir am ymateb gan y Llywodraeth.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rheoliad 8 yn diwygio Atodlen 2 i’r Prif Reoliadau, trwy fewnosod a hepgor gwledydd a thiriogaethau amrywiol. Mae Atodlen 2 i’r Prif Reoliadau yn rhestru’r gwledydd neu diriogaethau y mae’r Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i gytundeb cilyddol mewn cysylltiad â hwy. Mae'r sefyllfa yn Lloegr wedi’i gynnwys yn Atodlen 2 i Reoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (Rheoliadau Ffioedd Lloegr). Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys llawer o esboniad ychwanegol am y diwygiadau a wnaed gan reoliad 8.

Yn benodol, mae rheoliad 8(2)(d) o’r Rheoliadau hyn yn mewnosod Liechtenstein at Atodlen 2 i’r Prif Reoliadau ac mae rheoliad 8(3)(b) o’r Rheoliadau hyn yn hepgor Gwlad yr Iâ o Atodlen 2 i’r Prif Reoliadau. Mae Liechtenstein a Gwlad yr Iâ ill dau yn aelodau o Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA).

Ymhellach, nodir bod Sweden yn parhau i gael ei rhestru yn Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau er ei bod yn aelod o'r UE.

Nid yw'n glir pam mae Liechtenstein yn cael ei mewnosod yn Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau a Gwlad yr Iâ yn cael ei hepgor. Hefyd, nid yw’n glir pam mae Sweden yn parhau i gael ei rhestru yn Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau pan nad oes Aelod-wladwriaethau eraill yr UE wedi’u rhestru.

Mae'r sefyllfa mewn perthynas â dinasyddion Liechtenstein a Gwlad yr Iâ, yn ogystal â Norwy, yn cael ei llywodraethu gan y cytundeb gwahanu rhwng yr AEE a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop. Yn yr un modd, mae'r sefyllfa mewn perthynas â dinasyddion Sweden, yn ogystal ag Aelod-wladwriaethau eraill yr UE, yn cael ei llywodraethu gan y cytundeb ymadael rhwng yr UE a’r DU.

Darperir ar gyfer hawliau o dan y ddau gytundeb o dan reoliad 4B o'r Prif Reoliadau, a fewnosodir yn rhinwedd rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn. Felly, nid yw'n ymddangos bod angen cynnwys llofnodwyr y cytundeb gwahanu rhwng yr AEE a Chytundeb Masnach Rydd Ewrop, na chytundeb ymadael yr UE, yn Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau.

Ymhellach, noder fod y Memorandwm Esboniadol yn dweud yr hyn a ganlyn:

> *“Amendments to the Principal Regulations are required to ensure that the law remains operable, existing exemptions still operate effectively and there is consistency of approach with England following EU Exit implementation period completion date in the event of a No Deal exit.”*

Nid yw Liechtenstein, Gwlad yr Iâ a Sweden wedi cael eu cynnwys yn Rheoliadau Ffioedd Lloegr, ac felly nid yw’r sefyllfa fel y’i nodwyd yn Atodlen 2 i’r Prif Reoliadau yn gyson â hynny o dan Reoliadau Ffioedd Lloegr.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro:

(a) pam mae Liechtenstein yn cael ei mewnosod yn Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau a Gwlad yr Iâ yn cael ei hepgor ohoni, ac

(b) a ddylai Sweden gael ei hepgor o Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 21 Rhagfyr 2020.

Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch pam mae'r Rheoliadau hyn (y cyfeirir atynt fel "Rheoliadau 2020" yn y llythyr) yn torri'r rheol 21 diwrnod:

> *"Cafodd Rheoliadau 2020 eu gwneud a'u gosod cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol wedi i ddrafft terfynol yr OS ar gyfer diwygio Rheoliadau Codi Ffioedd Lloegr gael ei rannu gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU ddechrau mis Rhagfyr. Roedd Rheoliadau 2020 yn ddibynnol ar y rhain ac mae eu diweddarwch wedi golygu bod Rheoliadau Cymru wedi dod i rym lai na 21 o ddiwrnodau wedi iddynt gael eu gwneud er mwyn iddynt ddod i effaith erbyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu fan bellaf.*
>
> *"Mae peidio â glynu wrth y confensiwn 21 o ddiwrnodau yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 31 Rhagfyr, diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu er mwyn sicrhau bod y Prif Reoliadau yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE mewn sefyllfa Dim Cytundeb. Mae peidio â glynu at y rheol 21 o ddiwrnodau yn angenrheidiol felly, a gellir ei gyfiawnhau yn yr achos hwn."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Rheoliad 2(2)(h) yn mewnosod diffiniad newydd ar gyfer "relevant services", sy'n cyfeirio at ddarpariaethau yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Un o'r gwasanaethau yw "primary ophthalmic services provided under Part 6" o Ddeddf 2006, er bod Deddf 2006 yn defnyddio'r diffiniad "general ophthalmic services". Gofynnir am ymateb gan y Llywodraeth.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Phwyntiau Technegol 1 a 2 yn ogystal â Phwynt Rhinweddau 4.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Government Response:**

The National Health Service (Charges to Overseas Visitors) (Amendment) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020

**Technical Scrutiny point 1:**

**Response:**

The Welsh Government notes the technical scrutiny point.

**Technical Scrutiny point 2:**

**Response:**

The Welsh Government notes the technical scrutiny point raised and will correct this at the earliest possible opportunity.

**Merits point 4:**

**Response:**

The Welsh Government notes the point and will correct this at the earliest possible opportunity.

**Ymateb y Llywodraeth:**

Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2020

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi’r pwynt craffu technegol.

**Pwynt Craffu Technegol 2:**

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi’r pwynt craffu technegol a godwyd a bydd yn cywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 4:**

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a bydd yn cywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

# SL(5)723 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y Rheoliadau Cyfyngiadau).

Mae cyngor a gafwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad cymunedol amrywiolyn newydd o'r coronafeirws yn yr Ariannin; Brasil; Bolivia; Chile; Colombia; Ecuador; Guiana Ffrengig; Guyana; Gweriniaeth Cabo Verde; Gweriniaeth Panamá; Paraguay; Periw; Portiwgal; Suriname; Uruguay; a Venezuela wedi cynyddu.

O ran y gwledydd a'r tiriogaethau hyn, mae'r Rheoliadau yn:

- diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n rhestru'r gwledydd hynny a'r tiriogaethau hynny sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol yn rhinwedd rheoliadau 12E a 12F o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;
- diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau er mwyn gosod gofynion ynysu llymach ar bobl sydd wedi bod mewn un o'r gwledydd hynny a'r tiriogaethau hynny o fewn y cyfnod o 10 niwrnod cyn 4.00am ar 15 Ionawr 2021 ac ar unrhyw un ar yr un aelwyd â phobl o'r fath;
- cywiro testun Cymraeg paragraff 48 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau Cyfyngiadau i egluro y caniateir i gartrefi arddangos aros ar agor mewn ardaloedd Lefel Rhybudd 4 – pwynt a godwyd mewn adroddiad blaenorol gan y Pwyllgor.

Cafwyd cyngor hefyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws yn Aruba, ynysoedd Açores, Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Chile, Madeira a Qatar wedi cynyddu.

O ran y gwledydd hyn a'r tiriogaethau hyn, mae'r Rheoliadau yn:

- eu hepgor o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt sydd wedi eu cynnwys o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;
- gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn eu statws.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt technegol a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Daeth y Rheoliadau i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Nodwn yr hysbysiad a ddarparwyd gan Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd ar 14 Ionawr 2021, sy'n nodi'r canlynol:

> *"Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau yma o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn rhannol am 4.00am ar 15 Ionawr 2021 gyda'r darpariaethau sy'n weddill yn dod i rym am 4.00am ar 16 Ionawr 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.*
>
> *"Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym yn rhannol cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Ystyrir bod hyn yn ymateb angenrheidiol i'r newyddion bod amrywiolyn newydd o Covid-19 wedi'i ganfod yn gyntaf ym Mrasil, sy'n cynyddu'r risg a achosir gan deithwyr i Gymru, a hefyd yn sicrhau y gellir cynnal ymagwedd pedair gwlad ar deithio rhyngwladol."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau yn ogystal â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Er nad oes cyfeiriad penodol at y Rheoliadau Cyfyngiadau yn y paragraff hwn, rydym yn cydnabod, fel gyda'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ei bod yn annhebygol y bydd y Rheoliadau'n newid materion o ran hawliau dynol o dan y Rheoliadau Cyfyngiadau. Byddai'n cynorthwyo'r Pwyllgor pe bai modd egluro'r sefyllfa mewn perthynas â'r Rheoliadau Cyfyngiadau.

At hynny, mae adran 5(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn nodi nad yw Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn rhan o gyfraith ddomestig ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (23:00 ar 31 Rhagfyr 2020) neu wedi hynny. O'r herwydd, byddai darparu esboniad am y cyfeiriad at y Siarter yn y Memorandwm Esboniadol yn cynorthwyo'r Pwyllgor.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ail bwynt rhinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Government Response:** ***The Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (No. 2) (Wales) Regulations 2021***

**Merit Scrutiny point 2:**

**Response:**

Although there is no express reference to the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 (the Restrictions Regulations) within the paragraph of the Explanatory Memorandum referred to by the Committee, we confirm that, as with the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020, these amending Regulations do not to change the engagement of human rights issues under the Restrictions Regulations.

The reference in the Explanatory Memorandum to the European Charter of Fundamental Rights is incorrect, and was intended to refer to the European Convention on Human Rights. The Government will ensure that any references to the European Convention on Human Rights are correct in the explanatory memoranda to any further amendment regulations.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021***

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:**

**Ymateb:**

Er nad oes cyfeiriad penodol at Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y Rheoliadau Cyfyngiadau) yn y paragraff o'r Memorandwm Esboniadol y cyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor, rydym yn cadarnhau, fel yn achos Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020, nad yw'r Rheoliadau diwygio hyn yn newid y ffordd y mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau yn ymwneud â materion hawliau dynol.

Mae'r cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol at Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn anghywir, a bwriadwyd iddo gyfeirio at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gywir yn y memoranda esboniadol i unrhyw reoliadau diwygio pellach.

Eitem 4.4

# SL(5)725 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn gosod gofynion ar bobl sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Hyd yma, ni fu'n ofynnol i bersonau a oedd yn dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn dileu'r holl wledydd a thiriogaethau esempt a restrir yn Atodlen 3.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn:

- Diwygio Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy ddileu rhai categorïau o weithwyr sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd rhag gorfod darparu gwybodaeth teithwyr ac ynysu;
- Diwygio rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy ddileu rhai eithriadau i'r gofyniad i ynysu.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 16 Ionawr 2021.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod a dod â hwy i rym cyn iddynt gael eu gosod, yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd; a pharhau â'r ymagwedd pedair gwlad tuag at deithio rhyngwladol, o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr* achos hwn."

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

Mae adran 5(5) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn nodi nad yw'r Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop ("y Siarter") yn rhan o gyfraith ddomestig ar, neu ar ôl, diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (sef 23:00 ar 31 Rhagfyr 2020). A all Llywodraeth Cymru roi esboniad pam y cyfeirir at y Siarter yn y Memorandwm Esboniadol?

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran yr ail bwynt adrodd ar rinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Government Response:** ***The Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2021***

**Merit Scrutiny point 2:**

**Response:**

The reference in the Explanatory Memorandum to the European Charter of Fundamental Rights is incorrect, and was intended to refer to the European Convention on Human Rights. The Government will ensure that any references to the European Convention on Human Rights are correct in the explanatory memoranda to any further amendment regulations.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021***

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:**

**Ymateb:**

Mae'r cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol at Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn anghywir, a bwriadwyd iddo gyfeirio at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gywir yn y memoranda esboniadol i unrhyw reoliadau diwygio pellach.

# SL(5)726 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Cyfyngiadau") er mwyn –

- ei gwneud yn ofynnol i bob person sy'n ddarostyngedig i'r rhwymedigaeth yn rheoliad 16 i gymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn ei fangre gynnal asesiad penodol o'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre honno ac ymgynghori ar hynny;
- gwneud darpariaeth benodol ynghylch y mesurau y mae rhaid eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoedd manwerthu;
- gwneud darpariaeth sy'n gosod dyletswyddau ar berchnogion ysgolion a sefydliadau addysg bellach i atal disgyblion neu fyfyrwyr rhag mynd i'w mangreoedd, yn ddarostyngedig i rai eithriadau cyfyngedig;
- gwneud newidiadau canlyniadol a mân newidiadau eraill i sicrhau cysondeb â'r darpariaethau newydd.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 i'w wneud yn ofynnol i awdurdod lleol, wrth benderfynu pa un ai i roi cyfarwyddyd digwyddiad o dan y Rheoliadau hynny, roi sylw i a all y digwyddiad arwain at bobl yn ymgynnull yn groes i'r Atodlen berthnasol i'r Rheoliadau Cyfyngiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu deddfiadau sy'n ymwneud â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) –** ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae Rheoliad 2(b) yn mewnosod paragraff (4) newydd yn rheoliad 16 o'r Rheoliadau Cyfyngiadau. Mae'r paragraff 4(a) newydd yn darparu fel a ganlyn:

> "*mae rheoliad 3 o Reoliadau 1999 i'w ddarllen fel pe bai'r geiriau "by regulations 16, 17 and 17A of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020" wedi eu rhoi yn lle "by or under the relevant statutory provisions and by Part II of the Fire Precautions (Workplace) Regulations 1997",* ***yn y ddau le y maent yn digwydd****...*" [***ychwanegwyd y pwyslais***]

Fodd bynnag, mae rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 ("Rheoliadau 1999") yn cynnwys y geiriad penodedig mewn *un* lle yn unig (ym mharagraff (1)). Nid yw'r achlysur arall lle cwyd "*by or under the relevant statutory provisions*" (ym mharagraff (2)) yn cynnwys y cyfeiriad at Ran II o Reoliadau Rhagofalon Tân (Gweithle) 1997.

Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw'r paragraff (4)(a) newydd yn cyflawni (yr hyn yr ydym yn tybio sydd) yr effaith a fwriadwyd, oherwydd dim ond y geiriad yn rheoliad 3(1) o Reoliadau 1999 (h.y. yr achlysur "cyntaf") sy'n darllen fel petai'n cyfeirio at y darpariaethau perthnasol yn y Rheoliadau Cyfyngiadau.

Nid yw rheoliad 3(2) o Reoliadau 1999 (h.y. yr hyn a ystyrir yn wallus fel yr "ail" achlysur iddo godi) yn cael ei ddal gan y ddarpariaeth ym mharagraff (4)(a) gan nad yw'n cynnwys y geiriad penodedig yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, ni chaiff ei ddarllen fel pe bai'n cyfeirio at y darpariaethau perthnasol yn y Rheoliadau Cyfyngiadau.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu bod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.*
>
> *Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cyffwrdd ag Erthygl 2 o'r Protocol Cyntaf (hawl i addysg). Er gwaethaf cau mangreoedd ysgolion i rai dysgwyr, mae ysgolion a gynhelir yn parhau o dan eu dyletswyddau arferol, ond mae'r ddyletswydd i gyflwyno'r*

*cwricwlwm wedi'i haddasu i ddyletswydd i ddefnyddio ymdrechion rhesymol i gyflwyno'r cwricwlwm (gan ddefnyddio hysbysiad o dan Atodlen 17 i Ddeddf Coronafeirws 2020).*

*Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae gweithredu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan prif Reoliadau yn ymateb cymesur i ledaeniad cynyddol y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

Mae adran 5(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn nodi nad yw'r Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd ("y Siarter") yn rhan o gyfraith ddomestig ar, neu ar ôl, diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (23:00 ar 31 Rhagfyr 2020). A all Llywodraeth Cymru roi esboniad pam y cyfeirir at y Siarter yn y Memorandwm Esboniadol?

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*

*Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y Fforwm Iechyd a Diogelwch i ofyn am eu barn ar y cynnig hwn ar gyfer Asesiad Covid penodol. Roedd hyn yn cynnwys yr undebau llafur canlynol; TUC Cymru, USDAW, UNITE, y GBM ac Unite a'r sefydliadau busnes canlynol: CBI, Ffederasiwn y Busnesau Bach a Siambrau Cymru. Yn ogystal, ceisiwyd barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.*

*Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cyfarfod â chynrychiolwyr manwerthwyr, gan gynnwys archfarchnadoedd a manwerthwyr 'cymysg' eraill, i drafod eu rôl yn ystod y pandemig. Yn gyffredinol, roeddent yn croesawu'r arferion da presennol gan nifer o fangreoedd a'r ffaith fod cydymffurfiaeth â'r canllawiau'n cael ei 'ffurfioli' drwy ei gynnwys yn y prif Reoliadau.*

*Wrth benderfynu ar yr angen am y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n ymwneud â chau mangreoedd ysgolion a sefydliadau addysg bellach, a manylion y cyfyngiadau a'r gofynion hynny, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfres o drafodaethau brys gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol ac ysgolion.*

*Gwnaeth y Gweinidog Addysg ddatganiad ysgrifenedig ar y mater hwn ar 4 Ionawr 2021."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn, er na chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, bod Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu fel a ganlyn:

> "*Er ei bod yn anochel y bydd effeithiau ar hawliau plant ac, yn benodol, ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, bydd rhywfaint o gyfle i liniaru'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn enwedig i'r dysgwyr mwyaf agored i niwed drwy ganiatáu iddynt gael mynediad*
> *i fangre ysgol neu goleg, ond ni fydd yn bosibl ymdrin â'r holl effeithiau anghymesur a negyddol.* Mae'r effeithiau negyddol hyn yn parhau i gael eu goddef ar sail y risg i iechyd y cyhoedd. Bydd copïau o'r asesiadau hyn yn cael eu cyhoeddi
> ar wefan LLYW.cymru:
>
> *https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws*."

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol a'r pwynt adrodd rhinweddau cyntaf.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 5) (CYMRU) (DIWYGIO) 2021**

**Pwynt craffu technegol 1:** *gwaith drafftio diffygiol yn rheoliad newydd 16(4)(a) o'r prif Reoliadau*

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am gael gwybod am y mater. Dylai'r geiriau "and by Part II of the Fire Precautions (Workplace) Regulations 1997" gael eu hepgor o destun rheoliad 16(4)(a) o'r prif Reoliadau. Eir i'r afael â'r gwall ar y cyfle cyntaf posibl.

**Pwynt craffu ar rinweddau 1:** *cyfeiriad anghywir at Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn y Memorandwm Esboniadol*

Mae'r cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol at Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn anghywir, a bwriadwyd iddo gyfeirio at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gywir yn y memoranda esboniadol i unrhyw reoliadau diwygio pellach.

# SL(5)727 - Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021

## Cefndir a Diben

Paratowyd y Cod hwn gan y Comisiwn Etholiadol i roi canllawiau ar yr hyn sy'n dod o fewn Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen 7 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (‘Gorchymyn 2007’) a’r hyn nad yw’n dod o fewn iddynt.

Mae'r Rhannau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'dreuliau etholiad' ac yn enwedig felly i ba dreuliau y mae'n ofynnol i ymgeisydd roi gwybod amdanynt. Mae Rhan 1 o Atodlen 7 yn rhestru’r materion y mae unrhyw dreuliau at ddibenion ethol yr ymgeisydd yn cyfrif mewn perthynas â nhw fel ‘treuliau etholiad’. Mae Rhan 2 yn rhestru’r eithriadau.

Mae'r Cod hefyd yn rhoi canllawiau ar yr achosion neu’r amgylchiadau lle mae’n rhaid barnu, neu lle mae’n rhaid peidio â barnu, bod treuliau wedi’u hachosi ‘at ddibenion ethol ymgeisydd’, fel y cyfeirir atynt yn erthygl 63 o Orchymyn 2007.

## Gweithdrefn

Drafft negyddol. Oni bai bod y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'w osod, caiff y Cod Ymarfer ei ddwyn i rym drwy orchymyn diwrnod penodedig a wneir gan Weinidogion Cymru, ac a gyhoeddir gan y Comisiwn Etholiadol.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

1. Mae paragraffau 1.18 i 1.20 o'r Cod yn nodi sut y cyfrifir gwariant tybiannol at ddibenion treuliau etholiad. Ar ddiwedd paragraff 1.20 nodir, "Mae’r rheolau ar roddion yn gymwys i’r rhodd gysylltiedig hefyd." Ni chyfeirir at beth yw'r rheolau ar roddion na ble y gellir dod o hyd iddynt. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rheolau ar roddion y tu allan i gwmpas y Cod, ond er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n defnyddio'r Cod i gydymffurfio â'u holl rwymedigaethau dylid cyfeirio at ble y gellir dod o hyd i'r rheolau ar roddion.

2. Mae'r Cod yn nodi'r gofynion o ran datgan treuliau. Mae paragraff 1.23 yn nodi, o dan Erthygl 54(3) o Orchymyn 2007, y byddai ymgeisydd ar restr ranbarthol yn euog o arfer llwgr os yw'n gwneud datganiad ffug yn fwriadol. Fodd bynnag, nid yw'r Cod yn cyfeirio o gwbl at Erthygl 53(5) o Orchymyn 2007 sy’n darparu, yn yr un modd, y byddai ymgeisydd etholaethol neu ei asiant yn euog o arfer llwgr os yw’n gwneud

datganiad ffug yn fwriadol. Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn hanfodol sicrhau dull gweithredu cyson a darparu'r holl wybodaeth berthnasol yng nghyd-destun Codau sydd â grym statudol fel y Cod hwn, ac felly byddai'n croesawu esboniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pam na chyfeirir at Erthygl 53(5).

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Ionawr 2021**

# Cod Ymarfer
# Treuliau Etholiad Ymgeiswyr
# (Etholiadau'r Senedd) 2021

**Mae’r Cod hwn:**

- **i’w adnabod fel Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau’r Senedd) 2021**
- **yn dod i rym ar [ ]**

# RHAGYMADRODD

## Y cefndir

1.1 Cafodd y Cod Ymarfer hwn ar dreuliau etholiad ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd ei baratoi gan y Comisiwn Etholiadol ar ôl ymgynghori â'r personau a'r cyrff sydd â buddiant yn hyn o beth, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd.

## Y pŵer i ddyroddi'r Cod hwn

1.2 Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi'i gymeradwyo gan y Senedd ac mae wedi'i ddyroddi gan Weinidogion Cymru o dan Atodlen 7, paragraff 14[1] o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ('Gorchymyn 2007').

## Diben y Cod hwn

1.3 Mae'r Cod hwn yn rhoi canllawiau ynghylch:

- Yr hyn sy'n dod o fewn Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007 a'r hyn nad yw'n dod o'u mewn. Mae'r Rhannau hynny yn berthnasol i'r diffiniad o 'treuliau etholiad' ac yn enwedig felly i ba dreuliau y mae'n ofynnol i ymgeisydd roi gwybod amdanynt
- Mae Rhan 1 o Atodlen 7 yn rhestru'r materion y mae unrhyw dreuliau at ddibenion ethol yr ymgeisydd yn cyfrif mewn perthynas â nhw fel 'treuliau etholiad'. Mae Rhan 2 yn rhestru'r eithriadau
- Yr achosion neu'r amgylchiadau lle mae'n rhaid barnu, neu lle mae'n rhaid peidio â barnu, bod treuliau wedi'u hachosi 'at ddibenion ethol ymgeisydd'. Mae'r Cod yn ychwanegu at y diffiniad o'r ymadrodd hwnnw yn erthygl 63 o Orchymyn 2007.

## Pa etholiadau sy'n dod o dan y Cod hwn?

1.4 Mae'r Cod hwn yn gymwys i etholiadau i'r Senedd.

## Y Cod hwn a chanllawiau eraill a gyhoeddir gan y Comisiwn

1.5 Canllaw statudol yw'r Cod hwn. Mae'r Cod hwn yn wahanol i ganllawiau eraill y mae'r Comisiwn yn eu cyhoeddi am ei fod wedi'i gymeradwyo gan y Senedd.

---

[1] Wedi ei osod gan Erthygl 55 Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

1.6 Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau anstatudol ar y rheolau ar gyfer etholiadau.

1.7 Mae'r gyfraith ar wariant ymgeiswyr wedi'i nodi yng Ngorchymyn 2007. Mae trosolwg o'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwariant ymgeiswyr wedi'i nodi isod i roi cyd-destun y Cod hwn.

1.8 Dylech gyfeirio at ein canllawiau i gael gwybodaeth benodol ynghylch y rheolau i bob etholiad. Mae'r canllawiau diweddaraf ynghylch pa etholiadau sy'n cael eu cynnal a pha reolau sy'n gymwys bob amser ar gael ar ein gwefan yn y cyfnod cyn etholiad.

## Beth yw canlyniadau torri'r Cod hwn?

1.9 Pan nad yw ymgeisydd neu asiant yn dilyn y Cod hwn, maent yn debygol o fod yn torri'r gofynion statudol ynglŷn â threuliau etholiad. Gallai hyn arwain at erlyniad am arfer llwgr a/neu anghyfreithlon o dan erthyglau 120 a/neu 121 o Orchymyn 2007 h.y. dirwy ac, o ran arfer llwgr, carchar o bosibl.

1.10 Pan ddyfernir bod ymgeisydd neu asiant yn bersonol euog o arfer llwgr, maent yn cael eu gwahardd rhag dal swydd etholedig am gyfnod o bum mlynedd. Yn achos arfer anghyfreithlon, maent yn cael eu gwahardd am dair blynedd. Gall etholiad yr ymgeisydd fod yn ddi-rym.

## Fframwaith cyfreithiol Gorchymyn 2007 ynghylch gwariant ymgeiswyr

**Treuliau etholiad: Erthygl 63**

1.11 Mae erthygl 63 yn diffinio treuliau etholiad fel hyn:

*(1) In this Part "election expenses", in relation to a constituency or individual candidate, means (subject to paragraph (3) and article 64) any expenses incurred at any time in respect of any matter specified in Part 1 of Schedule 7 which is used for the purposes of the candidate's election after the date when he becomes a candidate at the election.*

*(2) No election expenses are to be regarded as incurred by virtue of paragraph (1) or article 64 in respect of any matter specified in Part 2 of Schedule 7.*

*(3) In this article and in article 64, "for the purposes of the candidate's election" means with a view to, or otherwise in connection with, promoting or procuring the candidate's election at the election.*

*(4) For the purposes of this Part, election expenses are incurred by or on behalf of a candidate at an Assembly election if they are incurred—*

*(a) by the candidate or his election agent; or*

*(b) by any person authorised by the candidate or his election agent to incur the expenses.*

*(5) In this Part, any reference to election expenses incurred by or on behalf of a candidate at an Assembly election includes expenses—*

*(a) which are incurred as mentioned in paragraph (1) before the date when he becomes a candidate at the election but*

*(b) which by virtue of that paragraph fall to be regarded as election expenses.*

*(6) In this Part and in Part 4, any reference (in whatever terms) to promoting or procuring a candidate's election at an election includes doing so by prejudicing the electoral prospects of another candidate or registered political party at the election.*

*(7) Schedule 7 has effect.*

**Treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd a chyfieithu**

1.12 Mae Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi'u 'heithrio' rhag bod yn 'dreuliau etholiad' o fewn ystyr erthygl 63.

1.13 Mae Atodlen 7, paragraff 13A[2], yn eithrio unrhyw dreuliau a achosir mewn perthynas ag unrhyw fater y mae'n rhesymol ei briodoli i anabledd yr ymgeisydd.

1.14 Mae Atodlen 7, paragraff 13B[3], yn eithrio unrhyw dreuliau a achosir mewn perthynas â chyfieithu unrhyw beth o'r Gymraeg i'r Saesneg neu o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o ganlyniad i hynny.

**Terfynau gwario a chyfnodau ymgyrchu**

1.15 Mae'r swm a all gael ei wario ar dreuliau etholiad ymgeisydd wedi'i gyfyngu gan Orchymyn 2007. Mae terfyn gwario yn gymwys mewn perthynas â chyfnod penodol, y cyfeirir ato'n aml fel 'cyfnod a reoleiddir'.

*Cyfnod a reoleiddir*

1.16 Yn achos etholiadau i'r Senedd, nid yw'r cyfnod a reoleiddir wedi ei ddiffinio'n benodol; yn hytrach, mae'n deillio o erthygl 63(1) o Orchymyn 2007. Mae'n dechrau ar y diwrnod ar ôl i berson ddod yn ymgeisydd yn swyddogol ac mae'n dod i ben ar y diwrnod pleidleisio (diwedd y pleidleisio) – tua phedair wythnos.

---

[2 & 3] Wedi ei osod gan Erthygl 3 Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Hepgor Treuliau Etholiadau) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Asiantau

1.17 Mae'n rhaid i ymgeiswyr naill ai penodi asiant i oruchwylio'u gwariant neu weithredu fel eu hasiant nhw eu hunain. Mae gan yr asiant gyfrifoldebau dros achosi treuliau etholiad yr ymgeisydd a'u talu – gweler erthyglau 46 a 43 o Orchymyn 2007 yn y drefn honno.

## Gwariant tybiannol

1.18 Mae 'gwariant tybiannol' ar dreuliau etholiad yn cyfrif tuag at derfynau gwario'r ymgeisydd. Er nad yw wedi ei ddiffinio'n benodol yng Ngorchymyn 2007, mae gwariant tybiannol yn codi o dan erthygl 64 pan fydd eiddo, nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau:

- yn cael eu trosglwyddo neu eu darparu am ddim neu am ddisgownt o fwy na 10 y cant i'w defnyddio gan yr ymgeisydd neu er budd yr ymgeisydd,
- yn cael eu defnyddio gan yr ymgeisydd neu ar ran yr ymgeisydd, ac
- os oes treuliau wedi'u hachosi gan yr ymgeisydd neu ar ran yr ymgeisydd ynglŷn â'r defnydd hwnnw, pan fyddent wedi bod yn dreuliau etholiad – hynny yw o fewn y categorïau a restrir yn Rhan 1 a heb fod wedi'u heithrio gan Ran 2 o Atodlen 7.

1.19 Pan fo pob un o'r tri uchod wedi'u bodloni, mae 'swm priodol' yn cael ei drin fel treuliau etholiad a achoswyd gan yr ymgeisydd os yw'n fwy na £50. Y swm priodol yw'r gyfran y mae'n rhesymol ei phriodoli i'r defnydd ar yr eitem, o naill ai:

- ei gwerth ar y farchnad (pan gaiff ei throsglwyddo'n ddi-dâl), neu
- werth y disgownt (pan fo rhywfaint o gost yr eitem wedi'i achosi mewn gwirionedd gan yr ymgeisydd neu ar ran yr ymgeisydd)

1.20 Os yw'r eiddo, y nwyddau, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau dan sylw wedi'u defnyddio gan yr ymgeisydd neu ar ei ran, mae'r gwariant tybiannol hwn i'w ddatgan fel treuliau etholiad yn ffurflen yr ymgeisydd hyd yn oed os nad yw'r eitemau a ddarparwyd wedi'u hawdurdodi gan yr ymgeisydd, gan asiant yr ymgeisydd neu gan rywun sydd wedi'i awdurdodi gan y naill neu'r llall neu'r ddau ohonynt: *R v Mackinlay and others* [2018] UKSC 42. Mae'r rheolau ar roddion yn gymwys i'r rhodd gysylltiedig hefyd.

## Rhoi gwybod

1.21 Mae erthygl 52 yn ei gwneud yn ofynnol i asiant ymgeisydd etholaeth neu ymgeisydd rhanbarthol unigol gyflwyno ffurflen treuliau etholiad. Mae erthygl 53 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiant a'r ymgeisydd wneud datganiad yr un ynghylch cywirdeb y ffurflen.

1.22 Mae erthygl 54 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd ar restr ranbarthol plaid gofrestredig wneud datganiad ynghylch treuliau etholiad.

1.23 O dan erthygl 54(3), mae person yn euog o arfer llwgr os ydynt yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol.

# Diffiniadau

2.1 Yn y Cod hwn mae'r diffiniadau a ganlyn yn gymwys:

Ystyr '**a ddefnyddir mewn etholiad**' yw defnyddio at ddibenion ethol yr ymgeisydd fel y'i diffinnir yn erthygl 63 o Orchymyn 2007 wedi'i hategu gan y Cod hwn.

Ystyr '**asiant etholiad**' yw'r person a enwir ar ran ymgeisydd yn unol ag erthygl 37 o Orchymyn 2007.

Mae i '**cost**' ei ystyr gyffredin o draul eitem neu draul sy'n gysylltiedig ag eitem. Mae'n cynnwys y *'swm priodol'* sydd i'w drin fel pe bai wedi'i achosi gan yr ymgeisydd o dan y rheolau ar wariant tybiannol.

Ystyr '**cyfnod a reoleiddir**' yw'r cyfnod pan fo'r rheolau gwariant yn gymwys i ymgeiswyr mewn etholiad Senedd Cymru.

Ystyr '**Deddf 1983'** yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Ystyr '**Deddf 2006'** yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Ystyr '**eitem'** yw rhywbeth y gellid gwario arno. Mae'n cynnwys gwasanaethau a gweithgareddau yn ogystal â phethau corfforol.

Ystyr '**ffurflen'** neu '**ffurflen gwariant**' yw ffurflen ynglŷn â threuliau etholiad ymgeisydd fel sy'n ofynnol o dan erthygl 52 o Orchymyn 2007.

Ystyr **'Gorchymyn 2007'** yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007.

Ystyr '**gwariant tybiannol**', er nad yw wedi ei ddiffinio'n benodol yng Ngorchymyn 2007, yw treuliau etholiad a drinnir fel pe baent wedi'u hachosi pan gaiff eiddo, nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau eu darparu am ddim neu am ddisgownt a phan ddefnyddir y rheiny gan yr ymgeisydd neu ar ran yr ymgeisydd o dan erthygl 64 o Orchymyn 2007.

Ystyr '**plaid wleidyddol**' yw plaid sydd wedi'i chofrestru o dan Ran II o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Ystyr **'rhanbarth etholiadol'** yw ardal a bennir yn unol ag adran 2(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ceir pum rhanbarth etholiadol yng Nghymru.

Ystyr **'rhestr plaid'** yw rhestr o ddim mwy na deuddeg ymgeisydd plaid (ond gall fod yn rhestr o un ymgeisydd yn unig) ar gyfer un o ranbarthau etholiadol y Senedd.

Ystyr **'swm priodol'** yw swm o dreuliau etholiad a bennir yn unol ag erthygl 64 o Orchymyn 2007.

Mae '**terfyn gwario**' yn cyfeirio at y swm mwyaf o arian y caniateir iddo gael ei achosi gan ymgeisydd o dan erthygl 47 o Orchymyn 2007.

Mae i **‘treuliau etholiad’** yr ystyr a nodir yn erthygl 63 o Orchymyn 2007.

Diffinnir **'treuliau personol'** yr ymgeisydd yn rhannol yn erthygl 84 o Orchymyn 2007. Rhaid rhoi gwybod am dreuliau personol ymgeisydd yn ffurflen gwariant yr ymgeisydd ond nid ydynt yn cyfrif tuag at y terfyn gwario. Nid yw'r Cod hwn yn cynnig canllawiau ar yr hyn sy'n dreuliau personol neu’r hyn nad yw’n dreuliau personol.

Ystyr **'ymgeisydd’** yw ymgeisydd mewn etholiad etholaeth i’r Senedd (gan gynnwys ymgeiswyr deuol annibynnol o ran etholiad etholaeth i’r Senedd ac ymgeiswyr etholaeth annibynnol) ac ymgeisydd rhanbarthol annibynnol.

Ystyr **'ymgeisydd deuol'** yw ymgeisydd sy'n sefyll etholiad mewn etholiad etholaeth i’r Senedd ac ar restr plaid mewn etholiad rhanbarthol i’r Senedd.

Ystyr **'ymgeisydd deuol annibynnol'** yw ymgeisydd unigol sy’n sefyll etholiad mewn etholiad etholaeth i’r Senedd ac mewn etholiad rhanbarthol i’r Senedd.

Ystyr **'ymgeisydd etholaeth’** yw ymgeisydd mewn etholiad etholaeth i’r Senedd.

Ystyr **'ymgeisydd etholaeth annibynnol'** yw ymgeisydd unigol mewn etholiad etholaeth i’r Senedd heblaw ymgeisydd plaid.

Ystyr **'ymgeisydd rhanbarthol annibynnol'** yw ymgeisydd unigol mewn etholiad rhanbarthol i’r Senedd heblaw ar restr plaid.

Ystyr **'ymgeisydd rhestr plaid'** yw ymgeisydd mewn etholiad rhanbarthol i’r Senedd sydd wedi'i gynnwys ar restr plaid.

# Pryd caiff treuliau eu trin fe pe baent wedi'u hachosi at ddibenion ethol ymgeisydd?

3.1 Bernir bod y rhestr o faterion yn Atodlen 7, Rhan 1, o Orchymyn 2007, fel y'i heglurir yn y Cod hwn, wedi'i defnyddio 'at ddibenion ethol ymgeisydd' – ac felly fe fydd treuliau cysylltiedig yn 'dreuliau etholiad' – pryd bynnag y caiff ei defnyddio gyda'r nod o ethol ymgeisydd, neu fel arall mewn cysylltiad â hybu neu sicrhau bod yr ymgeisydd yn cael ei ethol.

3.2 Mae hybu neu sicrhau ethol ymgeisydd yn cynnwys gwneud hynny drwy niweidio rhagolygon etholiadol ymgeisydd arall neu ymgeiswyr eraill sy'n sefyll yn yr etholaeth benodol a/neu'r rhanbarth etholiadol penodol.

3.3 Mae 'treuliau etholiad' yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r ymgeisydd. Rhaid rhoi gwybod am gost pob eitem a ddefnyddir yn y cyfnod a reoleiddir yn ffurflen yr ymgeisydd fel y bo'n briodol.

3.4 Mae'r enghreifftiau isod yn berthnasol i wariant a awdurdodir gan yr ymgeisydd neu'r asiant ac i wariant tybiannol.

## Priodoli i ymgeiswyr

3.5 Mae etholiadau i'r Senedd yn cael eu cynnal gan ddefnyddio'r System Aelodau Ychwanegol. Mae'r pleidleiswyr yn cael dau bapur pleidleisio a gallant fwrw dwy bleidlais, un i ethol eu hymgeisydd etholaeth, ac un i bleidleisio dros blaid wleidyddol mewn rhanbarth etholiadol.

3.6 Oherwydd natur yr etholiadau hyn, mae rhai eitemau nid yn unig yn annog pleidleiswyr i bleidleisio dros ymgeisydd etholaeth, ond maent hefyd yn annog pleidleiswyr i bleidleisio dros blaid wleidyddol yn yr etholiadau rhanbarthol gan ddefnyddio'u hail bleidlais.

3.7 Ceir achosion ac amgylchiadau mewn etholiad i'r Senedd lle bernir bod rhywbeth yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion etholiad yr ymgeisydd mewn etholaeth.

3.8 Er enghraifft, pryd bynnag y bydd yr eitem:

- yn enwi'r ymgeisydd sy'n sefyll yn yr etholaeth, neu fod modd adnabod yr ymgeisydd o'r eitem ac nad yw'r eitem yn hybu ymgeiswyr rhestr y blaid
- yn enwi'r etholaeth y mae'r ymgeisydd yn sefyll ynddi yn benodol ac nad yw'n hybu'r rhanbarth etholiadol y mae'r etholaeth ynddo

a bod yr eitem, yn y naill achos neu'r llall, wedi'i hanelu at bleidleiswyr yn yr etholaeth y mae'r ymgeisydd yn sefyll ynddi er mwyn hybu neu sicrhau bod yr ymgeisydd hwnnw'n cael ei ethol.

**Enghreifftiau lle mae cost lawn yr eitem i'w phriodoli'n gyfan gwbl i'r ymgeisydd:**

- Mae ymgeisydd annibynnol yn dosbarthu taflen i bob aelwyd yn yr etholaeth y mae'n sefyll ynddi. Rhaid cynnwys cyfanswm costau cynhyrchu a dosbarthu'r daflen yn ffurflen gwariant yr ymgeisydd.
- Mae ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol yn dosbarthu taflen i bob aelwyd yn yr etholaeth y mae'n sefyll ynddi. Mae'r daflen yn cynnwys bywgraffiad yr ymgeisydd a materion lleol y mae'r ymgeisydd yn pryderu yn eu cylch. Mae logo'r blaid wleidyddol wedi'i gynnwys ond does dim sôn am yr etholiad rhanbarthol na pholisïau cenedlaethol y blaid. Rhaid cynnwys cyfanswm costau cynhyrchu a dosbarthu'r daflen yn ffurflen gwariant yr ymgeisydd.

**Ar y llaw arall**:

- Mae plaid wleidyddol yn cynhyrchu llythyr sy'n nodi polisïau'r blaid ac yn annog pleidleiswyr i bleidleisio dros y blaid. Er bod y llythyr wedi'i gyfeirio at aelwyd yn yr etholaeth, nid yw'r llythyr ei hun yn enwi'r ymgeisydd na'r etholaeth. Nid yw hyn i'w ystyried fel pe bai'n cael ei ddefnyddio at ddibenion ethol yr ymgeisydd. Gan hynny does dim angen i unrhyw wariant ymddangos yn ffurflen yr ymgeisydd.

3.9 Mae yna achosion ac amgylchiadau mewn etholiad i'r Senedd lle bernir bod rhywbeth yn cael ei ddefnyddio'n rhannol er mwyn ethol ymgeisydd mewn etholaeth.

3.10 Er enghraifft, pryd bynnag y bydd yr eitem:

- yn enwi'r ymgeisydd sy'n sefyll yn yr etholaeth, neu fod modd adnabod yr ymgeisydd o'r eitem, a bod y deunydd hefyd yn hybu ymgeiswyr rhestr y blaid
- yn enwi'r ymgeisydd sy'n sefyll yn yr etholaeth, neu fod modd adnabod yr ymgeisydd o'r eitem, a bod y deunydd yn hybu polisïau'r blaid
- yn enwi'r etholaeth lle mae'r ymgeisydd yn sefyll, a hefyd yn hybu'r blaid yn y rhanbarth etholiadol y mae'r etholaeth ynddo
- yn annog pleidleisiwr i ddefnyddio'i ddwy bleidlais – un dros yr ymgeisydd sy'n sefyll yn yr etholaeth a'r llall dros y blaid ar y rhestr ranbarthol – **neu** lle caiff y pleidleisiwr ei atgoffa i bleidleisio mewn etholiadau etholaeth a rhanbarth

**Enghreifftiau lle mae cost yr eitem i’w phriodoli’n rhannol i'r ymgeisydd:**

- Mae taflen yn cael ei chylchredeg mewn etholaeth. Mae ochr A yn hybu’r ymgeisydd etholaeth (yn enwi’r ymgeisydd a/neu'r etholaeth). Mae ochr B yn hybu ymgeiswyr rhestr y blaid. Rhaid rhannu cost yr eitem rhwng yr ymgeisydd a'r blaid.

- Mae taflen yn cael ei chylchredeg mewn etholaeth. Mae ochr A yn hybu’r ymgeisydd etholaeth (yn enwi'r ymgeisydd a/neu'r etholaeth). Mae ochr B yn sôn am bolisïau cenedlaethol y blaid. Rhaid rhannu cost yr eitem rhwng yr ymgeisydd a'r blaid.

- Mae llythyr yn cael ei gylchredeg mewn etholaeth. Mae’r llythyr oddi wrth aelod blaenllaw o'r blaid. Mae'n sôn am y blaid a'i pholisïau a pham y dylech bleidleisio dros y blaid honno. Ar ddiwedd y llythyr, mae'n gofyn i'r pleidleisiwr bleidleisio dros ymgeisydd mewn etholaeth benodol. Mae’r ymgeisydd etholaeth a/neu'r etholaeth yn cael eu henwi. Rhaid rhannu cost yr eitem rhwng yr ymgeisydd a'r blaid.

- Mae taflen yn cael ei chylchredeg ar draws rhanbarth etholiadol cyfan. Mae ochr A yn hybu ymgeiswyr rhestr y blaid. Mae ochr B yr un daflen yn enwi’r ymgeisydd perthnasol ar restr y blaid sydd hefyd yn sefyll yn yr etholaeth benodol honno (ymgeisydd deuol). Bydd ochr B y daflen yn newid gan ddibynnu ar yr etholaeth lle caiff y taflenni eu dosbarthu, a bydd yn enwi’r ymgeisydd deuol perthnasol yn yr etholaeth honno. Rhaid rhannu cost yr eitem rhwng yr ymgeisydd a'r blaid.

- Mae cerdyn galw yn cael ei gylchredeg mewn etholaeth, gan ofyn i bobl "ddefnyddio'ch dwy bleidlais dros blaid X" ar ddiwrnod yr etholiad. Rhaid rhannu cost yr eitem rhwng yr ymgeisydd a'r blaid.

- Mae plaid yn paratoi ymgyrch ddigidol i'w defnyddio mewn rhanbarth etholiadol yng Nghymru sy'n cynnwys aelod poblogaidd o'r blaid. Mae’r aelod o’r blaid yn sefyll fel ymgeisydd etholaeth yn y rhanbarth etholiadol hwnnw. Mae'r deunydd wedi'i dargedu at bleidleiswyr yn y rhanbarth etholiadol a bydd yn ymddangos yn eu ffrydiau yn y cyfryngau cymdeithasol. Rhaid barnu bod y gyfran o’r ymgyrch a dargedir yn etholaeth yr aelod o’r blaid wedi’i chyhoeddi at ddibenion ei ethol fel ymgeisydd.

Ym mhob un o'r enghreifftiau uchod, os telir am yr eitem gan y blaid a’i bod yn cael ei defnyddio gan yr ymgeisydd neu ar ran yr ymgeisydd, yna rhaid rhannu'r costau rhwng yr ymgeisydd a'r blaid. Rhaid i'r gyfran berthnasol o gost yr eitem ymddangos yn ffurflen yr ymgeisydd fel gwariant tybiannol.

**Ar y llaw arall:**

- Mae plaid yn paratoi ymgyrch ddigidol i'w defnyddio ledled Cymru sy'n cynnwys aelod poblogaidd o'r blaid. Mae’r aelod o’r blaid yn sefyll fel ymgeisydd etholaeth. Nid yw'r deunydd wedi'i dargedu ond fe fydd yn ymddangos os caiff set benodol o eiriau eu teipio mewn injan chwilio. Does

dim modd canfod pa mor aml na pha bryd yr ymddangosodd hyn i bleidleiswyr yn etholaeth yr aelod o'r blaid. Nid yw hyn i'w ystyried fel pe bai'n cael ei ddefnyddio at ddibenion ethol yr aelod fel ymgeisydd. Gan hynny does dim angen i unrhyw wariant ymddangos yn ffurflen yr ymgeisydd.

## Ailddefnyddio eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol

3.11 Rhaid peidio â dosrannu na disgowntio eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd mewn etholiad gan ymgeisydd am eu bod yn cael eu hailddefnyddio mewn etholiad neu etholiadau dilynol neu am y gallent gael eu hailddefnyddio felly. Mae'n rhaid rhoi gwybod am gost lawn eitem sy'n ateb y meini prawf arferol yn y ffurflen yn yr etholiad lle defnyddir yr eitem am y tro cyntaf.

3.12 Mae cost lawn eitemau a fydd yn cael eu hailddefnyddio neu a allai gael eu hailddefnyddio yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant yn yr etholiad cyntaf y defnyddir nhw ynddo.

3.13 O ran cost prynu eitemau:

- y talwyd amdanynt yn llawn (eu perchnogi nid eu llogi)
- a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol
- y rhoddwyd gwybod yn llawn amdanynt yn ffurflen gwariant yr ymgeisydd mewn etholiad blaenorol, ac
- nad ydynt wedi'u newid mewn unrhyw fodd

does dim angen rhoi gwybod am y rhain yn ffurflen gwariant yr un ymgeisydd mewn etholiad dilynol, ac nid ydynt yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant mewn etholiadau dilynol o'r fath. Serch hynny, os caiff eitem ei hailddefnyddio gan ymgeisydd gwahanol mewn etholiad dilynol, byddai hynny'n cael ei drin fel gwariant tybiannol.

3.14 Serch hynny, mae'n rhaid rhoi gwybod yn ffurflen gwariant yr etholiad dilynol am yr holl gostau a achoswyd wrth hwyluso ailddefnyddio eitem mewn etholiad dilynol, gan gynnwys:

- ei glanhau
- ei newid a/neu ychwanegu ati
- ei chynnal a'i chadw
- ei hailddatblygu

pan fo'r eitemau wedi cael eu defnyddio eto.

3.15 Mae'r costau a achoswyd wrth hwyluso'r ailddefnyddio yn cyfrif tuag at y terfyn gwario yn yr etholiad dilynol lle maent yn cael eu hailddefnyddio.

## Eitemau sydd heb eu defnyddio o gwbl

3.16 Ni fernir bod eitemau y talwyd amdanynt, ond sydd heb eu defnyddio mewn etholiad yn dreuliau etholiad a hynny am eu bod heb gael eu defnyddio gyda'r nod o

hybu’r ymgeisydd neu fel arall mewn cysylltiad â hybu’r ymgeisydd neu sicrhau bod yr ymgeisydd yn cael ei ethol. Gan hynny, does dim angen rhoi gwybod amdanynt yn y ffurflen.

## Treuliau a achosir cyn dechrau’r cyfnod a reoleiddir

3.17 Rhaid rhoi gwybod yn y ffurflen am dreuliau a achoswyd cyn dechrau’r cyfnod a reoleiddir, ar eitemau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir. Gan hynny, mae cost eitemau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir ond a brynwyd cyn dechrau’r cyfnod a reoleiddir yn cyfrif tuag at derfyn gwario’r ymgeisydd.

## TAW

3.18 Rhaid cynnwys TAW wrth roi gwybod am dreuliau, lle bo’n gymwys, hyd yn oed os oes modd adennill y TAW.

3.19 Pan fo TAW wedi’i chodi ar eitem, mae swm y TAW yn cyfrif tuag at y terfyn gwario.

# Atodlen 7 i Orchymyn 2007

## Nodiadau cyffredinol

### Nid yw'r Cod hwn yn gynhwysfawr

4.1 Mae'r rhestrau isod o faterion sy'n berthnasol at ddibenion pob categori yn Rhan 1 o Atodlen 7. Gan hynny, mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt mewn ffurflen gwariant os caiff costau eu hachosi ac os cânt eu defnyddio at ddibenion ethol yr ymgeisydd. Mae'r rhestrau yn gynhwysol a heb fod yn gynhwysfawr.

### Gwariant tybiannol

4.2 Mae'r Cod hwn yn gymwys i wariant tybiannol ar ran ymgeisydd yn yr un modd ag y mae'n gymwys i wariant a achosir gan ymgeisydd, oni nodir yn wahanol.

### Costau sydd wedi'u heithrio

4.3 Mae'r adran hon o'r Cod yn egluro Rhan 1 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007. Ni ddylid cymryd dim byd ynddi fel pe bai'n amodi'r rhestr o eithriadau a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007, sydd wedi'i hatgynhyrchu isod.

*7. The payment of any deposit required by rule 10 of Schedule 5.*

*8. The publication of any matter, other than an advertisement, relating to the election in -*

*(a) a newspaper or periodical;*

*(b) a broadcast made by the British Broadcasting Corporation or by Sianel Pedwar Cymru;*

*or*

*(c) a programme included in any service licensed under Part 1 or 3 of the Broadcasting Act 1990 or Part 1 or 2 of the Broadcasting Act 1996.*

*9. The provision of any facilities provided in pursuance of any right conferred on candidates at an election by this Order other than facilities in respect of which expenses fall to be defrayed by virtue of article 69(4).*

*10. The provision by an individual of his own services which he provides voluntarily in his own time and free of charge.*

*11. — (1) Accommodation which is the candidate's sole or main residence.*

*(2) The provision by any other individual of accommodation which is his sole or main residence if the provision is made free of charge.*

*12. — (1) Transport by a means of transport which was acquired by the candidate principally for his own personal use.*

*(2) Transport provided free of charge by any other individual if the means of transport was acquired by him principally for his own personal use.*

*13. — (1) Computing or printing equipment which was acquired by the candidate principally for his own personal use.*

*(2) The provision by any other individual of computing or printing equipment which was acquired by the individual principally for his own personal use if the provision is made free of charge.*

*13A. — (1) Any matter that is reasonably attributable to the candidate's disability, to the extent that the expenses in respect of the matter are reasonably incurred.*

*(2) In this paragraph "disability", has the same meaning as in section 6 of the Equality Act 2010(1).*

*13B. Expenses incurred in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.*

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 1

*Advertising of any nature (whatever the medium used).*

*Expenses in respect of such advertising include agency fees, design costs and other costs in connection with preparing, producing, distributing or otherwise disseminating such advertising or anything incorporating such advertising and intended to be distributed for the purpose of disseminating it.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

5.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir:

- i baratoi deunydd hysbysebu, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu
- i ledaenu deunydd hysbysebu drwy ei ddosbarthu neu fel arall

5.2 Er enghraifft, llogi ffotograffydd a mangre i gynhyrchu delweddau i'w defnyddio mewn deunydd hysbysebu.

**Costau penodol mewn cysylltiad â chynhyrchu neu ledaenu deunydd hysbysebu digidol neu electronig**

5.3 Mae'n cynnwys cost unrhyw feddalwedd o unrhyw fath i'w defnyddio ar unrhyw ddyfais:

- i ddylunio a chynhyrchu deunydd hysbysebu yn fewnol
- i ledaenu deunydd hysbysebu neu hwyluso ei ledaenu

pa un a yw'r deunydd hwnnw'n cael ei ddosbarthu'n ddigidol, yn electronig neu drwy fodd arall.

5.4 Er enghraifft, ffi drwyddedu am raglen feddalwedd i'w defnyddio ar ddyfais.

5.5 Mae'n cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir

- i baratoi deunydd hysbysebu digidol neu electronig, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu
- i ddosbarthu'r deunydd hysbysebu hwnnw neu hwyluso ei ledaenu drwy unrhyw fodd

gan gynnwys unrhyw gost sydd i'w phriodoli i gynyddu gwelededd y cynnwys drwy unrhyw fodd.

5.6 Er enghraifft, prynu safle amlycach ar dudalen mewn injan chwilio.

5.7 Mae'n cynnwys cost paratoi deunydd hysbysebu, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu:

- i gael ei lawrlwytho a'i ddefnyddio gan eraill
- i'w osod ar unrhyw fath o sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol a hybu'r ymgeisydd drwyddynt

5.8 Er enghraifft, costau cynhyrchu deunydd hysbysebu sy'n hybu'r ymgeisydd ac a osodir ar dudalen ar sianel cyfryngau cymdeithasol sy'n annog dilynwyr i'w rannu.

5.9 Mae'n cynnwys cost cyrchu, prynu, datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall:

- sy'n hwyluso dosbarthu neu ledaenu deunydd hysbysebu drwy unrhyw fodd
- sy'n hybu neu'n cynyddu gwelededd deunydd hysbysebu drwy unrhyw fodd

5.10 Er enghraifft, prynu hunaniaethau digidol a ddefnyddir i wneud i ddeunydd ymddangos fel pe bai wedi'i weld ac wedi'i gymeradwyo gan nifer fawr o ddefnyddwyr ar lwyfan cyfryngau cymdeithasol.

5.11 Mae'n cynnwys costau:

- lletya a chynnal gwefan neu ddeunydd electronig/digidol arall sy'n hybu'r ymgeisydd
- dylunio ac adeiladu'r wefan
- cyfran o unrhyw wefan neu ddeunydd a sefydlir i sicrhau cyllid i'r ymgeisydd ond sydd hefyd yn hybu'r ymgeisydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir

**Costau eraill a gynhwysir yn Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 1**

5.12 Mae'n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu am unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth gynhyrchu deunydd hysbysebu.

5.13 Mae'n cynnwys cost:

- papur neu unrhyw gyfrwng arall yr argreffir deunydd hysbysebu arno
- arddangos hysbysebion yn gorfforol mewn unrhyw leoliad, er enghraifft clymau cebl neu lud at godi posteri

5.14 Mae'n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

- offer llungopïo
- offer argraffu

i'w defnyddio yn ymgyrch etholiad yr ymgeisydd, ac eithrio:

- pan sicrhaodd yr ymgeisydd yr offer yn bennaf at ddibenion personol yr ymgeisydd ei hun
- pan fo'r offer wedi'i ddarparu gan unigolyn arall, pan fo'r offer wedi'i sicrhau gan yr unigolyn hwnnw at ei ddibenion personol ei hun a phan nad oes tâl yn cael ei godi ar yr ymgeisydd am ddefnyddio'r offer.

5.15 Pan fo papur, offer llungopïo neu argraffydd yn cael eu prynu neu eu llogi yn bennaf i'w defnyddio yn yr ymgyrch, rhaid rhoi gwybod am y gost lawn.

5.16 Ystyr 'dibenion personol' ym mharagraff 5.14 yw dibenion personol parhaus yr ymgeisydd neu'r unigolyn, nid defnyddio at ddibenion masnachol, na defnyddio at ddibenion eraill megis gan blaid wleidyddol cyn yr etholiad neu ar ei ôl.

5.17 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer arall mewn cysylltiad â'r canlynol:

- Paratoi'r deunydd hysbysebu, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu
- lledaenu'r deunydd hysbysebu drwy ei ddosbarthu neu fel arall

5.18 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â deunydd hysbysebu i'r ymgeisydd a delir neu a ad-delir gan yr ymgeisydd, gan blaid yr ymgeisydd neu gan drydydd parti arall.

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 2

*Unsolicited material addressed to electors (whether addressed to them by name or intended for delivery to households within any particular area).*

*Expenses in respect of such material include design costs and other costs in connection with preparing, producing or distributing such material (including the cost of postage).*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Costau sy'n gysylltiedig â sicrhau gwybodaeth a thargedu neu adnabod pleidleiswyr, gan gynnwys costau cronfeydd data**

6.1 Mae hyn yn cynnwys cost cyrchu, sicrhau, prynu, datblygu neu gynnal:

- meddalwedd TG neu gronfeydd data cysylltiadau
- unrhyw wybodaeth, drwy ba fodd bynnag

a ddefnyddir i hwyluso anfon deunydd digymell at bleidleiswyr.

6.2 Er enghraifft, prynu cyfeiriadau ebost.

6.3 Mae'n cynnwys cost cyrchu, sicrhau neu ddatblygu setiau data, gan gynnwys dadansoddi data i dargedu pleidleiswyr drwy ba fodd bynnag, gan gynnwys cost asiantaethau, sefydliadau neu bobl eraill sy'n nodi grwpiau o bleidleiswyr, drwy ba fodd bynnag.

6.4 Er enghraifft, cost unrhyw asiantaeth a delir i ddadansoddi cynnwys y cyfryngau cymdeithasol i hwyluso targedu pleidleiswyr mewn ardal etholiadol benodol a chost gwaith modelu gan asiantaeth ar sail y dadansoddiad hwnnw.

6.5 Mae'n cynnwys cost unrhyw wasanaethau i adnabod pleidleiswyr sy'n cael eu prynu, eu datblygu neu eu darparu cyn y cyfnod a reoleiddir, ond a ddefnyddir i dargedu pleidleiswyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

6.5 Pan gaiff gwybodaeth neu fynediad i wybodaeth eu sicrhau oddi wrth drydydd parti, gan gynnwys plaid wleidyddol, mae cost fasnachol sicrhau'r wybodaeth honno oddi wrth y trydydd parti yn cael ei chynnwys.

**Costau sy'n gysylltiedig â pharatoi, cynhyrchu neu ddosbarthu deunydd digymell i bleidleiswyr, gan gynnwys drwy ddulliau digidol**

6.7 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau

- offer

a ddefnyddir:

- i baratoi'r deunydd digymell, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu
- i ledaenu'r deunydd digymell drwy ei ddosbarthu neu fel arall, gan gynnwys unrhyw gost sydd i'w phriodoli i gynyddu gwelededd deunydd drwy unrhyw fodd

6.8 Mae'n cynnwys cost cyflenwi deunydd drwy unrhyw fodd gan gynnwys dulliau electronig neu ddosbarthu'r deunydd yn gorfforol, er enghraifft cost amlenni a stampiau neu brynu system at anfon negeseuon ebost.

6.9 Mae'n cynnwys cost cyrchu, datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sy'n hybu neu'n cynyddu gwelededd deunydd digymell ar unrhyw lwyfan. Er enghraifft, os bydd ymgeisydd yn talu datblygwr i greu ap sy'n hwyluso gwaith i dargedu ei ddeunydd ar sianel cyfryngau cymdeithasol.

6.10 Mae'n cynnwys cost goruchwylio a chynnal a chadw pob dull cyfryngau cymdeithasol, dull digidol neu ddull arall o ddosbarthu deunydd digymell. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw pob cyfrif cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys os byddant yn cael eu cynnal gan endid/unigolyn arall.

**Costau eraill a gynhwysir yn Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 2**

6.11 Mae'n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu am unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth gynhyrchu deunydd digymell.

6.12 Mae'n cynnwys cost papur neu unrhyw gyfrwng arall yr argreffir deunydd digymell arno.

6.13 Mae'n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

- offer llungopïo
- offer argraffu

i'w defnyddio yn ymgyrch etholiad yr ymgeisydd, ac eithrio:

- pan sicrhaodd yr ymgeisydd yr offer yn bennaf at ddibenion personol yr ymgeisydd ei hun
- pan fo'r offer wedi'i ddarparu gan unigolyn arall, pan fo'r offer wedi'i sicrhau gan yr unigolyn hwnnw at ei ddibenion personol ei hun a phan nad oes tâl yn cael ei godi ar yr ymgeisydd am ddefnyddio'r offer.

6.14 Ystyr 'dibenion personol' ym mharagraff 6.13 yw dibenion personol parhaus yr ymgeisydd neu'r unigolyn, nid defnyddio at ddibenion masnachol, na defnyddio at ddibenion eraill megis gan blaid wleidyddol cyn yr etholiad neu ar ei ôl.

6.15 Pan fo papur, offer llungopïo neu argraffydd yn cael eu prynu neu eu llogi yn bennaf i'w defnyddio yn yr ymgyrch, rhaid rhoi gwybod am y gost lawn.

6.16 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer arall mewn cysylltiad â'r canlynol:

- paratoi'r deunydd digymell, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu
- lledaenu'r deunydd digymell drwy ei ddosbarthu neu fel arall

6.17 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â deunydd digymell i'r ymgeisydd a delir neu a ad-delir gan yr ymgeisydd, gan blaid yr ymgeisydd neu gan drydydd parti arall.

## Costau sydd wedi'u heithrio o Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 2

6.18 Nid yw'n cynnwys cost postio'r anerchiad etholiadol di-dâl fel yr amlinellir yn erthygl 65 o Orchymyn 2007.

6.19 Nid yw'n cynnwys unrhyw gost sy'n gysylltiedig â sicrhau data fel y'i caniateir o dan unrhyw statud neu reoliad.

6.20 Er enghraifft, mae gan ymgeiswyr hawl i gael copi o'r gofrestr etholiadol drwy reoliad 102 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 3

*Transport (by any means) of persons to any place.*

*Expenses in respect of the transport of such persons include the costs of hiring a means of transport for a particular period.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

7.1 Mae'n cynnwys cost cludiant i'r asiant lle mae'n cael ei had-dalu gan yr ymgeisydd, gan blaid yr ymgeisydd neu gan drydydd parti arall.

**Cludo gwirfoddolwyr ac ymgyrchwyr**

7.2 Mae'n cynnwys cost cludo:

- gwirfoddolwyr
- aelodau o'r blaid, gan gynnwys aelodau staff
- ymgyrchwyr eraill

o gwmpas yr ardal etholiadol, neu yn ôl ac ymlaen i'r ardal etholiadol, gan gynnwys cost:

- tocynnau ar gyfer unrhyw gludiant, gan gynnwys unrhyw ffi archebu
- llogi unrhyw gludiant
- tanwydd a brynir ar gyfer unrhyw gludiant
- parcio ar gyfer unrhyw gludiant

pan fôn nhw wrthi'n ymgyrchu ar ran yr ymgeisydd.

7.3 Mae'n cynnwys cost cludiant y talwyd amdano gan unrhyw unigolyn, plaid wleidyddol neu drydydd parti arall ac sy'n cael ei thalu neu ei had-dalu gan yr ymgeisydd, y blaid wleidyddol neu drydydd parti, lle'r oedd yr unigolion a oedd yn cael eu cludo yn ymgyrchu neu'n ymgymryd â gweithgareddau yn gysylltiedig â'r ymgyrch dros yr ymgeisydd.

**Cludiant i ddigwyddiad**

7.4 Mae'n cynnwys cost cludo mynychwyr i ddigwyddiad sy'n hybu'r ymgeisydd pan gaiff y gost honno ei had-dalu neu ei thalu gan yr ymgeisydd, gan blaid yr ymgeisydd neu gan drydydd parti arall.

**Cludiant sy'n hybu'r ymgeisydd**

7.5 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw gerbyd neu fath o gludiant sy'n arddangos deunydd sy'n hybu'r ymgeisydd, gan gynnwys unrhyw gost sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- dyluniad a gosod y dyluniad ar y cerbyd neu'r math o gludiant
- gyrru neu symud cerbyd o amgylch ardal etholiadol benodol
- ffioedd parcio pan ddefnyddir cerbyd i arddangos deunydd.

## Costau sydd wedi'u heithrio o Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 3

7.6 Nid yw'r costau a ganlyn wedi'u cynnwys ym mharagraff 3:

- pan delir y gost gan yr unigolyn a fu'n defnyddio'r cludiant, pan nad ad-delir y taliad hwnnw, neu
- pan ddarperir cludiant yn rhad ac am ddim gan unrhyw unigolyn arall os cafodd y math o gludiant ei sicrhau gan y person hwnnw yn bennaf at ei ddibenion personol ei hun

7.7 Pan fo cost cludiant yn draul bersonol o fewn ystyr Gorchymyn 2007 i'r ymgeisydd, rhaid i hyn gael ei gofnodi fel traul bersonol yn y ffurflen gwariant ac nid fel traul etholiad o dan Atodlen 7, Rhan 1. Mae 'treuliau personol' yn cynnwys treuliau teithio rhesymol yr ymgeisydd, at ddibenion yr etholiad ac mewn perthynas â'r etholiad.

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 4

*Public meetings (of any kind).*

*Expenses in respect of such meetings include costs incurred in connection with the attendance of persons at such meetings, the hire of premises for the purposes of such meetings or the provision of goods, services or facilities at them.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

8.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir:

- wrth hybu cyfarfod cyhoeddus
- wrth gynnal cyfarfod cyhoeddus i hybu'r ymgeisydd
- wrth ffrydio'n fyw neu ddarlledu cyfarfod cyhoeddus drwy unrhyw fodd.

**Costau eraill a gynhwysir yn Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 4**

8.2 Mae'n cynnwys cost hybu neu hysbysebu'r digwyddiad, drwy unrhyw fodd.

8.3 Mae'n cynnwys cost digwyddiad sy'n cael ei gynnal drwy ddolen o unrhyw fath neu sy'n cael ei ffrydio'n fyw neu ei ddarlledu, pan fo'r digwyddiad hwnnw'n agored i gael ei wylio gan ddefnyddwyr sianel neu lwyfan neu drwy fodd arall.

8.4 Mae'n cynnwys cost darparu unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau yn y digwyddiad, er enghraifft cost llogi seddau.

8.5 Mae'n cynnwys cost prynu unrhyw offer mewn cysylltiad â'r canlynol:

- cynnal cyfarfod cyhoeddus i hybu'r ymgeisydd
- ffrydio'n fyw neu ddarlledu cyfarfod cyhoeddus drwy unrhyw fodd

8.6 Mae'n cynnwys cost llety a threuliau eraill unrhyw fynychwr pan fo'r gost honno'n cael ei had-dalu neu ei thalu gan yr ymgeisydd, gan blaid yr ymgeisydd neu gan drydydd parti arall.

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 5

*The services of an election agent or any other person whose services are engaged in connection with the candidate’s election.*

## Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

**Costau asiant**

9.1 Mae hyn yn cynnwys unrhyw gydnabyddiaeth, gan gynnwys lwfansau, a delir i’r asiant.

**Staff a gyflogir gan blaid wleidyddol**

9.2 Mae’n cynnwys cost unrhyw aelod o staff plaid wleidyddol sy’n darparu gwasanaethau i’r ymgeisydd at ddibenion ethol yr ymgeisydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir, neu sy’n darparu gwasanaethau i’r ymgeisydd at ddibenion ethol yr ymgeisydd cyn yr amser hwnnw sydd wedyn yn cael eu defnyddio yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Enghreifftiau o gostau sy'n gysylltiedig â staff pleidiau gwleidyddol:

- Mae aelod o staff plaid wleidyddol yn treulio’i oriau gwaith cyflogedig yn cydlynu gwirfoddolwyr sy’n ymgyrchu dros ymgeisydd mewn etholaeth benodol. Rhaid barnu bod ei amser gwaith yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ethol yr ymgeisydd. Os yw’n cael ei ddefnyddio gan yr ymgeisydd neu ar ran yr ymgeisydd, yna mae’n rhaid iddo ymddangos yn ffurflen yr ymgeisydd fel gwariant tybiannol.

- Mae aelod o staff plaid wleidyddol yn treulio’i oriau gwaith cyflogedig ar nifer o wahanol weithgareddau ymgyrchu, gan gynnwys hybu’r blaid yn gyffredinol a hybu ymgeisydd penodol. Mae’r gyfran o’i amser gwaith a dreulir yn hybu’r ymgeisydd i'w hystyried fel amser a dreulir at ddibenion ethol yr ymgeisydd hwnnw. Os yw'n cael ei ddefnyddio gan yr ymgeisydd neu ar ran yr ymgeisydd, yna rhaid i'r gyfran honno o gostau talu'r aelod hwnnw o’r staff ymddangos yn ffurflen yr ymgeisydd fel gwariant tybiannol.

**Ar y llaw arall:**

- Mae nifer o ymgeiswyr yn dod i sesiwn briffio ynghylch addewidion maniffesto’r blaid a roddir gan staff cyflogedig y blaid. Gan mai addewidion ym maniffesto’r blaid genedlaethol sydd o dan sylw, rhaid peidio â barnu bod hyn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eu hethol fel ymgeiswyr. <u>Gan hynny, does dim angen i wariant ymddangos yn ffurflenni’r ymgeiswyr.</u>

### Staff sy'n monitro cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau eraill y wasg

9.3 Mae'n cynnwys cost staff sy'n ymwneud â rheoli a monitro sianeli neu lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a sicrhau data i ganiatáu ymgyrchu wedi'i dargedu. Mae hyn yn cynnwys llogi staff i ddadansoddi a didoli'r data a chost staff i fonitro a phostio neu ymateb i unrhyw fath o gyfrif cyfryngau cymdeithasol neu gyfrif arall.

9.4 Mae'n cynnwys cost staff sy'n ymwneud â rheoli gweithgareddau'r wasg o unrhyw fath, gan gynnwys staff sy'n cydgysylltu ag unrhyw fath o weithgareddau'r cyfryngau drwy unrhyw fodd mewn cysylltiad ag ethol yr ymgeisydd, yn rheoli neu'n monitro'r gweithgareddau hynny.

### Unrhyw berson arall y defnyddir ei wasanaethau

9.5 Mae'n cynnwys cost unrhyw berson arall y defnyddir ei wasanaethau mewn cysylltiad ag ethol yr ymgeisydd.

## Costau sydd wedi'u heithrio o Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 5

9.6 Nid yw'n cynnwys cost gwasanaethau asiant neu unrhyw berson arall sy'n wirfoddolwr.

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 6

*Accommodation and administrative costs.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Lle mewn swyddfa ac offer**

10.1 Mae hyn yn cynnwys cost rhentu lle mewn swyddfa, gan gynnwys ardrethi busnes, ar gyfer ymgyrch yr ymgeisydd, boed ar rent newydd ynteu o dan gytundeb rhentu presennol, ac felly bydd gwariant tybiannol yn cael ei achosi pan fo swyddfa o'r fath yn cael ei darparu am ddim neu am ddisgownt gan blaid wleidyddol neu gan drydydd parti.

10.2 Mae'n cynnwys cost lle mewn swyddfa lle mae'r swyddfa honno'n cael ei rhannu. Rhaid gwneud dosraniad a rhaid cynnwys swm sy'n adlewyrchiad rhesymol o'r defnydd gan yr ymgeisydd wrth ymgyrchu yn ffurflen yr ymgeisydd. Bydd y swm hwn yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r ymgeisydd.

10.3 Mae'n cynnwys cost prynu, defnyddio neu logi unrhyw offer swyddfa cyffredinol ar gyfer ymgyrch yr ymgeisydd, ac felly bydd gwariant tybiannol yn cael ei achosi pan fo offer o'r fath yn cael ei ddarparu am ddim neu am ddisgownt gan blaid wleidyddol neu gan drydydd parti.

10.4 Er enghraifft, desgiau, cadeiriau a chyfrifiaduron a ddarperir gan blaid i'w defnyddio yn ymgyrch yr ymgeisydd.

10.5 Mae'n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

- ffonau symudol neu ddyfeisiau llaw eraill
- y contractau sy'n gysylltiedig â'r rhain

i'w defnyddio yn yr ymgyrch gan yr ymgeisydd, yr asiant ac unrhyw staff neu wirfoddolwyr eraill, pan delir am yr offer hwnnw a/neu'r costau sy'n gysylltiedig ag ef gan yr ymgeisydd, gan blaid yr ymgeisydd neu gan drydydd parti arall, ac eithrio:

- pan sicrhawyd yr offer gan yr ymgeisydd yn bennaf at ddibenion personol yr ymgeisydd ei hun ac nad yw'r costau'n fwy na'r hyn a geid fel arfer y tu allan i gyfnod etholiad
- pan ddarperir yr offer gan unigolyn arall, bod yr offer wedi'i sicrhau gan yr unigolyn hwnnw at ei ddibenion personol ei hun, nad yw'r costau'n fwy na'r hyn a achosid fel arfer y tu allan i gyfnod etholiad ac na chodir tâl ar yr ymgeisydd am ei ddefnyddio.

Enghreifftiau o gostau sy'n gysylltiedig â ffonau symudol:

- Os prynir cerdyn SIM gyda lwfans data a galwadau i ymgeisydd ei ddefnyddio yn ei ymgyrch, byddai hyn yn cyfrif fel gwariant ymgeisydd.
- Os yw ffôn symudol gwirfoddolwr yn cael ei ddefnyddio i gydlynu gwirfoddolwyr eraill, ac os bydd yr ymgeisydd yn ad-dalu cyfran o gostau’r contract ffôn i’r gwirfoddolwr, byddai hyn yn cyfrif fel gwariant ymgeisydd.
- Os yw’r ymgeisydd yn defnyddio’i ffôn ei hun a sicrhaodd at ei ddibenion personol ei hun, ac nad oes costau pellach yn cael eu hachosi y tu hwnt i’r tâl misol arferol am alwadau, data etc, nid yw hyn yn cyfrif fel gwariant ymgeisydd.

10.6 Ystyr ‘dibenion personol’ ym mharagraff 10.5 yw defnydd personol parhaus gan yr ymgeisydd neu’r unigolyn, nid defnydd at ddibenion masnachol, neu ddibenion eraill megis gan blaid wleidyddol cyn neu ar ôl yr etholiad.

**Gorbenion**

10.7 Mae’n cynnwys cost:

- trydan
- llinellau ffôn a mynediad i’r rhyngrwyd

i’w defnyddio yn ymgyrch yr ymgeisydd.

10.8 Mae’n cynnwys cost tanysgrifiad ar gyfer gwasanaethau monitro’r cyfryngau, gwasanaethau asiantaethau newyddion a gwasanaethau datganiadau i’r wasg.

**Costau sy’n gysylltiedig ag asiantau, gwirfoddolwyr a chyflogeion**

10.9 Mae’n cynnwys cost llety i’r asiant pan fo’n cael ei had-dalu gan yr ymgeisydd, gan blaid yr ymgeisydd neu gan drydydd parti arall.

10.10 Mae’n cynnwys cost gwirfoddolwyr, cyflogeion a chyflogeion plaid sy’n ymgyrchu dros yr ymgeisydd mewn ardal etholiadol benodol, gan gynnwys eu costau llety os bydd y rheiny’n cael eu had-dalu gan yr ymgeisydd, gan blaid yr ymgeisydd neu gan drydydd parti arall.

## Costau sydd wedi’u heithrio o Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 6

10.11 Nid yw’n cynnwys cost gofal plant i ymgeisydd neu i’w asiant neu i wirfoddolwr.

10.12 Nid yw’n cynnwys cost dŵr, nwy na threth gyngor.

10.13 Nid yw’n cynnwys darparu llety gan unrhyw unigolyn arall nad yw’n unig neu’n brif breswylfa i’r unigolyn os yw’r ddarpariaeth yn cael ei rhoi yn rhad ac am ddim.

**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Weinidog ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.14

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021

Julie James AS,
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
20 Ionawr 2021

**RHAN 1**

**Disgrifiad**

1. Mae'r Cod hwn yn rhoi canllawiau ar yr hyn sy'n dod o fewn Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen 7 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ('Gorchymyn 2007')[1], a'r hyn nad yw'n dod o'u mewn.

2. Mae'r Rhannau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'treuliau etholiad' ac, yn benodol felly, y treuliau y mae'n ofynnol i ymgeisydd roi gwybod amdanynt.

3. Mae Rhan 1 o Atodlen 7 yn rhestru'r materion y mae unrhyw dreuliau at ddibenion ethol yr ymgeisydd yn cyfrif mewn perthynas â nhw fel 'treuliau etholiad'. Mae Rhan 2 yn rhestru'r eithriadau.

4. Mae'r Cod hwn hefyd yn rhoi canllawiau ar yr achosion neu'r amgylchiadau lle mae'n rhaid barnu, neu lle mae'n rhaid peidio â barnu, bod treuliau wedi cael eu tynnu 'at ddibenion ethol ymgeisydd'. Mae'r Cod hwn yn ychwanegu at y diffiniad o'r ymadrodd hwnnw yn erthygl 63 o Orchymyn 2007.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

5. Mae'r swm y gellir ei wario ar dreuliau etholiad ymgeiswyr wedi'i gyfyngu gan Orchymyn 2007. Mae terfyn gwariant yn gymwys mewn perthynas â chyfnod penodol, y cyfeirir ato'n aml fel 'cyfnod a reoleiddir'.

6. Yn achos etholiadau i'r Senedd, nid yw'r cyfnod a reoleiddir wedi ei ddiffinio'n benodol ond mae'n deillio o erthygl 63(1) o Orchymyn 2007. Mae'n dechrau ar y diwrnod ar ôl i berson ddod yn ymgeisydd yn swyddogol ac mae'n dod i ben ar y diwrnod pleidleisio (diwedd y pleidleisio).

7. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi canllawiau cyn i'r Cod Ymarfer fod mewn grym i sicrhau bod gwybodaeth ar gael.

**Y cefndir deddfwriaethol**

8. Mae gan y Comisiwn Etholiadol bŵer o dan Atodlen 7, paragraff 14 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 i lunio Cod Ymarfer sy'n rhoi canllawiau ar Dreuliau Etholiad Ymgeiswyr.

9. Lluniwyd Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021 gan y Comisiwn Etholiadol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

10. Caiff y Cod Ymarfer hwn ei osod gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol o

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2007/236/schedule/7/made

dan Atodlen 7, paragraff 14 o Orchymyn 2007.

11. Bydd y Cod Ymarfer hwn yn dilyn y weithdrefn negyddol ddrafft. Oni bai bod y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o fewn 40 diwrnod i'w osod, caiff y Cod Ymarfer ei ddwyn i rym trwy orchymyn diwrnod penodedig a wneir gan Weinidogion Cymru, ac a gyhoeddir gan y Comisiwn Etholiadol.

12. Mewnosodwyd paragraff 14 o Atodlen 7 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 gan Erthygl 55 o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020[2].

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

13. Mae'r Cod hwn yn rhoi canllawiau ar yr hyn sy'n dod o fewn Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007, a'r hyn nad yw'n dod o'u mewn.

14. Mae'r Rhannau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'treuliau etholiad' ac, yn benodol felly, y treuliau y mae'n ofynnol i ymgeisydd roi gwybod amdanynt fel treuliau etholiad.

15. Mae Rhan 1 o Atodlen 7 yn rhestru'r materion y mae unrhyw dreuliau at ddibenion ethol yr ymgeisydd yn cyfrif mewn perthynas â nhw fel 'treuliau etholiad'. Mae Rhan 2 yn rhestru'r eithriadau.

16. Mae'r Cod hwn hefyd yn rhoi canllawiau ar yr achosion neu'r amgylchiadau lle mae'n rhaid barnu, neu lle mae'n rhaid peidio â barnu, bod treuliau wedi cael eu tynnu 'at ddibenion ethol ymgeisydd'. Mae'r Cod hwn yn ychwanegu at y diffiniad o'r ymadrodd hwnnw yn erthygl 63 o Orchymyn 2007.

17. Mae'n rhaid i ymgeiswyr naill ai penodi asiant i oruchwylio'u gwariant neu weithredu fel eu hasiant nhw eu hunain. Mae gan yr asiant gyfrifoldebau dros dynnu treuliau etholiad yr ymgeisydd a'u talu – gweler erthyglau 46 a 43 o Orchymyn 2007 yn y drefn honno.

18. Mae erthygl 52 yn ei gwneud yn ofynnol i asiant ymgeisydd etholaeth neu ymgeisydd rhanbarthol unigol gyflwyno ffurflen treuliau etholiad. Mae erthygl 53 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiant a'r ymgeisydd wneud datganiad yr un ynghylch cywirdeb y ffurflen.

19. Mae erthygl 54 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd ar restr ranbarthol plaid gofrestredig wneud datganiad ynghylch treuliau etholiad.

20. O dan erthygl 54(3), mae person yn euog o arfer llwgr os ydynt yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol.

21. Os nad yw ymgeisydd neu asiant yn dilyn y Cod hwn, mae'n debygol y bydd yn torri'r gofynion statudol sy'n ymwneud â threuliau etholiad. Gallai hyn arwain at erlyniad am arfer llwgr a/neu anghyfreithlon o dan erthyglau 120

[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/1558/article/55/made/welsh

a/neu 121 o Orchymyn 2007, hy dirwy ac, mewn perthynas ag arfer llwgr, dedfryd o garchar o bosibl.

22. Pan ddyfernir bod ymgeisydd neu asiant yn bersonol euog o arfer llwgr, maent yn cael eu gwahardd rhag dal swydd etholedig am gyfnod o bum mlynedd. Yn achos arfer anghyfreithlon, maent yn cael eu gwahardd am dair blynedd. Gall etholiad yr ymgeisydd fod yn ddi-rym.

**Ymgynghori**

23. Lluniwyd y Cod Ymarfer hwn ar dreuliau etholiad ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd gan y Comisiwn Etholiadol ar ôl ymgynghori â phersonau a chyrff â buddiant, gan gynnwys cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd.

24. Diwygiodd y Comisiwn Etholiadol y Cod yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad yng Nghymru, ac ystyriwyd hefyd adborth a gafwyd gan bleidiau gwleidyddol a rhanddeiliaid eraill yn dilyn yr ymgyngoriadau yn yr Alban a Lloegr er mwyn gwneud pob Cod yn gyson lle y bo'n bosibl.

25. Mae dolen i adroddiad ymgynghori'r Comisiwn Etholiadol ar gael trwy ddilyn y ddolen a ganlyn:

https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/ein-safbwyntiau-hymchwil/ein-hymgynghoriadau/ymateb-i-adborth-ymgynghoriad-ar-godau-ymarfer-ar-gyfer-gwariant-ymgeiswyr-a-phleidiau-gwleidyddol

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

26. Diffinnir Is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol y mae'n rhaid cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ei chyfer yn Adran 76(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol ac y mae'n ofynnol ei gosod gerbron y Senedd. Lluniwyd y Cod hwn gan y Comisiwn Etholiadol o dan Atodlen 7, paragraff 14 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. I'r perwyl hynny, nid yw'r Cod yn bodloni meini prawf adran 76 ac felly nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Addysg, Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â’r UE) 2021**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A.2 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol perthnasol a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU. Ystyr "offeryn statudol perthnasol" yw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru gan ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru (y Senedd).

2. O dan RhS 30A.10, caiff unrhyw aelod gyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd yn gofyn am gytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth berthnasol mewn offeryn statudol perthnasol.

3. Cafodd Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Addysg, Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â’r UE) eu gosod gerbron Senedd y DU ar 18 Ionawr 2021 ac maent bellach yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru.  Mae copi o’r Rheoliadau wedi’i osod gyda’r memorandwm hwn ac maent i’w gweld hefyd yn:

http://www.legislation.gov.uk/id/ukdsi/2021/9780348219210

**Crynodeb o’r Offeryn Statudol a’i amcan**

4. Nod yr OS yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r OS yn diwygio Atodlen 11B i Ddeddf Addysg 2002 a darpariaethau yn Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002) 2005 er mwyn datgymhwyso’r egwyddor “gwlad tarddiad”, ac mae’n gwneud diwygiadau canlyniadol eraill i adlewyrchu’r ffaith nad yw’r DU bellach yn aelod o’r UE.

5. Mae angen y cywiriadau hyn er mwyn sicrhau y bydd y llyfr statud yn parhau i weithredu’n effeithiol ar ôl ymadael.

**Y ddarpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

6. Y ddeddfwriaeth sylfaenol a ddiwygir gan y Rheoliadau hyn yw Deddf Addysg 2002 (p.32) (“Deddf 2002”). Mae’r diwygiadau’n darparu ar gyfer datgymhwyso'r egwyddor “gwlad tarddiad” mewn perthynas â rhai darpariaethau yn Atodlen 11 B i Ddeddf 2002.

7. Mae Atodlen 11B yn ymdrin â throseddau am dorri cyfyngiadau adrodd o dan adran 141G o Ddeddf 2002, sef rhoi gwybod am droseddau honedig gan athrawon. Effaith y diwygiadau yw datgymhwyso'r egwyddor gwlad

tarddiad mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithas wybodaeth sydd o bosibl wedi torri'r cyfyngiadau adrodd o dan adran 141F.

8. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraffau 5 i 6 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y maent yn ymwneud ag addysg.

**Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

9. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, rydym o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Mae cydsynio i OS ar gyfer Cymru a Lloegr yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws Cymru a Lloegr, sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod digynsail hwn o newid.

**Julie Morgan AS / MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**19 Ionawr 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Draft Regulations laid before Parliament under paragraph 1(3) of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018, for approval by resolution of each House of Parliament.*

DRAFT STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 0000

# CHILDREN AND YOUNG PERSONS

# EDUCATION, ENGLAND AND WALES

# ELECTRONIC COMMUNICATIONS

## The Electronic Commerce Directive (Education, Adoption and Children) (Amendment etc.) Regulations 2021

| | |
|---|---|
| *Made* - - - - | *** |
| *Coming into force* - - | *** |

The Secretary of State makes these Regulations in exercise of the powers conferred by section 8(1) of, and paragraph 21(b) of Schedule 7 to, the European Union (Withdrawal) Act 2018(**a**).

In accordance with paragraph 1(3) of Schedule 7 to that Act, a draft of this instrument has been laid before Parliament and approved by a resolution of each House of Parliament.

**Citation, commencement and extent**

**1.**—(1) These Regulations may be cited as the Electronic Commerce Directive (Education, Adoption and Children) (Amendment etc.) Regulations 2021 and come into force on the day after the day on which they are made.

(2) Any amendment, repeal or revocation made by these Regulations has the same extent as the provision amended, repealed, or revoked.

**Amendment of the Education Act 2002**

**2.**—(1) The Education Act 2002(**b**) is amended as follows.

(2) In Schedule 11B (offence under section 141G: supplementary provisions)(**c**)—

(a) in paragraph 1(2)—

(i) for "The purpose of this Schedule is to comply with" substitute "In this Schedule "the E-Commerce Directive" means";

(ii) omit "("the E-Commerce Directive")";

(**a**) 2018 c. 16.
(**b**) 2002 c. 32.
(**c**) Schedule 11B was inserted by Schedule 4 to the Education Act 2011 (c. 21) and amended by S.I. 2012/1809.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) omit paragraphs 2 and 3;

(c) omit paragraph 7(2).

**Amendment of the Electronic Commerce Directive (Adoption and Children Act 2002) Regulations 2005**

**3.**—(1) The Electronic Commerce Directive (Adoption and Children Act 2002) Regulations 2005(**a**) are amended as follows.

(2) In regulation 1—

(a) for the heading substitute "Citation and commencement";

(b) omit paragraph (2).

(3) In regulation 2 (interpretation)—

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dadansoddiad fy swyddogion o gymal 107 yw ei fod yn ymwneud â diogelu amgylcheddau coedwigaeth a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac felly mae'n gwneud darpariaethau o fewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli. Mae dehongliad Llywodraeth y DU yn awgrymu bod y darpariaethau wedi'u dal gan y mater a gedwir yn ôl ym mharagraff 65 o dan Atodlen 7A ar gyfer "creu, gweithredu, rheoleiddio a diddymu mathau o gymdeithasau busnes", am eu bod yn rheoleiddio rhai gweithgareddau cymdeithasau busnes. Mae'n bosibl y caiff y dehongliad hwn effeithiau eang ar y setliad datganoledig a gallai ddod ag unrhyw reoliad busnes o fewn cwmpas materion a gedwir yn ôl. Nid wyf yn cytuno mai dyma'r dehongliad cywir o'r mater a gedwir yn ôl.

3. **A oes trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i geisio datrys yr anghydfod o ran cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd? Os felly, rhowch fanylion trafodaethau o'r fath.**

   Ysgrifennais at Weinidog arweiniol y Bil, y Gweinidog Pow, ar 4 Rhagfyr i'w hysbysu o'm bwriad i osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol o ran cymal 107.

4. **A allwch chi roi copïau o bob gohebiaeth i ni rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth DU ynghylch adran 107 ac Atodlen 16 o'r Bil (gan gynnwys unrhyw ymatebion i'ch llythyrau dyddiedig 8 Medi a 4 Rhagfyr 2020)?**

   Nid wyf wedi ymateb i ohebiaeth ddiweddaraf y Gweinidog Pow eto; byddaf yn ceisio darparu'r copïau y gwnaethpwyd cais amdanynt i'r pwyllgor cyn gynted â phosibl ac yn unol â'r rheolau GDPR perthnasol.

5. **Os na ellir dod i gytundeb ar yr anghydfod ynghylch cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd, pa gamau pellach ydych chi'n bwriadu eu cymryd?**

   Nid wyf yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach ar wahân i osod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol sy'n datgan fy marn bod Llywodraeth y DU, yn yr achos hwn, yn deddfu mewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli i Gymru.

6. **Mewn perthynas â'r pwerau cydredol plws yn y Bil, nodwn nad yw'r Mesur Amgylchedd yn cael ei gwmpasu gan Orchymyn 2021, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) a osodwyd gerbron Senedd Cymru ar 10 Rhagfyr 2020. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y modd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â'r pwerau cydredol plws yn y Bil?**

   Rydych yn gywir i nodi nad oedd y Gorchymyn yn cwmpasu Bil Amgylchedd y DU. Oherwydd atal trafodion y Bil ar ddechrau pandemig Covid-19, roedd y Bil y tu allan i gwmpas y Gorchymyn. Ers hynny, mae swyddogion wedi cael cadarnhad y bydd gwelliant yn cael ei gyflwyno i sicrhau nad yw'r swyddogaethau cydamserol ym Mil y DU yn cael eu dal gan gyfyngiadau Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â swyddogaethau Gweinidogion y Goron. Rydym yn aros am ohebiaeth bellach gan y Gweinidog Pow yn ailadrodd yr ymrwymiad hwn ac yn darparu amserlenni o ran pryd y caiff ei wneud.

**7. A wnewch chi egluro, mewn perthynas â'ch ymateb i'r pwynt bwled cyntaf o argymhelliad 20:**

**- Union natur y cytundeb rhwng swyddogion, h.y. beth sydd wedi'i gytuno, a beth yw statws y cytundeb?**
**- A yw Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi llofnodi'r cytundeb rhwng swyddogion, a chynnwys y cytundeb?**
**- Pam yr ystyriwyd ei bod yn briodol peidio â thrafod pŵer cydredol plws gyda Gweinidogion y DU?**

Nid yw cymal 83 (Cymal 81 gynt) yn sefydlu unrhyw bolisi newydd, yn hytrach mae'n darparu'r pwerau sydd eu hangen i ddisodli'r rhai o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn y maes polisi hwn. Fel y cyfryw, nid oes angen cytundeb penodol o ran dull polisi.

Mae angen y pwerau hyn i fynd i'r afael â bylchau deddfwriaethol er mwyn gallu diwygio a diweddaru'r rhestr o sylweddau â blaenoriaeth ar gyfer dŵr wyneb, dŵr daear a safonau ansawdd amgylcheddol. Fel y nodwyd eisoes yn fy ymateb, mae is-adran 4 o'r ddarpariaeth yn darparu mai dim ond mewn perthynas â basnau afonydd trawsffiniol Cymru y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau o'r fath, sydd ar gael i Weinidogion Cymru o dan Gymal 84 (Cymal 82 gynt) gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Rhoddwyd sylw i bwerau cydamserol a mwy yn y trafodaethau rhyng-Lywodraethol swyddogol ynghylch y ddeddfwriaeth, ac nid oedd angen trafodaeth rynglywodraethol benodol gan y Gweinidogion ar y cymalau hyn.

Gan gyfeirio at eich ail bwynt, nid wyf yn edrych ar beth y gallai Gweinidogion Llywodraeth y DU fod wedi'u gymeradwyo. Cefais fy mriffio a chytunais ar y dull gweithredu cydamserol ym mis Chwefror 2020.

Roedd y mater yn ymwneud â'r eithriad priodol o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn bresennol ym mhob swyddogaeth gydredol a mwy ar draws Bil y DU; felly nid oedd angen i ni gynnal trafodaethau penodol ar bob maes polisi penodol. Mae'r rheswm pam mae'r darpariaethau dŵr hyn yn ymddangos yn wahanol ar yr wyneb, gyda chymalau ar wahân ar gyfer Gweinyddiaethau'r DU, yn deillio o gymhlethdodau amrywiol yr ardal drwy gyfeirio at fasinau afonydd trawsffiniol a gwahanol gyfundrefnau deddfwriaethol ar gyfer yr awdurdodaethau ar wahân.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

23 Rhagfyr 2020

Annwyl Lesley

**Bil yr Amgylchedd**

Diolch eto i chi am eich **llythyr dyddiedig 28 Awst 2020**, lle gwnaethoch ymateb i'r argymhellion a gyflwynwyd i chi yn ein **hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Amgylchedd y DU** (adroddiad cyntaf).

Yn ein cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020, gwnaethom ystyried y **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2)** a osodwyd gennych gerbron y Senedd ar 4 Rhagfyr 2020.

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes wedi **pennu dyddiad cau ar ein cyfer, ar gyfer adrodd**, sef 4 Chwefror 2021 ar gyfer Memorandwm Rhif 2. O ystyried yr amser cymharol fyr sydd ar gael i'r Pwyllgor roi ystyriaeth, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod.

1. Nodwn eich bod yn ystyried bod cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ystyried y farn hon, a wnewch chi ddweud a ydych chi wedi:
    a. gofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliant i'r Bil i roi'r un pwerau i Weinidogion Cymru â'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru?
    b. mynd ar drywydd – gyda Llywodraeth y DU – unrhyw newidiadau i'r Bil i sicrhau cyfranogiad Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau sy'n ymwneud â Chymru o dan Atodlen 16?

2. A allwch chi ymhelaethu ar eich rheswm dros ystyried bod cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd datganoledig pan – yn ôl DEFRA – eu bod yn ymwneud â'r cymal cadw yn adran C1, paragraff 65 o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (creu, gweithredu, rheoleiddio a diddymu mathau o gymdeithas fusnes)?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

3. A oes trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i geisio datrys yr anghydfod o ran cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd? Os felly, rhowch fanylion trafodaethau o'r fath.

4. A allwch chi roi copïau o bob gohebiaeth i ni rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth DU ynghylch adran 107 ac Atodlen 16 o'r Bil (gan gynnwys unrhyw ymatebion i'ch llythyrau dyddiedig 8 Medi a 4 Rhagfyr 2020)?

5. Os na ellir dod i gytundeb ar yr anghydfod ynghylch cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd, pa gamau pellach ydych chi'n bwriadu eu cymryd?

6. Mewn perthynas â'r pwerau cydredol plws yn y Bil, nodwn nad yw'r Mesur Amgylchedd yn cael ei gwmpasu gan Orchymyn 2021, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) a osodwyd gerbron Senedd Cymru ar 10 Rhagfyr 2020. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y modd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â'r pwerau cydredol plws yn y Bil?

Rydym yn bwriadu mynd i'r afael â phryderon sy'n codi yn sgil eich hymateb, dyddiedig 28 Awst 2020, yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Fodd bynnag, hoffem godi un mater gyda chi ynghylch yr ymateb a roesoch i argymhelliad 20, oedd yn gofyn yn rhannol i chi esbonio pam nad oeddech wedi trafod cymal 81 gyda Gweinidogion y DU. Yn ôl eich ymateb, “mae ymgysylltu ar lefel Swyddogol wedi bod yn ddigon i sicrhau cytundeb” ar gymalau 81 ac 82.

7. A wnewch chi egluro, mewn perthynas â'ch ymateb i'r pwynt bwled cyntaf o argymhelliad 20:

   - union natur y cytundeb rhwng swyddogion, h.y. beth sydd wedi'i gytuno, a beth yw statws y cytundeb?
   - a yw Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi llofnodi'r cytundeb rhwng swyddogion, a chynnwys y cytundeb?
   - pam yr ystyriwyd ei bod yn briodol peidio â thrafod pŵer cydredol plws gyda Gweinidogion y DU?

Byddem yn ddiolchgar petai eich ymateb yn dod i law heb fod yn hwyrach na 13 Ionawr 2021.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Lesley Griffiths MS/AS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

28 Awst 2020

Annwyl Mick

**Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU**

Diolch am ddarparu copi o adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Gweler ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad yn Atodiad A.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa bresennol gyda Senedd y DU a Senedd Cymru yn ystyried y Bil. Roedd y Bil yn cael ei ystyried gan bwyllgor bil cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin ond ataliwyd cyfarfodydd y Pwyllgor ar 18 Mawrth hyd nes y clywir yn wahanol. Bydd y Pwyllgor yn awr yn cyflwyno adroddiad erbyn dydd Mawrth 29 Medi. Ni chafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd craffu seneddol ar y Bil yn debygol o ailddechrau.

O ystyried yr ansicrwydd yn amserlen Bil y DU, nid oes dadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi'i threfnu ar gyfer y Senedd ar hyn o bryd. Disgwyliaf yn awr i hyn ddigwydd ar ôl toriad yr haf.

Cofion

**Lesley Griffiths MS/AS**
Gweinidog yr Amgylchedd  a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A**

**Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU**

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Argymhelliad 1:**<br><br>Dylai'r Gweinidog ymateb i'r holl argymhellion yn yr adroddiad hwn fel mater o frys ac mewn da bryd cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol. | **Derbyn**<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 2.**<br><br>Dylai'r Gweinidog:<br><br>▪ ddatgan yn glir pa gymalau o Fil y DU sydd mewn meysydd polisi sydd â fframweithiau cyffredin a nodwyd;<br><br>▪ sut mae'r cymalau hynny'n ymwneud â'r fframweithiau cyffredin arfaethedig perthnasol, yn llawn neu'n rhannol;<br><br>▪ ddatgan pryd y bydd fframwaith cyffredin yn y meysydd polisi hynny'n cael ei gyflwyno ac yn nodi'r mecanweithiau ar gyfer ei gyflawni. | **Derbyn**<br><br>Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer rheoleiddio cemegion a gwastraff. Dau faes polisi yw'r rhain lle mae fframweithiau'n cael eu datblygu, sef y Fframwaith Rheoleiddio Cemegion (gan gynnwys Plaladdwyr) a'r Fframwaith Gwastraff ac Adnoddau.<br><br>Nid yw'r Bil yn darparu sail ddeddfwriaethol i sefydlu'r fframweithiau hyn. Mae'r fframweithiau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar y sail y byddant yn anneddfwriaethol eu natur, sy'n debygol o gael eu hategu gan Goncordatau Gweinidogol.<br><br>Ar ôl eu gweithredu, gall y fframweithiau ddarparu strwythurau priodol i'r pedair llywodraeth drafod datblygu polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r meysydd fframwaith hynny. Er enghraifft, drwy grwpiau rhynglywodraethol a sefydlwyd o dan y fframweithiau.<br><br>Mae trafodaethau'n parhau rhwng y pedair llywodraeth i ddatblygu'r ddwy fframwaith hyn. Yn benodol, mae gwaith yn mynd rhagddo ar Gytundebau Amlinellol drafft y Fframwaith sy'n nodi'r trefniadau gwneud penderfyniadau a llywodraethu arfaethedig. Erbyn diwedd 2020 bydd gan y fframweithiau hyn Gytundeb Amlinellol ar gyfer y Fframwaith ar waith, sydd wedi cael cadarnhad dros dro gan Weinidogion, ac sy'n weithredol ar ffurf ddrafft.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |

| **Argymhelliad 3:**<br><br>Dylai'r Gweinidog nodi'n glir, a chydag esboniad priodol, pa gymalau o Fil y DU, fel y maent yn gymwys i Gymru:<br><br>✦ sydd yn angenrheidiol i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE;<br><br>✦ sydd yn gysylltiedig ag ymadawiad y DU o'r UE ond nid oes eu hangen i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol | **Derbyn**<br><br>Nid oes angen yr un o'r cymalau yn y Bil, fel y maent yn gymwys i Gymru, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE<br><br>Mae'r cymalau canlynol yn gysylltiedig â ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ond nid oes eu hangen i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.<br><br><u>Rhan 3</u><br>Cymal 52 ac Atodlen 9 - O dan Erthygl 4 o Gyfarwyddeb Plastig Defnydd Sengl (CYFARWYDDYD (EU) 2019/904 yr UE), mae rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaethau i sicrhau gostyngiad 'sylweddol a pharhaus' yn nifer y cwpanau plastig untro ar gyfer diodydd a chynwysyddion bwyd. Nid yw'r Erthygl yn nodi sut y dylid cyflawni'r gostyngiad hwn, ond mae mecanweithiau awgrymedig yn cynnwys cyflwyno taliadau ariannol neu ardollau. Mae'r tâl am fagiau siopa untro wedi dangos effeithiolrwydd defnyddio'r dull hwn.<br><br>Er bod y DU wedi pleidleisio i adael yr UE pan gyflwynwyd y Gyfarwyddeb, roedd ansicrwydd parhaus ar adeg ein rhwymedigaethau yn y dyfodol a manylion unrhyw gytundeb posibl â'r UE. Er gwaethaf hyn, cefnogwyd nod y Gyfarwyddeb o leihau effaith amgylcheddol plastigau untro gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn adlewyrchu ein huchelgeisiau o symud Cymru tuag at economi gylchol. Ar y sail hon, penderfynwyd i Weinidogion Cymru geisio pwerau codi tâl ym Mesur Amgylchedd y DU i'n galluogi i gynnal cydraddoldeb ag aelod-wladwriaethau eraill yr UE ac i ganiatáu cyflwyno rheoliadau'n amserol yn absenoldeb Bil Cymreig addas.<br><br>Cymal 57 – Gwastraff peryglus: Gwnaed Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae'r Cymal hwn yn darparu pŵer i ganiatáu i Weinidogion Cymru barhau i allu diwygio neu ddisodli Rheoliadau 2005 er mwyn sicrhau bod y modd y caiff gwastraff peryglus ei reoleiddio yn atal niwed sylweddol i'r amgylchedd ac iechyd pobl.<br><br>Cymal 66 – Hysbysiadau Cosb Benodedig: Mae angen y pŵer hwn gan nad oes pŵer yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i ddiwygio lefel y SSNs sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon a dyletswydd gofal deiliaid tai. Yn y gorffennol, gwnaed diwygiadau o'r fath o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd, sydd bellach wedi'i diddymu ac na ellir ei ddefnyddio ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Heb Gymal 66 ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio'r cosbau presennol am yr Hysbysiadau Cosb Benodedig sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon a dyletswydd gofal deiliaid tai.<br><br><u>Rhan 8</u> |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | Mae cymal 125 ac Atodlen 19 (REACH) yn gysylltiedig â ymadawiad y DU o'r UE, ac ystyrir bod angen galluogi Gweinidogion i ddiweddaru trefn REACH y DU/PRYDAIN FAWR (gan gynnwys adlewyrchu newidiadau i REACH yr UE lle y bo'n briodol) ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 4.**<br><br>Dylai'r Gweinidog nodi'n glir pa gymalau o Fil y DU fel y maent yn gymwys i Gymru sydd ddim yn dod o dan argymhelliad 3. | **Derbyn**<br><br>Nid yw'r cymalau canlynol, fel y maent yn gymwys i Gymru, wedi'u cynnwys yn argymhelliad 3:<br><br><u>Rhan 1</u><br>Cymal 19 - Datganiadau am Filiau sy'n cynnwys cyfraith amgylcheddol newydd a Chymal 43 - Ystyr cyfraith amgylcheddol (fel y mae'n ymwneud â chymal 19).<br><br><u>Rhan 3</u><br>Cymal 47 ac Atodlen 4 – Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr<br>Cymal 48 ac Atodlen 5 – Costau Gwaredu Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr<br>Cymalau 49 – 51 – Effeithlonrwydd adnoddau<br>Cymal 55: Olrhain Gwastraff Electronig<br>Cymal 60 – Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990<br>Cymal 61 – Pwerau i wneud cynlluniau codi tâl<br>Cymal 63 ac Atodlen 10 – Pwerau Gorfodi<br>Cymal 65 – Gorfodi Sbwriel1<br>Cymal 67 – Rheoleiddio Gweithgareddau Llygredig<br><br><u>Rhan 4</u><br>Cymal 69 – Rheoli Ansawdd Aer Lleol<br>Cymal 70 – Ardaloedd Rheoli Mwg<br><br><u>Rhan 5</u><br>Cymalau 75 a 76 – Cynlluniau a chynigion<br>Cymal 77 – Pŵer yr Awdurdod i fynnu gwybodaeth<br>Cymal 79 – Cyflwyno dogfennau'n electronig<br>Cymal 81 – Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ar Ansawdd Dŵr<br>Cymal 82 – Pwerau Ansawdd Dŵr Gweinidogion Cymru<br><br>Cymal 85 – Dehongli Ansawdd Dŵr<br>Cymalau 87 – 89 – Draenio tir<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 5.** | **Derbyn** |

| | |
|---|---|
| Dylai'r Gweinidog egluro pam yr oedd angen cynnwys y cymalau a nodwyd yn argymhelliad 4 ym Mil y DU, yn hytrach nag o fewn Bil Cymreig yn y Chweched Senedd | Nododd y cyn Brif Weinidog y meini prawf lle byddai'n dderbyniol defnyddio Bil y DU i ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru. Y rhain o hyd yw'r dull polisi a ddefnyddir wrth bennu priodoldeb defnyddio Biliau'r DU.<br><br>Mae'r pwerau y gofynnir amdanynt ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mesur Amgylchedd y DU yn glynu wrth y meini prawf hyn naill ai:<br><br>• Byddai cynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU hefyd yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cymru ond nid oes amser ar gael i gyflwyno darpariaethau tebyg yn y Cynulliad;<br><br>• Hefyd, mae'r cysylltiadau agos rhwng y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol o weithredu yw bwrw ymlaen â darpariaethau'r Bil ar gyfer y ddwy wlad ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 6**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro pam na chafodd Bil Amgylcheddol ei flaenoriaethu yn unrhyw un o raglenni deddfwriaethol blynyddol Llywodraeth Cymru i gynnwys:<br><br>✦ llywodraethu amgylcheddol, gan gynnwys corff priodol i Gymru, sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE;<br><br>✦ polisïau amgylcheddol eraill nad ydynt yn gysylltiedig â Brexit sydd bellach yn ymddangos ym Mesur y DU. | **Derbyn**<br><br>Cyhoeddodd y Prif Weinidog newidiadau i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill y Senedd hon ar 15 Gorffennaf. Myfyriodd ar y pwysau yr oedd diwedd y cyfnod pontio a Covid-19 wedi'u rhoi ar y rhaglen a bod angen penderfyniadau anodd i ddileu Biliau o'r rhaglen yn seiliedig ar flaenoriaethau.<br><br>Yn anffodus, roedd hyn yn golygu na ellid cyflwyno deddfwriaeth ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu y tymor hwn, ond ailadroddodd y Prif Weinidog ei ymrwymiad i wneud hynny.<br><br>Fel y nodais o'r blaen, mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau cyfyngedig ar gyfer datblygu ei rhaglen ddeddfwriaethol. Mae mwy o gynigion bob amser yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol nag sydd â'r gallu i'w gyflawni. Mae penderfyniadau ynghylch pa gynigion sydd i'w datblygu ac a gynhwysir yn y pen draw mewn rhaglen ddeddfwriaethol yn cael eu gwneud gan y Cabinet, gan ystyried nifer o ffactorau megis blaenoriaethau'r Llywodraeth ar draws ei holl gyfrifoldebau, aeddfedrwydd cymharol datblygu cynnig, ei faint a'i amserlen debygol ar gyfer cyflawni a'r pwysau polisi a chyfreithiol eraill mewn portffolio a allai effeithio ar gyflawni.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu a pharatoi mesurau dros dro ar gyfer derbyn cwynion am lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru a fyddai'n dod i rym erbyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer gadael yr UE ar 31 Rhagfyr 2020. |

| | |
|---|---|
| | O ran egwyddorion, er bod gennym, wrth gwrs, gyfres o egwyddorion amgylcheddol yn ein Deddf yr Amgylchedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo eisoes i barhau i gymhwyso pedair egwyddor amgylcheddol yr UE wrth lunio polisïau hyd nes y byddwn yn eu cynnwys mewn deddfwriaeth.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 7**<br><br>Dylai'r Gweinidog gadarnhau mai polisi Llywodraeth Cymru o hyd yw creu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru gan ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol. | **Derbyn**<br><br>Cyhoeddodd y Prif Weinidog newidiadau i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill y Senedd hon ar 15 Gorffennaf. Myfyriodd ar y pwysau yr oedd diwedd y cyfnod pontio a Covid-19 wedi'u rhoi ar y rhaglen ac roedd angen penderfyniadau anodd i ddileu Biliau o'r rhaglen yn seiliedig ar flaenoriaethau.<br><br>Yn anffodus, roedd hyn yn golygu na ellid cyflwyno deddfwriaeth ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu y tymor hwn, ond ailadroddodd y Prif Weinidog ei ymrwymiad i wneud hynny.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu a pharatoi mesurau dros dro ar gyfer derbyn cwynion am lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru a fyddai'n dod i rym erbyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer gadael yr UE ar 31 Rhagfyr 2020.<br><br>O ran egwyddorion, er bod gennym, wrth gwrs, gyfres o egwyddorion amgylcheddol yn ein Deddf yr Amgylchedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo eisoes i barhau i gymhwyso pedair egwyddor amgylcheddol yr UE wrth lunio polisïau hyd nes y byddwn yn eu cynnwys mewn deddfwriaeth.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 8.**<br><br>Dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd deddfwriaeth sylfaenol i greu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru yn cynnwys adrannau annibynnol, yn unol â'i hymrwymiad i ddeddfwriaeth gyfunol, ac na fydd yn diwygio Bil y DU fel ffordd o gyflawni amcanion | **Derbyn**<br><br>Y bwriad yw i Gymru gael ei Bil Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu ei hun yng Nghymru, a bydd ei darpariaethau'n darparu'r fframwaith a'r mecanwaith angenrheidiol ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru, ynghyd â deddfu i ymgorffori pedair egwyddor amgylcheddol yr UE yng nghyfraith Cymru.<br><br>Yn ystod ein cam presennol o ddatblygu polisi, nid ydym yn rhagweld diwygio Bil y DU fel ffordd o gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| polisi Llywodraeth Cymru. | Fodd bynnag, efallai y bydd angen gwneud diwygiadau canlyniadol i Fil y DU unwaith y bydd Bil Cymreig ar waith i sicrhau bod y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn gallu gweithredu'n esmwyth ochr yn ochr â'i gilydd.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 9:**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd yn ceisio gwelliannau i Fil y DU i adlewyrchu canlyniad ymarferion ymgynghori perthnasol Llywodraeth Cymru sydd wedi cau ar ôl i Fil y DU gael ei gyflwyno i Senedd y DU. | **Derbyn**<br><br>Os bydd canlyniad ymgynghoriadau diweddar yn arwain at angen newid y darpariaethau arfaethedig yn y Bil, byddaf yn gofyn i Lywodraeth y DU geisio'r gwelliannau angenrheidiol ar ein rhan.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 10.**<br><br>Dylai'r Gweinidog ofyn am welliant i Fil y DU fel bod y cymalau a gwmpesir gan argymhelliad 4 yn ddarostyngedig i gymal machlud sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod i ben ar ôl dyddiad penodedig. | **Gwrthod**<br><br>Cyhoeddodd y Prif Weinidog newidiadau i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer gweddill y Senedd hon ar 15 Gorffennaf. Myfyriodd ar y pwysau yr oedd diwedd y cyfnod pontio a Covid-19 wedi'u rhoi ar y rhaglen ac roedd angen penderfyniadau anodd i ddileu Biliau o'r rhaglen yn seiliedig ar flaenoriaethau.<br><br>Fel arfer, rydym yn ystyried cymalau machlud yn neddfwriaeth y DU lle mae amserlen glir ar gyfer disodli darpariaethau Cymreig ac oherwydd nad oes gennym Fil Amgylchedd wedi'i drefnu yn y tymor hwn, nid oes gennym ddigon o sicrwydd. |
| **Argymhelliad 11**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro: ✦ pam mae angen cydsyniad ar gyfer cymalau 21, 45, 46, 78, 90, 100, 115, 122 a 124 o Fil y DU i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darpariaethau cyffredinol yn Rhan 8 o Fil y DU;<br>✦ pam nad yw gwybodaeth a gynhwysir yn ei llythyr dyddiedig 14 Mai 2020 mewn ymateb i C11 wedi'i chynnwys yn y | **Derbyn**<br><br>Cafodd y rhestr a ddarparwyd mewn ymateb i C11 ei chynnwys mewn camgymeriad.<br><br>Mae natur y darpariaethau cyffredinol yn golygu na allwn adrodd yn bendant beth fydd eu cais penodol ym mhob achos, ac felly pa gysylltiad penodol a allai fod ganddynt gyda 'darpariaeth berthnasol'.<br><br>Fodd bynnag, i'r graddau y gellir arfer neu ddeall y darpariaethau cyffredinol yng nghymalau 126 i 133 naill ai'n ymwneud neu fel arall mewn modd sy'n brathu ar ddarpariaeth berthnasol mewn mannau eraill yn y Bil (h.y. ar gymalau 19, 43, 47 i 52, 55, 57, 60 i 61, 63, 65 i 66 i 67, 69 i 70, 75 i 77, 79, 81 i 82, 85, 87 i 89 a 125), credwn eu bod yn 'ddarpariaeth berthnasol' at ddibenion Rheol Sefydlog 29 yn eu rhinwedd eu hunain. |

| | |
|---|---|
| Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol<br><br>gyda sylwebaeth briodol ac yn unol â Rheol Sefydlog 29;<br><br>✦ pam nad yw ei hymateb i C11 yn cyfeirio at gymalau 55, 57, 60, 61, 65, 66, 67, 75-77, 79, 81, 82, 85 ac 87-89. | **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 12:**<br><br>Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth, naill ai mewn dogfen atodol neu mewn unrhyw Femorandwm atodol, yn cyfiawnhau pam ei bod yn briodol cymryd pob un o'r pwerau dirprwyedig ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys ym Mesur y DU, a'r dewis o weithdrefn ar gyfer pob pŵer. | **Derbyn**<br><br>Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn Atodiad A i'r Memorandwm yn bodloni gofynion SO29.3:<br><br>"Rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol" SO29.3(iv):"pan fo'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth berthnasol sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, nodi gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud iddi wrth arfer y pŵer i fod yn ddarostyngedig iddi;"<br><br>Ers hynny, rwyf wedi darparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani i'r Pwyllgor yn fy llythyr dyddiedig 14 Mai.<br><br>Er mwyn sicrhau mynediad rhwydd at yr holl wybodaeth, byddaf yn cyfarwyddo fy swyddogion i goladu'r wybodaeth mewn un ddogfen a chyhoeddi hyn ochr yn ochr â'r Memorandwm ar ôl toriad yr haf.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn |
| **Argymhelliad 13.**<br><br>Dylai'r Gweinidog gadarnhau ei bod wedi gofyn i'r weithdrefn gael ei defnyddio ar gyfer pob pŵer dirprwyedig ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd ym Mesur y DU a bod ei chais wedi'i ganiatáu ym mhob achos. | **Derbyn**<br><br>Ar gyfer pob pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru, cytunais ar y weithdrefn i'w defnyddio.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn |
| **Argymhelliad 14.**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro pam yr oedd | **Derbyn**<br><br>Fel y nodwyd yn Argymhelliad 3, ceisiodd Llywodraeth Cymru gynnwys pwerau drwy Fil y DU gan mai hwn oedd y cyfrwng |

| | |
|---|---|
| angen cynnwys pwerau gwneud rheoliadau ym Mil y DU o dan gymal 52 ac Atodlen 9 yn hytrach nag mewn Bil Cymreig yn y dyfodol sy'n ymdrin â pholisi ailgylchu fel rhan o'i agenda amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach. | mwyaf addas ar y pryd, i'n galluogi i fodloni rhwymedigaethau posibl Cyfarwyddeb yr UE. Er bod telerau ymadael y DU yn golygu ar hyn o bryd nad oes rheidrwydd cyfreithiol i drosi'r Gyfarwyddeb na bodloni'r amserlenni gofynnol, mae Llywodraeth Cymru yn dal i geisio cyd-fynd â'i huchelgeisiau mewn perthynas â phlastig untro.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 15**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro pam ei bod yn cymryd pwerau gwneud rheoliadau ym Mesur y DU heb syniad clir pryd y mae'n bwriadu eu defnyddio ac felly pam na ellid eu cynnwys mewn Bil Amgylcheddol i Gymru yn y Chweched Senedd. | **Derbyn.**<br><br>Cyfeiriaf y Pwyllgor at fy ymatebion i argymhelliad 3 a 5.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 16**<br><br>Dylai'r Gweinidog ofyn am welliant i Fil y DU sy'n cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i wneud rheoliadau o dan adran 33ZB(10A) a 34ZB(8A) o *Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990*, fel y'u mewnosodwyd gan gymal 66 o Fil y DU. | **Gwrthod**<br><br>O ystyried bod hwn yn bŵer diweddaru (rhoi un ffigur ar gyfer un arall), bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol o ystyried ei chwmpas cyfyngedig. Mae'r broses o ddiwygio'r symiau cosb yn gofyn am is-ddeddfwriaeth ac maent yn destun asesiad priodol o'r effeithiau er mwyn sicrhau bod yr hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu gosod ar lefel addas. |
| **Argymhelliad 17**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro:<br><br>▪ pam ei bod mor bwysig cynnwys cymal 70 fel y mae'n berthnasol i Gymru ym Mil y DU, yn hytrach nag yn y Bil Aer Glân sydd i'w gyflwyno yn y Chweched Senedd; | **Derbyn**<br><br>O ran ansawdd aer, yn benodol cymal 70 ac Atodlen 12 i Fil Amgylchedd y DU, y rhesymeg dros ddefnyddio Bil Amgylchedd y DU yw sicrhau manteision i weithgynhyrchu a defnyddwyr cyn gynted â phosibl. Bydd busnesau a /gweithgynhyrchwyr yn elwa wrth i'r oedi rhwng cael argymhelliad gan yr arbenigwyr technegol sy'n argymell cynhyrchion i'w defnyddio a rhoi cynnyrch ar y farchnad gael ei leihau; bydd mabwysiadu rhestri cyhoeddedig yn lleihau'r lwfans ansicrwydd wrth gofnodi a diweddaru'r rhestri o gynhyrchion y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon; a bydd proses symlach, fwy effeithiol yn cynyddu dewis y defnyddiwr wrth i fwy o gynhyrchion ddod i'r farchnad yn |

| | |
|---|---|
| ▪ heb y pwerau hyn, pan fyddai Gweinidogion Cymru yn diwygio rheoliadau sy'n ymwneud ag ardaloedd rheoli mwg nesaf, gan ddefnyddio eu pwerau o dan Ddeddf *Aer Glân 1993*. | gynt. Yn ogystal â manteision economaidd i weithgynhyrchwyr a mwy o ddewid i'r cyhoedd, bydd manteision amgylcheddol hefyd gan y bydd gwella sut y gweithredir y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru yn ei gwneud yn haws i nodi cynhyrchion y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon mewn ardaloedd rheoli mwg. Barnwyd mai Mesur Amgylchedd y DU oedd y cyfrwng cyflenwi a allai sicrhau'r gwelliant hwn i weithrediad y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru yn gynt nag unrhyw fecanwaith arall.<br><br>Unwaith y bydd cymal 70 wedi ei ddeddfu, diddymir pŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i awdurdodi tanwyddau cymeradwy o dan adran 20(6) o Ddeddf Aer Glân 1993, yn ogystal â phŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i eithrio cyfarpar/lleoedd tân o dan adran 21(5) o'r un Ddeddf. Bydd y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru (yn wahanol i bŵer) a gyflwynir drwy ddeddfu'r Bil i greu rhestrau cyhoeddedig yn swyddogaeth weinyddol yn hytrach na swyddogaeth gwneud rheoliadau/deddfwriaethol.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 18.**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro'n glir pam ei bod yn fwy priodol disodli adrannau presennol Deddf y *Diwydiant Dŵr 1991* â phwerau gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf honno. | **Derbyn**<br><br>Mae cymal 75(3) i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru yn diddymu adran 37B a 37C o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynlluniau Sychder. Mae adran 37B yn ymdrin â chyhoeddi'r cynlluniau hynny a sylwadau arnynt. Mae hyn yn cynnwys pwerau eang i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau a Chyfarwyddiadau mewn perthynas â chynlluniau o'r fath. Yna, mae adran 37C yn ymdrin â darpariaethau gwybodaeth rhwng cyflenwyr dŵr trwyddedig i ddarparu'r ymgymerwyr dŵr.<br><br>Mae adran 37B yn cynnwys gofyniad i gwmnïau dŵr ymgynghori â Gweinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru cyn paratoi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft ar Gyfer Sychder. Fodd bynnag, mae gofyniad i ymgynghori ar gynlluniau drafft wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2007 a Rheoliadau Cynllun Sychder 2005 ac felly mae'r gofyniad i ymgynghori yn dal i fodoli er gwaethaf diddymu adran 37B o'r Ddeddf.<br><br>Mae cymal 75(7) o Fil yr Amgylchedd yn mewnosod Adran 39F newydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Nid yw hyn yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion – yn ei hanfod mae'n ailddeddfu'r rhan fwyaf o'r pwerau sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn Adran 37B i wneud rheoliadau a chyfarwyddiadau ac, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynlluniau gael eu hanfon at Weinidogion Cymru, mae'n galluogi'r rheoliadau i ddarparu ar gyfer system arall, er enghraifft i ymateb yn uniongyrchol i'r cwmni dŵr sy'n cynnal yr ymgynghoriad. |

| | |
|---|---|
| | **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 19**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro'r rhesymeg dros gymryd y pwerau cyfarwyddo yn adrannau arfaethedig 39G(1) a 94C(8) o *Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991* (a fewnosodwyd gan gymalau 75 a 76 o Fil y DU) ac egluro sut y dylid eu defnyddio. | **Derbyn**<br><br>Mae Adran 39G(1) arfaethedig yn dweud y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 39F roi pŵer i'r Gweinidog wneud darpariaeth drwy gyfarwyddiadau. Nid yw hyn yn rhoi pwerau i'r Gweinidog wneud Cyfarwyddiadau – mae'n galluogi rheoliadau i roi pwerau cyfarwyddo i'r Gweinidog.<br><br>Mae'r pŵer i alluogi'r Gweinidog i roi Cyfarwyddiadau yn gul ac yn benodol ac mae wedi'i gyfyngu i'r weithdrefn a'r manylion ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr neu sychder. Maent i raddau helaeth yn ailadrodd y pwerau Cyfarwyddo a roddir i'r Gweinidog ar hyn o bryd gan adran 37 y mae'r Bil yn eu diddymu ac nad ydynt yn darparu pwerau ychwanegol.<br><br>Un enghraifft yw Cyfarwyddiadau Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (Cymru) 2016 sy'n cyfarwyddo'r cwmnïau dŵr i baratoi WRMP ar gyfer 2020<br><br>Bwriedir i'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Draenio a Rheoli Gwastraff (DWMP) adlewyrchu'n fras y broses a gymhwysir at gynlluniau rheoli adnoddau dŵr a sychder, felly mae adran 94C(8) sy'n berthnasol i DWMP yn ail-adrodd adran adran 39G(1) sy'n berthnasol i gynlluniau eraill.<br><br>Bydd unrhyw ddefnydd o'r pwerau Cyfarwyddo yn cael ei ragnodi i'r Rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau hyn, a byddant yn rhan o'r fframwaith rheoleiddio. Ymgynghorir ar y rhain cyn iddynt gael eu gwneud. Defnyddir y pwerau Cyfarwyddo ar gyfer pwyntiau proses neu weithdrefn manwl fel ar hyn o bryd.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 20**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro: ▪ pam nad yw wedi trafod cymal 81 gyda Gweinidogion y DU o gofio ei fod yn bŵer cydamserol a mwy sy'n effeithio ar Gymru; a<br>▪ pam mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y cymal hwn yn fwy cyfyngedig yn yr | **Derbyn**<br><br>Mae ymgysylltu ar lefel Swyddogol wedi bod yn ddigon i sicrhau cytundeb ar y cymalau hyn.  Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Defra wedi trafod Cymal 82 annibynnol a Chymal 81 ar yr un pryd. Y rhesymeg dros raddau tiriogaethol Cymal 81 oedd, pe bai'r gweinyddiaethau datganoledig yn cydsynio, y gellid gosod y sylweddau a'r safonau i'w hystyried wrth asesu statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear ar sail y DU i raddau Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r ardaloedd basn afon trawsffiniol â'r Alban. Byddai hyn yn sicrhau dau fantais; cael safonau unffurf ar draws y tiriogaethau hyn ac osgoi'r angen am sawl set o reoliadau. |

| | |
|---|---|
| Alban nag yng Nghymru. | Nid yw pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yng Nghymal 81 yn fwy cyfyngedig yn yr Alban nag yng Nghymru.<br><br>Mae is-adran (4) yn sefydlu mai dim ond gyda'u caniatâd y gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pwerau yn yr adran hon i wneud darpariaeth y gallai Gweinidogion Cymru neu DAERA ei gwneud o dan eu pwerau eu hunain yng nghymalau 82 ac 83 yn y drefn honno. Gan nad oes cymal annibynnol tebyg ar gyfer Gweinidogion yr Alban*, mae is-adran (5) yn sefydlu mecanwaith cydsyniad tebyg pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y pwerau mewn rhan o ardaloedd basn afon trawsffiniol yn yr Alban sydd yn yr Alban. Mae hyn yn angenrheidiol gan fod is-adran (2), sy'n sefydlu'r ddeddfwriaeth ansawdd dŵr berthnasol, yn cynnwys Rheoliadau Dosbarth Basn Afon Solway Tweed a Northumbria (RBD). Rhanbarthau trawsffiniol yw'r rhain sy'n pontio'r ffin rhwng Lloegr a'r Alban.<br><br>Nid oedd Gweinidogion yr Alban am gymryd pŵer annibynnol math cymal 82/83 ym Mil yr Amgylchedd gan fod y Rheoliadau ar gyfer ardal anffiniol yr Alban ('RBD yr Alban') wedi'u nodi yn neddfwriaeth sylfaenol yr Alban ac maent yn bwriadu creu pwerau eu hunain mewn Bil yn yr Alban.<br><br>**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn. |

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
—
Welsh Parliament
**External Affairs and Additional Legislation Committee**



Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

28 Ionawr 2021

Annwyl Mick

**Fframweithiau Cyffredin**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi bod yn monitro'r rhaglen waith fframweithiau cyffredin, ac o'r herwydd ysgrifennais at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ar 27 Ionawr 2021 i ofyn am eglurhad ymgyhlch statws y fframweithiau sy'n ymwneud â Chymru.

Gallai hyn fod o ddiddordeb i'ch Pwyllgor, ac amgaeaf gopi o'r ohebiaeth er gwybodaeth i chi.

Yn gywir,

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.wales
0300 200 6565

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
—
Welsh Parliament
**External Affairs and Additional Legislation Committee**

Jeremy Miles AS
y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Llywodraeth Cymru

27 Ionawr 2021

Annwyl Jeremy,

Fframweithiau Cyffredin

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ("y Pwyllgor") wedi bod yn monitro rhaglen waith y fframweithiau cyffredin ac mae hefyd wedi ymgymryd â gwaith craffu ar faes sawl fframwaith.

Rwy'n ysgrifennu i ofyn am eglurhad o statws y fframweithiau sy'n ymwneud â Chymru.

Ein dealltwriaeth ni yw bod Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro ("Fframwaith dros dro") ar gyfer maes pob fframwaith sy'n gymwys i Gymru, ac eithrio'r fframweithiau sy'n ymwneud â: chydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol; gwasanaethau; gwrtaith; a chynhyrchion organig. **A allwch gadarnhau a yw'r dehongliad hwn yn gywir?**

Er mwyn i Fframwaith dros dro fod yn weithredol, roeddem wedi deall y byddai angen cytundeb pob un o lywodraethau'r pedair gwlad trwy'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE). **A allwch egluro statws maes pob fframwaith, h.y. a yw Fframwaith dros dro wedi cael ei gytuno gan bob un o'r pedair llywodraeth yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ac, os nad yw, beth yw statws meysydd y fframweithiau hyn.** Er enghraifft, a ydynt yn cael eu hystyried yn weithredol rhwng yr Alban, Cymru a Lloegr, ond nid Gogledd Iwerddon mewn rhai achosion?

Os yw Fframweithiau dros dro yn bodoli, credwn ei bod yn hanfodol iddynt gael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl. Er bod gennym ddiddordeb o ran craffu ar y cytundebau hyn, ein prif bryder yw tryloywder. Mae'n bwysig bod Fframweithiau dros dro (a dogfennau cysylltiedig fel concordatiau) ar gael i randdeiliaid a'r cyhoedd fel eu bod yn gallu dechrau deall sut y bydd y meysydd polisi hyn yn

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru
0300 200 6565


**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.wales
0300 200 6565

gweithredu yn y DU nawr bod y cyfnod trosglwyddo wedi dod i ben. **Gofynnwn ichi gyhoeddi'r holl Fframweithiau dros dro sy'n weithredol ar hyn o bryd cyn gynted â phosibl, hyd yn oed os bernir nad ydynt yn barod ar gyfer craffu ffurfiol llawn. Fel yr ydym wedi dweud o'r blaen, credwn y dylid eu gosod gerbron y Senedd ochr yn ochr ag unrhyw gamau eraill i'w gwneud yn gyhoeddus.**

Wrth wraidd y rhaglen fframweithiau mae ymrwymiad gan y pedair llywodraeth i beidio â gwyro oddi wrth gyfraith wrth gefn yr UE mewn maes fframwaith nes bod cytundeb fframwaith wedi'i gytuno'n derfynol. **A allwch gadarnhau bod yr ymrwymiad hwn yn dal o safbwynt Llywodraeth Cymru ac, i'r graddau yr ydych yn ei deall, fod llywodraethau gwledydd eraill y DU yn dal yr ymrwymiad hwn?**

Diolch am ystyried y cwestiynau hyn. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol